
Adolygiad o amlygrwydd i ddarllediadau gwasanaeth cyhoeddus

Datganiad ar newidiadau i'r Cod EPG

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: Dydd Iau, 4 Gorffennaf 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Darlledu gwasanaeth cyhoeddus a rol rheolau amlygrwydd	6
3. Ein dull o bennu amlygrwydd priodol	12
4. Penderfyniadau ynghylch amlygrwydd priodol ar gyfer sianeli dynodedig	22

Atodiadau

- A1. Y Fframwaith Deddfwriaethol
- A2. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- A3. Asesiad Ofcom o'r sylfaen dystiolaeth
- A4. Dehongli a modelu prisiau slotiau EPG Ofcom
- A5. Y Cod EPG : darpariaethau amlygrwydd priodol
- A6. Ymatebion rhanddeiliaid

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniadau i sicrhau bod y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (DGC) traddodiadol yn parhau'n hawdd i wylwyr teledu ddod o hyd iddynt a'u gwyllo ar gyfeiryddion rhaglenni electronig (EPG).

Mae amlygrwydd, neu'r gallu hawdd i ganfod darlediadau gwasanaeth cyhoeddus, yn bwysig i sicrhau bod gwylwyr yn parhau i fwynhau manteision darlediadau gwasanaeth cyhoeddus a bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau'n gynaliadwy. Mae Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn galluogi gwylwyr i ddod o hyd i sianeli teledu traddodiadol (neu sianeli 'unionlin') a'u dewis. Cod EPG Ofcom sy'n pennu'r rheolau sy'n dweud ble mae rhaid i'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ymddangos ar y cyfeiryddion hyn.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud o ran diweddarau'r Cod EPG. Mae gwylwyr yn gwyllo mwy a mwy o gynnwys ar-lein, felly law yn llaw â'r ddogfen hon rydym hefyd yn gwneud argymhellion i'r Llywodraeth ar gyfer deddfwriaeth newydd i sicrhau bod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau'n amlwg ar wasanaethau a dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu.¹

Ein penderfyniad – yn gryno

Mae sianeli teledu traddodiadol yn dal i gael eu gwyllo'n eang ac yn cael eu gwerthfawrogi. Cafodd darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei sefydlu gan y Senedd i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o raglenni teledu gwreiddiol o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion a buddiannau'r gwylwyr. Mae rheolau amlygrwydd yn galluogi gwylwyr i ddod o hyd i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd a mwynhau'r manteision y mae'n eu cynnig, nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn diogelu safleoedd EPG BBC One, BBC Two, trwyddedigion Channel 3, Channel 4, Channel 5 ac S4C. Y pum brif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw sylfaen darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU, yn darparu rhaglenni o ansawdd uchel ar draws amrywiaeth eang o genres ac yn dod ag ystod eang o fanteision cymdeithasol ac unigol. S4C yw'r unig ddarlledwr Cymraeg, ac mae'n darparu ystod eang o raglenni amrywiol, o ansawdd uchel, yn y Gymraeg. Rydym yn diwygio'r Cod EPG i wneud yn siŵr ei bod hi'n dal yn hawdd dod o hyd i'r sianeli hyn.

Rydym hefyd yn pennu lefelau sylfaenol o amlygrwydd i wasanaethau teledu lleol a sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill. Mae amryw o sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill a sianeli teledu lleol yn darparu cynnwys sydd un ai â ffocws genre mwy penodol (e.e. BBC News neu BBC Four) neu â chynulleidfa darged benodol (e.e. CBeebies sy'n targedu plant ifanc iawn neu BBC Scotland sy'n targedu gwylwyr yn yr Alban). Mae'r sianeli hyn yn cynnig amrywiaeth eang o fanteision cymdeithasol ac unigol, a bydd darparu lefelau sylfaenol o amlygrwydd yn ei gwneud yn haws dod o hyd i rai sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn sicrhau lefel briodol o amlygrwydd

¹ Review of prominence for public service broadcasting: Recommendations to Government for a new framework to keep PSB TV prominent in an online world
https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/154461/recommendations-for-new-legislative-framework-for-psb-prominence.pdf

i'r sianeli hyn yn y dyfodol. Bydd hefyd yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparwyr EPG o ran ble mae'r sianeli hyn yn ymddangos ar eu rhestrau sianeli.

Dim ond crynodeb syml ar lefel uchel yw'r trosolwg hwn. Mae'r brif ddogfen a'r atodiadau ategol yn cynnwys esboniad llawn a chasgliadau.

Mae amlygrwydd yn gymorth i ddarparu Darlediadau Gwasanaeth Cyhoeddus

- 1.1 Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cael ei sefydlu mewn statud i ddod â lluo o fanteision i wylwyr yn y DU, yn cynnwys darparu amrywiaeth eang o raglenni gwreiddiol o ansawdd da sy'n adlewyrchu'r DU iddi hi ei hun; dod â'r genedl at ei gilydd ar adegau pwysig; hysbysu, addysgu a difyrro. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn nodi dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a swyddogaeth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sef BBC, ITV, STV, Channel 4, S4C a Channel 5, wrth gyflawni'r rhain. Mae amryw o gyfrifoldebau rheoleiddiol ar Ofcom i sicrhau bod y darlledwyr hyn yn diwallu anghenion a buddiannau gwahanol bobl ar draws y DU.
- 1.2 Mae'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol yn fodd i sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael, ac yn sicrhau ei fod yn amlwg. Mae amlygrwydd yn golygu ei bod hi'n hawdd dod o hyd i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a'i wyllo, ac mae hynny'n gymorth i gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r gallu i ganfod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddiogelu drwy sicrhau bod y sianeli traddodiadol neu 'linol' uchod yn hawdd eu canfod mewn cyfeirydd rhaglenni ('cyfeirydd rhaglenni electronig' neu EPG). Mae Ofcom wedi sefydlu Cod ar gyfer darparwyr EPG (y 'Cod EPG') sy'n cynnwys rheolau ar amlygrwydd priodol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau teledu lleol.

Sicrhau bod sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn slotiau EPG amlwg

- 1.3 Ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom adolygu amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac ymgynghori ar newidiadau i'r Cod EPG.² Fe wnaethom ganfod bod yr hyblygrwydd yn ein Cod EPG presennol, dros amser, wedi cyfrannu at rai amrywiadau sylweddol ar draws darparwyr EPG. Mae hyn wedi golygu bod rhai sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a theledu lleol yn llai hawdd dod o hyd iddynt, yn dibynnu ar y llwyfan a'r ddyfais teledu a ddefnyddir.
- 1.4 Cawsom nifer o ymatebion gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, teledu lleol a darlledwyr masnachol, darparwyr EPG, darparwyr llwyfan teledu a phartïon eraill sydd â diddordeb. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd i wylwyr ddod o hyd iddynt, ond cododd rhai bryderon am effaith ein cynigion a'r costau.
- 1.5 Rydym wedi ystyried yn ofalus yr holl ddadleuon a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae pennu amlygrwydd priodol i sianeli darlledu gwasanaeth

² Review of rules for prominence of public service broadcasters and local TV – Consultation on proposed changes to the linear EPG Code and future of the regime, ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/116273/consultation-epg-code-prominence-regime.pdf

cyhoeddus yn gofyn am lefel uchel o grebwyll rheoleiddio ac rydym wedi rhoi pwyslais penodol ar y gwerth y mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ei ddarparu i'r gymdeithas ac i unigolion. Mwy gwneud y Cod EPG yn fwy penodol yn sicrhau amlygrwydd priodol i'r holl sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a hefyd yn cefnogi arloesedd a dewis i ddefnyddwyr.

- 1.6 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion y buom yn ymgynghori arnynt, gyda thri newid (y byddwn yn eu trafod yn adran 4). Rydym yn pennu rheolau wedi'u seilio ar rifau slot o fewn EPG yn hytrach na rhifau tudalen. Rydym yn pennu lefel sylfaenol o amlygrwydd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni teledu digidol lleol, ond nid ydym yn gwneud hynny ar gyfer cyd-ddarllediadau o'r gwasanaethau hyn. Ac rydym yn rhoi cyfnod hwy na'n cynnig ymgynghori i ddarparwyr EPG i weithredu'r rheolau newydd (18 mis yn hytrach na 12 mis).
- 1.7 I rai sianeli, mae ein gofynion yn pennu eu hunion rif sianel EPG. I eraill, rydym yn pennu'r slot isaf lle caniateir eu rhestru. Bydd hyn yn diogelu safle'r holl sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn gwella hwylustod canfod rhai sianeli ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig penodol. Bydd y rheolau newydd hyn yn dod i rym ar 4 Ionawr 2021, ac maent yn cael eu crynhoi isod:

Sianel Ddynodedig	Rhwymedigaeth newydd	Effaith ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig
BBC One, BBC Two, trwyddedeion Channel 3, Channel 4 a Channel 5	Safle slot 1-5	Yn diogelu'r sefyllfa bresennol
S4C a Channel 4 ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig penodol i Gymru	S4C ar safle slot 4 yng Nghymru a Channel 4 o fewn yr 8 slot cyntaf	Bydd Channel 4 yn symud i fyny ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig Sky a Freesat yng Nghymru
BBC Four; BBC Scotland a BBC Alba yn yr Alban; ac S4C ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig ar draws y DU	O fewn y 24 slot cyntaf	Bydd S4C yn symud i fyny ar Virgin Media Bydd BBC Alba yn symud i fyny ar Virgin Media a Sky Bydd BBC Four yn symud i fyny yn yr Alban ar Freeview
Sianeli plant y BBC – CBBC a CBeebies	O fewn 8 slot cyntaf yr adran plant	Bydd sianeli'n symud i fyny ar Sky
BBC News a BBC Parliament	O fewn 8 slot cyntaf yr adran newyddion	Rhaid i sianeli aros uwchlaw'r lefel isaf
Gwasanaethau teledu lleol	O fewn y 24 slot cyntaf ar deledu daearol digidol yn unig	Rhaid i sianeli aros uwchlaw'r lefel isaf ar Freeview yn unig

Y camau nesaf

- 1.8 Daw ein newidiadau i ofynion amlygrwydd priodol y Cod EPG i rym ar 4 Ionawr 2021, a byddant yn disodli'r adran ar amlygrwydd priodol yn y Cod EPG presennol ar y dyddiad hwnnw.
- 1.9 Heddiw, rydym hefyd yn cyhoeddi ein hargymhellion i'r Llywodraeth o ran fframwaith newydd i gadw teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn amlwg. Bydd angen inni ymgysylltu â'r Llywodraeth a'r diwydiant dros yr haf i drafod yr argymhellion hyn a'r camau nesaf.

- 1.10 Mae ein gwaith ar amlygrwydd yn rhan bwysig o'n rhaglen darlledu gwasanaeth cyhoeddus ehangach, yn sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei gynnal a'i gryfhau i'r dyfodol. Heddiw, rydym hefyd wedi cyhoeddi, [dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus](#), sy'n disgrifio ein cynlluniau yn fanylach.

2. Darlledu gwasanaeth cyhoeddus a rôl y rheolau amlygrwydd

- 2.1 Mae'r adran hon yn crynhoi dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus (DGC), rôl y rheolau amlygrwydd i sicrhau y gall gwylwyr ddod o hyd yn hawdd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a'n gwaith hyd yma.
- 2.2 Sefydlwyd darlledu gwasanaeth cyhoeddus gan y Senedd Brydeinig i sicrhau bod gan y cyhoedd fynyddiad at deledu o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r DU iddi ei hun, yn dod â'r genedl at ei gilydd ar adegau pwysig, ac yn dysgu a rhoi gwybodaeth i gymdeithas. Mae hefyd yn help i sicrhau bod genres a mathau penodol o raglenni, a fyddai'n cael eu darparu'n llai helaeth pe bai'r farchnad yn unig yn rheoli, yn cael eu creu, e.e. y celfyddydau, crefydd a chynnwys gwreiddiol i blant. Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael i bawb yn rhad ac am ddim.
- 2.3 Mae dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi'u nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003³ (y Ddeddf), sef:
- a) darparu rhaglenni teledu sy'n delio ag ystod eang o bynciau;
 - b) darparu ar gyfer yr ystod ehangaf bosibl o gynulleidfaoedd – ar adegau gwahanol o'r dydd a thrwy wahanol fathau o raglenni; ac
 - c) cynnal safonau uchel o ran gwneud rhaglenni.
- 2.4 Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd drwy nifer o wasanaethau: gwasanaethau cyhoeddus y BBC, gwasanaethau Channel 3 (ITV ac STV), Channel 4 a Channel 5. Mae S4C a BBC Alba yn darparu sianeli Cymraeg a Gaeleg. Mae gofyn ar y sianeli hyn gyda'i gilydd i ddarparu cynnwys sy'n bodloni amcanion gwasanaeth cyhoeddus yn ogystal â chyflawni dibenion, cylchoedd gwaith neu ddyletswyddau penodol darlledwyr. Yn 2011, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd ddarpariaethau statudol ar gyfer gwasanaethau teledu lleol sydd â chylch gwaith i ddarparu gwasanaeth teledu a fydd yn dod â manteision cymdeithasol neu economaidd i ardal.⁴
- 2.5 Mae gan Ofcom ystod o gyfrifoldebau rheoleiddio i sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ateb anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd, yn cynnwys monitro perfformiad a gosod amodau perthnasol gorfodadwy ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol (ymysg pethau eraill) i'r sianeli gyflawni'u cylchoedd gwaith gwasanaeth cyhoeddus statudol⁵. O ran y BBC, mae'r Drwydded Weithredu yn gosod gofynion ar y BBC i gyflawni'i genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus penodol, fel y'u

³ Nodir y dibenion hyn yn adrannau 264(4) a (6) o'r Ddeddf: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/contents>

⁴ Gwnaed y gorchmynion perthnasol o dan adrannau 244 a 310 o'r Ddeddf, yn ogystal ag adran 5 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006.

⁵ Mae cylchoedd gwaith gwasanaeth cyhoeddus statudol Channel 3, 4 a 5 wedi'u nodi yn adran 265 o'r Ddeddf.

sefydlwyd yn Siarter Frenhinol y BBC. Mae'n cynnwys nifer o amodau rheoleiddio⁶, yn cynnwys gofynion o ran natur unigryw, cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau ar draws gwasanaethau cyhoeddus y BBC. O ran Channel 4 Corporation (C4C), rydym yn gosod amodau yn y drwydded ar gyfer ei phrif sianel, Channel 4, yn ogystal â gwerthuso perfformiad pob gwasanaeth C4C yn cyflawni'i ddyletswyddau mewn perthynas â chynnwys cyfryngau statudol⁷ sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth, safbwyntiau gwahanol a chynulleidfaoedd iau. O ran trwyddedeion Channel 3 a Channel 5, rydym wedi gosod amodau yn y drwydded yn cynnwys rhwymedigaethau ar gyfer newyddion, materion cyfoes, a chynyrchiadau rhanbarthol.⁸

- 2.6 Nid yw'n ddigon dim ond gwneud yn siŵr fod amrywiaeth o raglenni safonol yn cael eu gwneud a'u bod ar gael; rhaid iddynt hefyd fod yn hawdd i wylwyr ddod o hyd iddynt, eu gwyllo a'u mwynhau. Mae pwysigrwydd ei gwneud yn hwylus dod o hyd i sianeli yn cael ei gydnabod gan Senedd y DU, ac mae'r rheolau amlygrwydd yn ceisio sicrhau bod sianeli sy'n darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr yn hawdd dod o hyd iddynt.
- 2.7 Mae amlygrwydd hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran cynnal cynaliadwyedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae gofynion rheoleiddiol megis rhaglenni gwreiddiol neu ddarparu newyddion lleol yn cael effaith ar gostau, ac mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn cael nifer o fuddion i gefnogi cynaliadwyedd y system. Mae'r manteision hyn yn cynnwys sbectrwm (teledu daearol digidol), amlygrwydd ar gyfeiryddion rhaglenni electronig (EPG) ac, yn achos y BBC, refeniw'r ffi drwydded. Caiff y cydbwysedd hwn o rwymedigaethau a buddion ei alw yn 'gompact darlledu gwasanaeth cyhoeddus'.
- 2.8 Mae Ofcom wrthi'n ystyried pa mor gynaliadwy yw'r compact drwy hwyluso cyfres o ddadleuon ynghylch yr heriau sylfaenol sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y misoedd i ddod yn ogystal â chyhoeddi ein hasesiad o berfformiad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y pum mlynedd diwethaf.⁹ Mae ein gwaith ar amlygrwydd yn cyfrannu at y gwaith hwn a bydd yn sail iddo.

Rôl amlygrwydd a sianelu darlledu gwasanaeth cyhoeddus

- 2.9 Rydym yn cyhoeddi data yn flynyddol ar newidiadau yn arferion ac agweddau gwylwyr, yn ogystal â'n barn ni ar berfformiad marchnad ddarlledu'r DU.¹⁰ Mae'r ymchwil hwn yn dangos bod y farchnad ddarlledu wedi esblygu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ac erbyn hyn gall gwylwyr fanteisio ar ddewis llawer ehangach o wasanaethau a chynnwys

⁶ Gellir gweld Fframwaith Gweithredu'r BBC, yn cynnwys trwydded weithredu'r BBC, yma: <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/bbc-operating-framework/operating-framework>

⁷ Deddf s198A <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/section/198A>

⁸ Mae trwyddedau Channel 3 i'w gweld ar www.ofcom.org.uk/manage-your-licence/tv-broadcast-licences/current-licensees/channel-3 a Channel 5 ar https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/40376/channel-5-attachment-variation.pdf

⁹ Dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/155155/future-public-service-media.pdf

¹⁰ Ofcom, adroddiadau *Media Nations*, ar gael am: <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/media-nations>

- teledu nag erioed o'r blaen. Serch hynny, mae'r niferoedd sy'n gwyllo cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn uchel.
- 2.10 Roedd wyth o bob deg o bobl (80%) yn gwyllo o leiaf 15 munud o'r pum brif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn wythnos arferol yn 2018 ac roedd dros hanner yr holl gynnwys wedi'i ddarlledu a gafodd ei wyllo ar setiau teledu yn digwydd drwy un o'r pum brif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus.¹¹ Mae cynulleidfaoedd hefyd yn dal i werthfawrogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gyda gwylwyr yn rhoi sgôr uchel i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am 'newyddion dibynadwy' (59%) a 'sioeau sydd wedi'u gwneud yn dda, rhaglenni o safon uchel' (65%).¹²
- 2.11 Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn bwysig gan ei fod yn darparu amrywiaeth o fanteision cyhoeddus i wylwyr yn y DU. Mae'r manteision hyn yn cynnwys cynyddu gwybodaeth unigolyn am faterion penodol (e.e. drwy raglenni dogfen neu raglenni ffeithiol), yn ogystal â darparu gwerth cymdeithasol ehangach drwy ddod â'r genedl at ei gilydd i rannu profiadau fel digwyddiadau chwaraeon, neu hybu dadl ddemocrataidd wedi'i seilio ar wybodaeth ynghylch newyddion a materion cyfoes. Mae hwylustod canfod yn hybu mwy o wyllo ac felly'n help i ddarparu'r manteision cymdeithasol ac unigol hyn.
- 2.12 Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod modd canfod darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy reolau sy'n effeithio ar amlygrwydd neu safle penodol sianeli llinol ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi pa wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus (y 'sianeli dynodedig') sydd â hawl i 'amlygrwydd priodol'. Y gwasanaethau yw: holl sianeli'r BBC; gwasanaethau Channel 3 (ITV ac STV); Channel 4; Channel 5; S4C a sianeli teledu lleol.¹³ Ofcom sy'n gyfrifol am ddarparu arweiniad i ddarparwyr EPG ar amlygrwydd priodol mewn cod EPG.¹⁴ Cafodd Cod EPG presennol Ofcom ei gosod yn 2004 ac mae'n cynnwys arweiniad ynghylch amlygrwydd, hygyrchedd a chystadleuaeth deg ac effeithiol. Dim ond i'r adran ar amlygrwydd y mae'r datganiad hwn yn berthnasol.¹⁵ Mae rhagor o wybodaeth am y fframwaith deddfwriaethol presennol i Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig ac amlygrwydd ar gael yn [Atodiad 1](#).
- 2.13 Nid yw'r fframwaith rheoleiddio presennol ar amlygrwydd yn ymestyn i wasanaethau ar-alw ac ar-lein y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, nac i wasanaethau sy'n galluogi gwylwyr i lywio a dewis rhaglenni teledu y tu hwnt i'r EPG, fel y rhyngwynebaw defnyddwyr ar setiau teledu cysylltiedig, blychau pen-set a ffyn ffrydio. Rydym wedi cyhoeddi argymhellion ar wahân o ran fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar-lein.

¹¹ Ffynhonnell: BARB. Network, individuals 4+. Mae'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys gwyllo'u hamrywiadau sianel HD ond nid ydynt yn cynnwys eu sianeli +1.

¹² Ofcom PSB tracker 2018, https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/142426/PSB-tracker-2018-data-tables.pdf

¹³ Adran 310(4) o'r Ddeddf. Mae sianeli teledu lleol wedi bod â hawl i amlygrwydd yn sgil newid a ddaeth i rym o 31 Ionawr 2012 drwy Orchymyn y Cod Ymarfer ar gyfer Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (Ychwanegu Gwasanaethau Rhaglenni) 2011 ((SI 2011/3003)

¹⁴ Mae'r term 'darparwr EPG' yn golygu unrhyw sefydliad sy'n darparu cyfeirydd rhaglenni electronig yn unol â diffiniad adran 310 y Ddeddf Cyfathrebiadau ar drwydded o dan y Ddeddf Darlledu.

¹⁵ Cafodd yr adran hon yn y Cod EPG ar hygyrchedd ei hadolygu a'i diweddarau ar 27 Mehefin 2018: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0016/115261/statement-epg-accessibility.pdf.

Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG) a diweddarau'r cod EPG

- 2.14 Mae Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn rhestru a/neu'n hyrwyddo rhaglenni teledu gyda'i gilydd ac yn darparu modd o gael mynediad i'r rhaglenni hynny. Ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig, mae'r sianeli'n cael eu rhestru fel arfer mewn trefn esgynnol. Gall gwylwyr sgrolio drwy sianeli unigol, pori fesul tudalen neu hidlo yn ôl genre, e.e. newyddion. Gall defnyddwyr sgrolio drwy Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig i wyllo rhaglenni'n cael eu darlledu'n fyw, gweld beth sy'n dod nesaf ac, mewn rhai achosion, gweld beth sydd wedi'i ddarlledu'n barod.
- 2.15 Y prif ddarparwyr EPG ar hyn o bryd yw Sky, Virgin Media, YouView, Freesat, Digital UK (sy'n darparu EPG Freeview), BT ac EE. Nid yw'r Cod presennol yn rhagnodol ac mae rhoi lefel eang o hyblygrwydd i ddarparwyr EPG o ran ble y dylid lleoli'r sianeli dynodedig ar eu Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig eu hunain. Fodd bynnag, rhaid i ddarparwyr EPG gydymffurfio â'r tair egwyddor eang sydd wedi'u cynnwys yn y Cod EPG presennol:
- Dylai ddarparwyr EPG sicrhau bod eu dull o ymdrin ag amlygrwydd darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus wedi'i nodi mewn datganiad a bod modd ei gyfiawnhau'n wrthrychol;
 - Byddai Ofcom yn rhoi sylw i fuddiannau dinasyddion a disgwiliadau defnyddwyr wrth ystyried a yw dull penodol o restru sianeli dynodedig yn rhoi amlygrwydd priodol iddynt; ac
 - Dylai Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig alluogi gwylwyr sianeli dynodedig mewn ardal i ddewis y fersiynau rhanbarthol mwyaf priodol o'r sianeli hynny drwy'r prif restrau sy'n dangos y sianeli hynny, ar yr amod bod y darlledwr perthnasol wedi sicrhau gwasanaethau sy'n galluogi hyn.
- 2.16 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr EPG yn cynnig Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n benodol i'r gwledydd, er enghraifft, yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr EPG yn rhestru S4C yn y pedwerydd slot tra mae Channel 4 sy'n ymddangos yn y slot hwn mewn gwledydd eraill . Nid yw Virgin Media yn darparu Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sydd wedi'u trefnu'n llwyr ar sail ranbarthol. Fodd bynnag, mae'n darparu amrywiad ychydig yn wahanol i'w EPG ar gyfer yr Alban o'i gymharu â'i EPG ar draws y DU (lle mae BBC Scotland wedi ei restru mewn slot a neilltuwyd ar gyfer BBC One HD ar draws gweddill y DU). Er ein bod yn nodi'r amrywiad hwn, er symlrwydd, rydym yn cyfeirio at EPG Virgin Media fel un i'r DU gyfan.

Adroddiad 2018 Ofcom ac ymgynghoriad ynghylch pa mor hawdd yw dod o hyd i wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau teledu lleol

- 2.17 Cyflwynodd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ddyletswydd newydd ar Ofcom i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac adolygu'r Cod

EPG erbyn 1 Rhagfyr 2020.¹⁶ Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Ofcom ei adroddiad cyntaf ar argaeledd a hwylustod canfod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chynnwys teledu lleol (adroddiad 2018)¹⁷. Dangosai adroddiad 2018 rai amrywiadau yn amlygrwydd sianeli penodol, yn cynnwys safle Channel 4 ac S4C ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig gwahanol yng Nghymru, safle gwasanaethau teledu lleol a safle sianeli plant y BBC.

- 2.18 Mae rhai o'r amrywiadau hyn yn rhannol oherwydd amrywiadau yn y ffordd y mae blychau pen-set yn gweithio. Er enghraifft, a yw'r llwyfannau wedi'u dylunio i ddarparu Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig lleol neu beidio (e.e. EPG gwahanol yn ddibynnol ar ble mae'r cwsmer yn byw) a nifer y slotiau sydd ar gael fesul tudalen ar wahanol ddyfeisiau. Fodd bynnag, ceir amrywiadau hefyd o ganlyniad i wahaniaethau yn y ffordd y mae darparwyr EPG yn gweithredu eu Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig. Er enghraifft, mae modd i slotiau ar EPG Sky gael eu prynu a'u gwerthu gan ddarlledwyr drwy farchnad eilaidd, tra mae rhai llwyfannau yn rheoli safle sianeli ar eu Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig nhw yn fwy uniongyrchol. Nodasom hefyd fod dulliau rhai darparwyr EPG o ddyrannu'r slotiau yn newid, er enghraifft, Virgin Media yn monetieiddio (*monetise*) eu EPG.¹⁸ Hefyd, o dan y Cod EPG cyfredol, gall darparwyr EPG ddefnyddio amryw o wahanol ddulliau o ymdrin ag amlygrwydd priodol ar gyfer y sianeli dynodedig.
- 2.19 Roedd adroddiad 2018 hefyd yn asesu argaeledd a hwylustod canfod cynnwys fideo darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a theledu lleol ar-alw ar ddyfeisiau sydd wedi'u cysylltu. Rydym yn ystyried y canfyddiadau hyn yn ein dogfen ar wahân ar fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar-lein.¹⁹
- 2.20 Ochr yn ochr ag Adroddiad 2018, cyhoeddasom ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod EPG a set o egwyddorion ar gyfer fframwaith newydd ar gyfer amlygrwydd cynnwys ar-alw. Rydym bellach wedi ystyried yr ymatebion a gawsom i'n hymgyngoriad - bron 40 ohonynt. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniadau ar y diwygiadau i'r Cod EPG. Bydd y newidiadau hyn i'r rheolau yn sicrhau amlygrwydd priodol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus llinol a gwasanaethau teledu lleol ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig.

Asesu'r effaith

- 2.21 Mae asesiadau effaith yn ffordd werthfawr o asesu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y dewiswyd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Maent yn rhan o'r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau. Caiff hyn ei adlewyrchu yn adran 7 o'r Ddeddf, sy'n golygu bod rhaid i ni gynnal asesiadau effaith fel arfer lle byddai ein penderfyniadau yn debygol o

¹⁶ Adran 95 Deddf yr Economi Ddigidol 2017, yn cyflwyno adran newydd 311A at y Ddeddf : <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/30/contents>.

¹⁷ Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018 ar gael yma: <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/epg-prominence>

¹⁸ Gwerthodd Virgin Media slot 106 (a adawyd yn wag gan BBC Three) i Gorfforaeth Channel 4 yn 2017.

¹⁹ Review of prominence for public service broadcasting: Recommendations for a new legislative framework for PSB prominence in an online world https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/154461/recommendations-for-new-legislative-framework-for-psb-prominence.pdf

gael effaith arwyddocaol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu lle mae newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Fodd bynnag, fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal asesiadau effaith yng nghyswllt y rhan fwyaf o'i benderfyniadau polisi.²⁰

- 2.22 Roedd y dadansoddiad a gyflwynwyd drwy'r ddogfen ymgynghori (yn cynnwys yr atodiadau) yn darparu ein hasesiad o effaith ein cynigion ac roedd yn asesiad effaith, yn unol â'r diffiniad yn adran 7 o'r Ddeddf, o'n newidiadau arfaethedig i'r Cod EPG llinol. Wrth wneud ein penderfyniadau, rydym wedi ystyried y sylwadau a gyflwynwyd inni ar yr asesiad o'r effaith ac wedi diwygio ein dadansoddiad, lle bo hynny'n briodol.

Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

- 2.23 Rydym yn asesu effaith bosib ein holl swyddogaethau, polisiâu, prosiectau ac arferion ar y grwpiau cydraddoldeb canlynol: oed, anabled, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Gelwir hwn yn asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hunaniaeth.
- 2.24 Gwnaethom gynnwys asesiad o effaith ein cynigion ar gydraddoldeb yn ein dogfen ymgynghori. Rydym wedi ystyried effeithiau'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud yn awr ar gydraddoldeb, ac rydym wedi nodi ein hasesiad yn [Atodiad 2](#). Nid yw'n amlwg i ni y byddai canlyniad ein penderfyniadau i adolygu'r Cod EPG yn debygol o gael unrhyw effaith benodol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig. Yn fwy cyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd effaith unrhyw ganlyniad yn niweidio unrhyw grŵp o gymdeithas. Nid ydym ychwaith yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cynnal asesiadau effaith ar wahân mewn perthynas â chydaddoldeb y rhywiau neu hil neu gynlluniau cydraddoldeb o dan Gynlluniau Cydraddoldeb Anabled Gogledd Iwerddon.

²⁰ I gael rhagor o wybodaeth am ein hagwedd at asesiadau effaith, edrychwch ar ganllawiau Ofcom (2005), Arferion gorau wrth lunio polisiâu: Dull Ofcom o gynnal asesiad effaith https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0026/57194/better_policy_making.pdf

3. Ein dull o bennu amlygrwydd priodol

- 3.1 Yn yr adran hon, rydym yn trafod pam rydym yn diwygio'r Cod EPG ac yn disgrifio ein dull o bennu amlygrwydd priodol. Cododd yr ymatebion i'n hymgyngoriad nifer o faterion cyffredinol, yn cynnwys a ddylem fod yn diwygio'r Cod EPG o gwbl, a phwysigrwydd cefnogi arloesedd a hyblygrwydd darparwyr EPG. Rydym yn ymateb i'r sylwadau cyffredinol yn yr adran hon. Rydym hefyd yn nodi ein casgliadau ynghylch effeithiau safle slot ar ffigurau gwyllo ac a ddylid gosod gofynion o ran safle ar dudalen neu safle slot.
- 3.2 I orffen yr adran hon rydym yn disgrifio'r dull dadansoddol rydym yn ei fabwysiadu i bennu amlygrwydd priodol ac rydym yn trafod y sylwadau a wnaed am ein dull gweithredu yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn adran 4, rydym yn defnyddio'r dull gweithredu dadansoddol hwn ac yn nodi ein penderfyniadau ynghylch amlygrwydd priodol ar gyfer pob sianel ddynodedig.

Ydy'r holl sianeli dynodedig mewn safleoedd digon amlwg?

- 3.3 Yn ein dogfen ymgynghori fis Gorffennaf 2018, dywedasom ein bod o'r farn fod yr hyblygrwydd yn ein Cod EPG cyfredol wedi cyfrannu, dros amser, at rai amrywiadau sylweddol ar draws darparwyr EPG. Mae hyn wedi golygu bod rhai sianeli dynodedig yn llai hawdd dod o hyd iddynt, yn dibynnu ar y llwyfan a'r ddyfais teledu a ddefnyddir. Roeddem yn dadlau bod achosion lle byddai mwy o amlygrwydd yn briodol.²¹ Cafodd ein cynigion i ddiweddarau'r Cod EPG eu dylunio i gyflawni hyn ac i fod yn fwy penodol er mwyn sicrhau bod y Cod EPG yn parhau i gyflawni amcanion polisi'r fframwaith statudol.
- 3.4 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi ein diwygiadau arfaethedig i'r Cod EPG ac yn croesawu mwy o sicrwydd rheoleiddiol. Nododd Arqiva ei bod yn amlwg y bu amrywiadau yn y ffordd y mae'r canllawiau presennol ar amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cael eu dehongli gan wahanol ddarparwyr EPG ac roedd yn cydnabod y rhesymeg wrth wraidd ein dull newydd.²² Cytunai'r International Broadcast Trust (IBT) a Voice of Listener and Viewer (VLV) fod amrywiadau sylweddol ar draws darparwyr EPG wedi golygu ei bod yn llai hawdd dod o hyd i rai sianeli dynodedig.²³ Roedd VLV yn cytuno y dylai'r Cod EPG gael ei ddiwygio i ddarparu sicrwydd rheoleiddiol ar gyfer sianeli dynodedig a darparwyr EPG²⁴ ac roedd Viacom ac IBT²⁵ yn falch y byddai ein cynigion yn rhoi mwy o

²¹ Yn arbennig, am y rhesymau a nodir yn adran 4, mae mwy o amlygrwydd yn briodol ar gyfer Channel 4 ar EPG Sky Wales a Freesat Wales; ar gyfer BBC4 ar EPG Freeview yr Alban; ar gyfer BBC Alba ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig Virgin Media a Sky yn yr Alban; ar gyfer S4C ar EPG Virgin Media ac ar gyfer sianeli plant y ar Sky.

²² Arqiva, t2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/131177/Arqiva.pdf

²³ International Broadcasting Trust, t5 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/131185/International-Broadcasting-Trust.pdf; Voice of the Listener and Viewer, t2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf

²⁴ Voice of the Listener and Viewer, t2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf

²⁵ International Broadcasting Trust, t6 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/131185/International-Broadcasting-Trust.pdf

sicrwydd rheoleiddiol i'r prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.²⁶ Roedd y BBC yn dadlau y gallai sicrwydd annog buddsoddiad ac yn tynnu sylw at ymchwil sy'n dangos bod cynulleidfaoedd am i sianeli'r BBC fod yn amlwg.²⁷ Cododd C4C bryderon ei bod yn bosib i ddarparwyr EPG, o dan y Cod EPG cyfredol, danseilio hwylustod canfod rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus.²⁸

- 3.5 Dadleuai nifer o'r ymatebwyr,²⁹ fodd bynnag, nad oedd digon o dystiolaeth i gadarnhau a oedd problem gyda'r Cod EPG llinol presennol. Er enghraifft, dywedodd COBA nad oedd yn credu bod gennym dystiolaeth o unrhyw angen am newid o safbwynt y gynulleidfa³⁰ ac nad oedd ymchwil Ofcom ei hun yn dangos bod gwylwyr yn credu ei bod yn bwysig fod sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd dod o hyd iddynt. Roedd COBA hefyd yn dadlau nad ydym wedi dangos unrhyw dystiolaeth o fethiant gwasanaeth darlledu cyhoeddus oherwydd ei safle EPG ar hyn o bryd un ai o ran gallu i gyflawni dyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus neu lefelau gwyllo.³¹ Anghytunai Sky â'n hasesiad fod gwahaniaeth yn safleoedd sianeli yn golygu bod problem o ran amlygrwydd priodol. Roedd yn dadlau nad yw'r ffaith fod sianel gwasanaeth cyhoeddus mewn safle gwahanol ar un llwyfan o'i gymharu ag un arall o reidrwydd yn golygu nad yw'n hawdd dod o hyd iddi a'i gweld. Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon ynglŷn â'r angen am unrhyw ddiwygiadau i'r Cod EPG na fyddai'n golygu bod rhaid i ddarparwyr EPG weithredu ar unwaith, a pha mor gymesur fyddai'r diwygiadau.
- 3.6 Mae'r Senedd wedi rhoi gofyniad arnom i adolygu a diwygio'r Cod EPG.³² Wrth wneud hynny, rydym yn credu ei bod hi'n bwysig i wylwyr gael dewis o wasanaethau teledu sy'n wahanol o ran y sianeli sydd ar gael, a'r hyn y gellir ei wneud (e.e. nodweddion dylunio fel 'Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig ar yn ôl' a chwilio sianeli yn ôl genre), ac rydym yn nodi bod ein hymchwil wedi canfod bod pa mor bwysig yw hwylustod canfod i wylwyr yn amrywio'n sylweddol rhwng sianeli.³³ Nid yw amrywiadau yn safle sianeli ar draws gwahanol Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig ynddynt eu hunain yn anghydnaws ag amlygrwydd priodol ar gyfer sianeli dynodedig. Fodd bynnag, rydym yn dal o'r farn nad yw

²⁶ Viacom International Media Networks, t3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0016/131209/Viacom-International-Media-Networks.pdf

²⁷ BBC, paragraffau 26-27 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/131178/BBC.pdf

²⁸ Channel 4 Corporation, paragraffau 3.2-3.3, https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf

²⁹ Sky, t1 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF, COBA tudalennau 2-3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf, PACT, tudalennau 3-4 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/131195/PACT.pdf, BT, tudalennau 5-6 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/131179/BT.pdf, Enw wedi'i Gadw'n Ôl 2, t3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0018/131193/Name-Withheld-2.pdf, a Virgin Media, t1 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/131210/Virgin-Media.pdf

³⁰ COBA, t3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf; adran Sky

³¹ COBA, paragraff 10 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

³² Adran 95 o Ddeddf Economi Ddigidol 2017.

³³ Cyn ein hymgyngoriad ar newidiadau i'r Cod EPG, gwnaethom roi holiadur ymchwil omnibws ar waith i'n helpu ni i ddeall yn well pa mor bwysig yn hi i wylwyr fod sianeli yn hawdd eu gweld. Roedd cynulleidfaoedd yn rhoi pwys arbennig ar i'r pum brif sianel a BBC News fod yn hawdd dod o hyd iddynt. Mae crynodeb o'r canlyniadau ar gael yn y ddogfen ymgyngori (paragraff 4.14) https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/116273/consultation-epg-code-prominence-regime.pdf

safleoedd presennol sianeli dynodedig yn sicrhau amlygrwydd priodol i bob sianel ddynodedig, a bod angen gofynion mwy penodol. Rydym yn credu bod diwygio'r Cod EPG yn unol â'r fframwaith statudol ar gyfer amlygrwydd ac â'n dyletswyddau darlledu perthnasol eraill.³⁴

- 3.7 Nid ydym yn cytuno nad yw'n angenrheidiol nac yn gymesur gosod gofynion sylfaenol ar gyfer y sianeli dynodedig hynny yr ydym yn credu eu bod nhw'n amlwg yn barod. Mae sicrwydd rheoleiddiol yn gyffredinol o fudd i bob parti yn y farchnad, ac yn gymhellant i newid; bydd y Cod EPG diwygiedig yn sicrhau bod amlygrwydd priodol yn parhau i gael ei ddarparu.
- 3.8 Mae'r paragraffau canlynol yn ystyried y mesurau a ddefnyddiwyd gennym i ddiffinio neu ddisgrifio amlygrwydd o fewn EPG.

Mae slotiau EPG uwch yn fwy amlwg ac yn annog mwy o wyllo

- 3.9 Yn ein hymgyngoriad, gwnaethom ystyried ystod o dystiolaeth³⁵ i sefydlu a yw slotiau EPG sy'n nes i'r brig (h.y. slotiau sydd yn nes at ddechrau'r EPG neu'r adran ar genre penodol) yn tueddu i gael lefelau gwyllo uwch na sianeli cymharol sydd â slotiau EPG is. Gwnaethom hefyd gomisiynu gwaith ar werth slotiau EPG³⁶, a gadarnhaodd hefyd fod slotiau EPG uwch yn gyffredinol yn fwy gwerthfawr ac felly'n amlwg. Mae hyn yn cael ei ddisgrifio'n fwy manwl yn [Atodiad 3](#).³⁷ Yn gyffredinol, os yw popeth arall yn gyfartal, mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod slotiau EPG uwch yn tueddu i arwain at ffigurau gwyllo uwch, er nad safle EPG yw'r unig beth sy'n pennu faint o wyllo y mae sianel yn ei ddenu gan fod ffactorau megis ansawdd y cynnwys, gwerth y brand a marchnata hefyd yn gallu effeithio ar lefelau gwyllo.
- 3.10 Nid oedd rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn anghytuno bod safle ar yr EPG llinol yn bwysig ac mai'r slotiau sydd yn nes at ddechrau'r EPG neu genre yn yr EPG yw'r rhai mwyaf deniadol yn gyffredinol o ran lefelau gwyllo ac, i sianeli masnachol, refeniw hysbysebu. Dywedodd C4C fod safle ar EPG yn dal yn hollbwysig i'w gwneud yn haws dod o hyd i sianel ac er mwyn i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol sicrhau'r refeniw

³⁴ Ceir crynodeb o'r fframwaith deddfwriaethol perthnasol yn [Atodiad 1](#)

³⁵ Yn benodol, adolygasom yr adroddiadau canlynol: (i) [Technologia](#), Gwerth safleoedd sianeli a'u hamlygrwydd ar gyfeirddion rhaglenni electronig, a rheoli hyn i'r safon orau posibl: Adroddiad ar gyfer yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 4 Gorffennaf 2012; (ii) [Attentional](#), Dadansoddiad o Effaith Amlygrwydd Tudalen Gyntaf EPG ar Gynulleidfaoedd: Adroddiad ar gyfer Ofcom, Gorffennaf 2010; a (iii) [FEH Media Insight](#), Dadansoddiad o Effaith Amlygrwydd Tudalen Gyntaf EPG ar Gynulleidfaoedd: Adroddiad ar gyfer Ofcom, 29 Ebrill 2013. Oherwydd mai Dr Farid El-Husseini oedd awdur yr adroddiadau Attentional ac FEH Media Insight, rydym yn cyfeirio at y rhain gyda'i gilydd fel 'FEH' er hwylustod. Rydym hefyd wedi ystyried data cynulleidfaoedd gan BARB ynghylch cyrhaeddiad sianeli ar y prif Gyfeirddion Rhaglenni Electronig yn y DU, sydd wedi'u nodi yn ein hadroddiad EPG: <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/epg-prominence>

³⁶ Gwnaethom gomisiynu Expert Media Partners ("EMP") i archwilio'r farchnad ar gyfer Cyfeirddion Rhaglenni Electronig ac adrodd arni, yn benodol prisiau marchnad slotiau EPG yn yr adrannau Adloniant, Newyddion a Phlant ar lwyfannau Sky a Virgin Media. Cyhoeddassom adroddiad EMP ochr yn ochr â'n hymgyngoriad ar dudalen we wrpasol Ofcom: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/epg-code-prominence-regime>. Gweler Adroddiad Expert Media Partners (EMP) ar Farchnad y DU mewn Safleoedd EPG, Gorffennaf 2018, https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0025/116287/expert-media-partners.pdf.

³⁷ [Atodiad 3](#), paragraffau A3.3 – A3.16

sydd ei angen i'w helpu i gyflawni eu cylch gwaith.³⁸ Nododd y BBC eu bod yn credu bod amlygrwydd ar EPG yn amod angenrheidiol er mwyn cyflawni – heb safle EPG cryf, dim ots pa mor gryf yw'r cynnwys sy'n cael ei gynnig, mae cynulleidfaoedd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd iddo.³⁹

- 3.11 Dadleuai ITV fod gwylwyr, mewn rhai achosion, yn dysgu rhifau slot yn hytrach na phori drwy'r EPG, felly cyfyngedig fyddai effaith ein newidiadau arfaethedig yn yr achosion hynny.⁴⁰ Nododd Sky hefyd y gallai llwybrau eraill at gynnwys olygu bod sianel yn dal i ddenu lefelau gwyllo cymharol uchel, er ei bod yn is i lawr yr EPG. Er enghraifft, nododd fod CBBC a CBeebies yn sianeli cyrchfan, sy'n golygu bod gwylwyr yn chwilio'n benodol amdanynt a'u bod yn gyfarwydd â'u rhifau sianel.⁴¹
- 3.12 Fel y disgrifiwyd yn Adroddiad 2018, rydym yn cydnabod bod llwybrau eraill y tu allan i'r EPG sy'n galluogi gwylwyr i ddod o hyd i gynnwys.⁴² Fodd bynnag, rydym o'r farn fod yr EPG yn dal yn ffordd bwysig o gyrraedd cynnwys llinol a chydabu nifer o randdeiliaid yn eu hymatebion fod slotiau EPG uwch yn ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd iddynt a'u bod, felly, yn gallu hybu mwy o wyllo. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael i ni⁴³ yn cefnogi'r farn fod slotiau EPG uwch, os yw popeth arall yn gyfartal, yn tueddu i gael lefelau gwyllo uwch na sianeli cymharol sydd â slotiau EPG is. Nid oedd sylwadau ITV na Sky yn gwrthod y pwynt craidd hyn. Mae trafodaeth ar effeithiau penodol amlygrwydd ar sianeli plant ar gael ym mharagraffau 4.64 - 4.87.

Bydd ein Cod EPG diweddaedig yn diffinio amlygrwydd yn ôl safle slot

- 3.13 Yn ein hymgyngoriad, roeddem yn disgrifio'r lefel sylfaenol o amlygrwydd i sianeli ar dudalennau EPG, gan gydnabod bod Cyfeirddion Rhaglenni Electronig gwahanol yn dangos nifer gwahanol o sianeli ar bob tudalen. Er enghraifft, roeddem yn cynnig y dylai sianeli Gwledydd (fel sianeli BBC Alba a BBC Scotland) gael eu cyflwyno o fewn tair tudalen gyntaf EPG.
- 3.14 Tynnodd nifer o ymatebwyr, yn cynnwys ITV,⁴⁴ Sky,⁴⁵ a Digital UK⁴⁶ sylw at bryderon ynghylch ymarferoldeb dull sy'n seiliedig ar rifau tudalennau o ystyried yr amrywiadau yn nifer y slotiau fesul tudalen ar wahanol lwyfannau teledu, yn enwedig ar gyfer Freeview

³⁸ C4C, paragraff 1.4 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf

³⁹ BBC, t2 gwybodaeth ychwanegol am BBC Four

https://www.ofcom.org.uk/_resources/documents/consultations/category-1/116265-epg-code-and-prominence-regime/responses/bbc-four-response-additional-information.pdf

⁴⁰ ITV, t30 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/131186/ITV.pdf

⁴¹ Sky, paragraff 5.16 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

⁴² Adroddiad Ofcom ar hwylustod canfod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau teledu lleol: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0026/116288/report-psb-local-tv-discoverability.pdf

⁴³ Atodiad 3, paragraffau A3.3 – A3.16, https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/154380/annex-3-ofcoms-assessment-of-evidence-base.pdf

⁴⁴ ITV, t31 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/131186/ITV.pdf

⁴⁵ Sky, paragraff 7.6 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

⁴⁶ Digital UK, t2 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/131183/Digital-UK.pdf

lle'r oedd Digital UK yn nodi nad oedd yn rheoli'r toriadau tudalen ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig, gan mai'r derbynnydd (y teledu a blwch) a gwneuthurwyr sy'n rheoli'r rhain.⁴⁷

- 3.15 Mynegodd TechUK bryder nad oedd y term 'tudalennau' wedi'i ddiffinio a theimlai felly ei bod yn ffordd anaddas o fesur amlygrwydd sianeli ac archebu.⁴⁸ Nododd Sky fod gofyniad i restru sianel ar dudalen benodol yn anymarferol i ddarparwyr EPG fel Digital UK, nad ydynt yn rheoli nifer y safleoedd sy'n ymddangos ar bob tudalen – mae hyn yn cael ei reoli gan wneuthurwr y ddyfais.⁴⁹ Dywedodd Sky fod modd i ddull gweithredu ar sail tudalennau gael ei gamdefnyddio gan ddarparwyr EPG, er enghraifft drwy newid nifer y slotiau fesul tudalen, gan arwain ar wahanol lefelau o amlygrwydd i sianeli gwasanaeth cyhoeddus o ran niferoedd gwirioneddol y slotiau.⁵⁰
- 3.16 Rydym yn deall fod trefn arddangos ddiodyn Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig ar hyn o bryd yn amrywio rhwng pum ac wyth slot fesul tudalen, ond fod llai neu fwy o rifau yn bosibl. Mae gan y prif lwyfannau teledu drwy dalu, Sky a Virgin Media (sydd rhyngddynt ar gael mewn 45% o gartrefi'r DU),⁵¹ wyth slot fesul tudalen.⁵² Yn bwysig, gall cynulleidfaoedd hefyd newid yr hyn sy'n cael ei ddangos ar rai Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig gan effeithio ar nifer y sianeli a gyflwynir fesul tudalen (er enghraifft, drwy gynyddu maint y testun i wneud y wybodaeth yn fwy hygyrch).
- 3.17 Rydym wedi ystyried y dadleuon a gyflwynwyd gan randdeiliaid, yn arbennig y ffaith nad oes gan bob darparwr EPG reolaeth dros nifer y slotiau sy'n cael eu harddangos ar bob tudalen. Rydym wedi penderfynu bod y 'llawr' neu'r safle sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw sianel ddynodedig i gael ei ddisgrifio fel rhif slot yn hytrach na thudalen. Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar slotiau hefyd yn caniatáu ar gyfer amrywiadau am resymau hygyrchedd.
- 3.18 Er ein bod yn credu y bydd defnyddio dull seiliedig ar slotiau yn darparu canlyniadau sy'n cyfateb i'r dull gweithredu yn ôl rhif tudalen a nodwyd yn ein hymgynghoriad, mae rhai gwahaniaethau gyda rhai sianeli dynodedig yn ymddangos ychydig yn is i lawr yr EPG ar rai Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig nag a awgrymwyd yn ein cynigion ymgynghori. Mae'r gofynion seiliedig ar slotiau a'r effeithiau i bob sianel yn cael eu hadlewyrchu yn ein hasesiad diweddaedig yn adran 4.

Mae'r Cod EPG diwygiedig yn cefnogi arloesedd

- 3.19 Yn ein hymgynghoriad, ni wnaethom drafod sut y gallai darparwyr EPG arloesi yn yr EPG llinol. Fodd bynnag, cododd nifer o randdeiliaid y mater hwn. Roedd BT yn poeni, pe bai

⁴⁷ Digital UK, t3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/131183/Digital-UK.pdf

⁴⁸ TechUK, t2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0012/131205/techUK.pdf

⁴⁹ Sky, paragraff 7.6 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

⁵⁰ Sky, paragraff 7.6 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

⁵¹ Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB, 4ydd Chwarter 2018 (cyfanswm nifer y cartrefi a oedd â naill ai Sky neu gebl).

⁵² Yn gyffredinol, rydym yn deall bod modd cael rhwng pump ac wyth slot fesul tudalen ar Freeview. Freeview yw'r llwyfan mwyaf yn y DU (dim ond Freeview sydd gan 40% o gartrefi); fodd bynnag, nid oes data dibynadwy ynghylch faint o slotiau fesul tudalen sydd ar y dyfeisiau niferus y mae ar gael arnynt e.e. derbynnyddion teledu a blychau.

- Ofcom yn penderfynu cyflwyno gofynion amlygrwydd mwy rhagnodol ar gyfer sianeli dynodedig, y byddai hyn nid yn unig yn tarfu ar y rhestrau sianeli presennol ond y byddai hefyd yn llesteirio arloesi yn y dyfodol.⁵³ Cyflwynodd Ymateb dienw 1 ddadl debyg.⁵⁴
- 3.20 Roedd Sky yn poeni y byddai ein dull gweithredu yn lleihau'r cyfle ar gyfer amrywiaeth ymysg darparwyr EPG er anfantais i ddefnyddwyr a bod perygl iddo lesteirio arloesi ar adeg pan mae'n dod yn fwyfwy pwysig i lwyfannau traddodiadol gystadlu yn erbyn chwaraewyr mwy newydd yn y farchnad.⁵⁵ Yn yr un modd, mae TechUK hefyd yn rhybuddio y byddai dull rhy rhagnodol yn llesteirio arloesedd ac yn cyfyngu ar ddewis defnyddwyr, gan ffafrio dull sy'n rheoli'n ysgafnach yn lle hynny.
- 3.21 Tra mae'r Cyfeirddion Rhaglenni Electronig sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys rhestr o sianeli gyda slotiau wedi'u neilltuo iddynt, rydym yn ymwybodol y gallai darparwyr EPG ddymuno arloesi a chreu mathau newydd o Gyfeirddion Rhaglenni Electronig llinol. Felly, rydym wedi gwneud y Cod EPG yn fwy clir i adlewyrchu hyn ac wedi nodi, mewn achosion lle bydd ffurf yr EPG yn wahanol, y byddem yn disgwyl i'r sianeli dynodedig gael yr un lefel o amlygrwydd.⁵⁶

Mae'r cod amlygrwydd EPG diwygiedig yn sefydlu rhwymedigaethau sylfaenol

- 3.22 Yn ein hymgyngoriad, roeddem yn cynnig lefelau sylfaenol o amlygrwydd i sicrhau nad yw sianeli dynodedig yn gostwng yn is na'r lefel briodol o amlygrwydd; ar yr un pryd roeddem yn cefnogi dewis i'r gwylwr drwy ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparwyr Cyfeirddion Rhaglenni Electronig. Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon y gallai goblygiadau'r dull gweithredu hwn arwain at israddio sianel ddynodedig benodol o'i safle presennol lle mae'r safle presennol yn uwch na'r gofynion sylfaenol roeddem yn eu cynnig. Er enghraifft, roedd MG Alba yn poeni, gan ei bod eisoes yn uwch ar EPG Freeview yr Alban na'r 'llawr' a awgrymwyd gennym, na fyddai ein cynnig yn gwarantu ei safle presennol.⁵⁷ Codwyd pryderon tebyg gan ddarparwyr teledu lleol.⁵⁸
- 3.23 Mae cyflwyno gofynion sylfaenol i sianeli dynodedig yn rhoi sicrwydd, ar yr un pryd â chaniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparwyr EPG ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion sylfaenol. Yn bwysig iawn, mae'r dull gweithredu hwn yn gwarantu amlygrwydd priodol ac yn help i wireddu'r manteision cymdeithasol cysylltiedig, yn ogystal â manteision cadarnhaol o ran dewis i ddefnyddwyr. Nid ydym yn credu bod ein diwygiadau yn cynyddu, i raddau sylweddol, y cymhellion i ddarparwyr EPG symud sianeli dynodedig yn is i lawr eu Cyfeirddion Rhaglenni Electronig, ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n ein harwain i gredu y bydd darparwyr EPG yn ceisio gwneud hynny yn y dyfodol agos. Fodd

⁵³ BT, t5 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/131179/BT.pdf

⁵⁴ Ymateb dienw 1, t2

⁵⁵ Sky, paragraff 7.6 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

⁵⁶ Atodiad 5, paragraff 5 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0025/154384/annex-5-epg-code-appropriate-prominence-provisions.pdf

⁵⁷ MG Alba, t2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0016/131191/MG-Alba.pdf

⁵⁸ KMTV, t3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/131189/KMTV.pdf; Teledu diweddaraf https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/131190/Latest-TV.pdf

bynag, ein nod wrth osod gofynion sylfaenol yw sicrhau'r lefel o amlygrwydd sy'n briodol i bob un o'r sianeli dynodedig ar yr holl Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig, ac nid ydym yn credu y byddai'n briodol mynnu bod darparwyr EPG yn cadw lleoliad presennol pob sianel ddynodedig am byth.

Ein fframwaith dadansoddol

- 3.24 Fel sy'n cael ei ddisgrifio yn adran 2 ar rôl amlygrwydd mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn [Atodiad 1](#) ar y cyd-destun deddfwriaethol, mae'r drefn amlygrwydd yn rhan o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol ehangach sy'n cefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn cydnabod ei bwysigrwydd i'r DU. Nid ydym, felly, wedi ystyried a ddylai'r sianeli dynodedig fod yn amlwg; rydym yn canolbwyntio ar y lefelau o amlygrwydd sy'n briodol.
- 3.25 Erbyn hyn mae 13 sianel ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ynghyd â sianeli teledu lleol sydd â hawl i gael amlygrwydd.⁵⁹ O ystyried nifer y sianeli dynodedig sydd â hawl i amlygrwydd a natur yr EPG llinol, does dim modd rhoi'r un lefel o amlygrwydd i bob sianel. Mae'n rhaid i Ofcom arfer crebwyll o ran y lefel o amlygrwydd yr ydym yn credu sy'n briodol. Yn ein hymgyngoriad, roeddem yn grwpio sianeli i dri chategori bras: y pum brif sianel (BBC One, BBC Two, gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5), sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill ledled y DU (BBC Four, BBC News, BBC Parliament, CBeebies a CBBC) a sianeli penodol i wledydd ac ardaloedd neilltuol (S4C, BBC Alba, teledu lleol a BBC Scotland erbyn hyn).
- 3.26 Yn ein hymgyngoriad, fe gyflwynon ni gynigion a fyddai, yn ein barn ni, yn rhoi amlygrwydd priodol i bob sianel ddynodedig yng ngoleuni'r rôl y mae pob sianel yn ei chwarae yn y dirwedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac o ran y gwerth cyhoeddus a gaiff ei gynhyrchu. Roeddem hefyd wedi ystyried yr effaith ar wahanol grwpiau o randdeiliaid a allai ddeillio o'r newidiadau arfaethedig. Gwnaethom grynhoi'r effeithiau hyn, yn rhai cadarnhaol a negyddol, ar gynulleidfaoedd, y sianeli dynodedig, darlledwyr masnachol eraill a darparwyr EPG. Rydym yn trafod y sylwadau a ddaeth i law mewn perthynas â'n cynigion ar gyfer sianeli dynodedig yn adran 4.
- 3.27 Ni wnaeth y rhan fwyaf o randdeiliaid sylwadau ar y ffactorau yr oeddem ni wedi awgrymu y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar amlygrwydd priodol i sianel ddynodedig benodol. Fodd bynnag, holodd Sky a COBA pa mor gymesur oedd ein dull gweithredu, ar y sail na fyddai manteision Cod EPG diwygiedig o bosib yn fwy na'r effeithiau negyddol, megis colli refereniw i ddarlledwyr masnachol. Dywedodd Sky nad yw newidiadau arfaethedig Ofcom yn bodloni'r profion ar gyfer rheoleiddio da, sef bod yn angenrheidiol ac yn gymesur, wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn, ac nad yw'r cynigion mewn gwirionedd yn darparu fawr ddim budd, neu ddim budd o gwbl, i wylwyr na darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, er y gallent

⁵⁹ Mae'r rhain yn cynnwys: holl sianeli'r BBC; gwasanaethau Channel 3 (ITV ac STV); Channel 4; Channel 5; S4C a sianeli teledu lleol. Ers ymgyngoriad Ofcom ym mis Gorffennaf 2018, mae'r BBC wedi lansio sianel BBC Scotland ar 24 Chwefror 2019 a thrwy hynny gynyddu nifer y sianeli gwasanaeth cyhoeddus dynodedig o 12 i 13.

olygu tarfu sylweddol.⁶⁰ Dywedodd COBA fod ein cynigion yn anghymesur ac y gallent niweidio iechyd sianeli nad ydynt yn ddarllodwyr gwasanaeth cyhoeddus.⁶¹

- 3.28 Yn gyffredinol, mae manteision cymdeithasol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ansoddol ac yn anodd eu mesur mewn unrhyw ffordd ystyrion neu ddibynadwy. Yn ein hymgyngoriad, tynasom sylw at y ffactorau ansoddol allweddol yn ogystal â chynnal asesiad meintiol o effaith ariannol bosibl ein cynigion ar broffidioldeb sianeli masnachol (yn sgil symud i lawr yr EPG) ac ar allu darparwyr EPG i foneteiddio eu slotiau EPG (lle bo hynny'n berthnasol). Fodd bynnag, dim ond procsi oedd ein hasesiad o'r effaith ariannol debygol ar broffidioldeb sianeli masnachol ac ar ddarparwyr EPG perthnasol gan fod nifer o ffactorau eraill yn effeithio ar gostau, fel sefyllfa ariannol darlledwyr unigol, na allwn eu modelu'n rhesymol.
- 3.29 Mae gofyn am lefel uchel o farn ar ein rhan ni wrth bennu'r lefel o amlygrwydd sy'n briodol i bob un o'r sianeli dynodedig. Yn sgil ein dyletswyddau statudol, rydym wedi penderfynu rhoi pwyslais penodol ar y gwerth i gymdeithas ac unigolion o gael marchnad ddarlledu gymysg sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau teledu o safon uchel i gynulleidfaeod yn y DU, mewn ffordd sy'n cydnabod rôl arbennig y sianeli dynodedig. Rydym wedi bodloni ein hunain fod ein cynigion yn gymesur drwy ystyried yr holl ffactorau perthnasol a'r dystiolaeth sydd ar gael i ni, o ran yr elfennau ansoddol a meintiol, yn cynnwys sylwadau rhanddeiliaid. Mae rhagor o wybodaeth am ein sylfaen dystiolaeth ar gael yn Atodiad [3](#) a [4](#) ac yn ein model diweddaedig o'r effeithiau ariannol posibl, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r datganiad hwn.
- 3.30 Wrth asesu'r sianeli dynodedig, rydym wedi ystyried y ffactorau penodol sy'n berthnasol i bob sianel ddynodedig yn unigol. I wneud y ddogfen hon yn haws ei darllen, rydym wedi dadansoddi rhai sianeli - er enghraifft, BBC News a BBC Parliament – gyda'i gilydd, lle mae hynny'n gwneud synnwyr.
- 3.31 Wrth bennu amlygrwydd priodol i bob sianel ddynodedig rydym wedi ystyried y ffactorau canlynol. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod bod rhai o'r ffactorau hyn yn gydgyssylltiedig:⁶²
- **Cynulleidfaeod:** Bydd gwneud sianel ddynodedig yn fwy amlwg yn effeithio ar ddinasyddion a defnyddwyr. Fel y nodwyd uchod, mae amlygrwydd yn rhan o'r fframwaith ehangach sy'n cynnal y ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn cydnabod ei bwysigrwydd i'r DU. Rydym yn ystyried "gwerth cymdeithasol" a "gwerth personol i gynulleidfa".
 - **Gwerth cymdeithasol:** Mae amrywiaeth o fuddion cymdeithasol ehangach, sy'n fwy na'r buddion personol a gaiff y sawl sy'n gwyllo cynnwys penodol. Bydd gwneud sianel ddynodedig yn fwy amlwg yn tueddu i gynyddu lefelau gwyllo sianeli ac, o ystyried y math o gynnwys maen nhw'n ei gario, gall gynyddu'r gwerth

⁶⁰ Sky, t2 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

⁶¹ COBA, t2 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

⁶² Er enghraifft, i'r graddau y mae newid safle sianeli yn effeithio ar y cymhellion iddynt fuddsoddi mewn cynnwys, bydd hyn yn cael effaith ganlyniadol ar ddinasyddion a defnyddwyr.

cymdeithasol.⁶³ Er enghraifft, gall cynnwys teledu gefnogi cydlynid cymdeithasol drwy roi gwybodaeth i wylwyr am fywydau pobl eraill neu drwy alluogi gwylwyr i weld eu cymunedau nhw'n cael eu hadlewyrchu ar y sgrin; ac mae newyddion cywir, diduedd yn helpu pobl i gyfranogi yn y gymdeithas ar sail gwybodaeth ac yn hybu gweithrediad effeithiol democratiaeth leol a chenedlaethol.

- **Gwerth personol i gynulleidfa:** Mae cynulleidfaoedd hefyd yn cael ystod o fanteision personol o wylio cynnwys. Mae gwneud sianel ddynodedig yn fwy amlwg ac, yn sgil hynny, gwneud sianeli eraill yn llai amlwg, yn gallu effeithio ar y manteision hyn. Yn achos rhai gwylwyr, gall yr effeithiau hyn fod yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae gwylwyr sydd â diddordeb mewn cynnwys addysgol neu ddiwylliannol na fyddai eraill yn arbennig o amlwg fel arall yn fwy tebygol o ddod o hyd i hynny. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi ystyried y gallai gwylwyr eraill wynebu rhai effeithiau negyddol efallai. Er enghraifft, efallai y byddant yn ei chael hi'n fwy anodd dod o hyd i'r cynnwys y maen nhw'n ei ffafrio oherwydd bod sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn llenwi rhan uchaf yr EPG neu oherwydd bod eu hoff sianel wedi symud.
- **Y sianel ddynodedig:** Bydd gwneud sianel ddynodedig yn fwy amlwg yn tueddu i gynyddu lefelau gwyllo y sianel honno. Yn achos y sianeli masnachol, bydd hyn yn tueddu i gynyddu refeniw hysbysebu/nawdd, sy'n cynnal eu gallu i ddarparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel. Mae'n bosibl hefyd y bydd costau un-tro i sianeli sy'n cael eu symud i le newydd - er enghraifft, marchnata eu rhif slot newydd.
- **Darlledwyr eraill:** Bydd gwneud darlledwyr eraill yn llai amlwg er mwyn gwneud lle i sianel ddynodedig yn tueddu i leihau eu niferoedd gwyllo. Bydd hyn yn tueddu i leihau'r refeniw hysbysebu/nawdd y mae darlledwyr masnachol yn ei ennill. Mae cynaliadwyedd a gallu darlledwyr eraill i fuddsoddi yn berthnasol er mwyn sicrhau bod ystod eang o wasanaethau teledu safonol ar gael. Mae'n bosibl hefyd y bydd costau un-tro i sianeli sy'n cael eu symud i le newydd - er enghraifft, marchnata eu rhif slot newydd.
- **Darparwyr EPG:** Drwy gadw safleoedd amlwg i sianeli dynodedig, gallai hyn gyfyngu ar hyblygrwydd darparwyr EPG i drefnu eu EPG yn y modd sy'n fwyaf deniadol yn eu barn nhw ar gyfer eu cwsmeriaid, a gallai hyn hefyd leihau gallu darparwyr EPG i godi refeniw drwy werthu safleoedd penodol. Mae'n bosibl hefyd y bydd costau un-tro i sianeli sy'n ad-drefnu eu EPG, er enghraifft, costau gweinyddol a phrofion technegol. Rydym hefyd yn deall o'r ymatebion i'n hymgyngoriad ei fod yn arfer sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol yn y diwydiant fod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn darparu'r un rhif slot i sianel benodol ar draws y gwledydd i gyd, felly mae hynny bellach wedi'i ymgorffori yn ein hasesiad.

3.32 Mae ein dadansoddiad yn canolbwyntio ar effeithiau sy'n deillio o'r prif Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig trwyddedig, sef y rheini a ddarperir gan Digital UK, Sky, Virgin Media,

⁶³ Gallai hyn gael ei wrthbwyso hefyd drwy golli rhywfaint o werth cymdeithasol os yw'r niferoedd sy'n gwyllo sianeli eraill (e.e. sianel newyddion fasnachol) yn gostwng.

Freesat ac YouView. Rydym yn credu bod hyn yn cyfleu swmp y costau a'r buddion gan nad yw'r darparwyr EPG trwyddedig eraill ond yn gyfrifol am gyfran fechan o'r lefelau gwyllo.

- 3.33 Yn yr adran nesaf, rydym yn cymhwysu'r fframwaith uchod i bob sianel ddynodedig ac yn nodi ein penderfyniad ym mhob achos.

4. Penderfyniadau ynghylch amlygrwydd priodol ar gyfer sianeli dynodedig

- 4.1 Yn yr adran hon, rydym yn defnyddio'r dull gweithredu dadansoddol, a ddisgrifir yn adran 3 i bob sianel ddynodedig, ac yn rhoi ein penderfyniad ar amlygrwydd priodol ym mhob achos. Rydym yn rhoi ein barn hefyd am ddelio â sianeli fersiwn HD. Byddwn yn dod i gasgliad gan ystyried holl effaith pob un o'n penderfyniadau, y cyfnod gweithredu a'r camau nesaf. Bydd ein penderfyniadau yn cael eu rhoi ar waith drwy newid testun cyfredol yr adran amlygrwydd priodol yn y Cod EPG⁶⁴ gyda'r testun sydd wedi'i nodi yn [Atodiad 5](#).
- 4.2 Mae nifer fawr o opsiynau eraill y gellid eu hystyried (e.e. 23 slot cyntaf yn hytrach na'r 24 cyntaf). Awgrymodd rhai rhanddeiliaid syniadau eraill penodol i'r cynigion yn ein dogfen ymgynghori.⁶⁵ Yn gyffredinol, byddai dull gweithredu sy'n symud sianel ddynodedig i safle uwch yn dueddol o fod: (i) yn fuddiol ar gyfer y sianel ddynodedig, (ii) yn niweidiol i'r sianeli eraill y bydd angen eu symud i roi lle iddi ac i'r darparwr EPG, (iii) yn effeithio ar ddinasyddion a defnyddwyr mewn amryw ffyrdd. Fel rydym yn ei egluro uchod, mae'r penderfyniadau hyn yn gofyn am gryn farn reoleiddiol. Wrth gyrraedd y penderfyniadau sydd wedi'u nodi isod, rydym wedi ystyried y bydd opsiynau eraill yn cael effaith wahanol o dan yr amrywiol ffactorau rydym yn eu hystyried.⁶⁶ Rydym yn ystyried sylwadau rhanddeiliaid eraill na chawsant eu trafod yn y prif destun yn [Atodiad 6](#).

Pum prif sianel (BBC One, BBC Two, ITV, Channel 4 a Channel 5) ledled y DU a S4C yng Nghymru

Safleoedd presennol

- 4.3 Ar draws pob llwyfan (y tu allan i Gymru), mae'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC One, BBC Two, gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5) i gyd yn ymddangos yn y slotiau 1 i 5 neu, lle bo rhifau EPG yn cychwyn ar 100 neu 101, slotiau 101 i 105, ac maent yn ymddangos ar dudalen gyntaf rhestrau adloniant cyffredinol y Cyfeirydd Rhaglenni Electronig.⁶⁸ Maent yn ymddangos yn yr un drefn: BBC One, BBC Two, ITV / STV,

⁶⁴ Y testun ym mharagraffau 2 i 4 yn y Cod EPG presennol fydd yn cael ei newid https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0031/19399/epgcode.pdf

⁶⁵ Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys Sky, S4C, MG, Alba, ITV ac YouView.

⁶⁶ Rydym wedi diweddarau rhywfaint o'n tystiolaeth ers yr ymgynghoriad (e.e. defnyddio data gwylio mwy diweddar). Wrth wneud ein penderfyniadau, rydym wedi defnyddio cymysgedd o dystiolaeth o'r blynnyddoedd diwethaf. Rydym yn credu bod y deunydd hwn yn berthnasol ac yn addas i'r casgliadau y down iddynt wrth ei ddefnyddio.

⁶⁷ Rydym wedi diweddarau ein dadansoddiad i adlewyrchu newidiadau i'n cynigion, newidiadau i safleoedd y sianeli ers i ni gyhoeddi ein hymgyngoriad, a'r pwynt a gafodd ei gyfleu i ni yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad mai'r arfer yn y diwydiant yw bod sianeli yn cael yr un rhif slot ledled y DU ar unrhyw EPG. Mae ein dadansoddiad newydd ar gael yn [Atodiad 3](#).

⁶⁸ Nid ydym yn cynnwys unrhyw sianeli hyrwyddo statig neu syml e.e. slot 0 neu 100 y mae rhai darparwyr EPG yn eu defnyddio.

Channel 4 a Channel 5 ar draws pob un o'r blychau y gwnaethom ni eu profi yn ystod ein hadroddiad.⁶⁹

- 4.4 Yng Nghymru, S4C oedd y bedwaredd sianel i gael ei lansio, ac yn hanesyddol mae wedi llenwi slot 4. Yn wreiddiol, roedd yn darparu cymysgedd o raglenni Cymraeg ynghyd â rhywfaint o raglenni Channel 4. Ar ôl newid i'r digidol, roedd Channel 4 ar gael ar draws Cymru a daeth S4C yn sianel gwbl Gymraeg. Cadwodd S4C ei slot ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig a ddarperir i wylwyr yng Nghymru ac mae Channel 4 wedi bod mewn slotiau ymhellach i lawr ar y Cyfeiryddion hyn.⁷⁰

Cynigion yr ymgynghoriad a themâu'r ymatebion

- 4.5 Yn ein hymgyngoriad, roeddem yn cynnig gwarantu bod safleoedd presennol y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y pum slot uchaf ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n gweithredu ledled y DU neu'r tu allan i Gymru.⁷¹ Ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig a ddarperir i wylwyr yng Nghymru yn benodol, roeddem yn cynnig gwarantu'r pedwerydd slot i S4C.⁷²
- 4.6 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cytuno â'r cynnig yn ein hymgyngoriad, gan gyfeirio at y manteision o gael mwy o sicrwydd a buddsoddiad posib. Nododd BT bwysigrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'r ecoleg darlledu a'r rôl maent yn ei chwarae o ran rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd.⁷³ Roedd Freesat yn cefnogi gwarantu'r pedwerydd slot i S4C yng Nghymru.⁷⁴
- 4.7 Roedd rhai darparwyr EPG yn cwestiynu a oedd angen rheol o'r fath, yn ogystal â pha mor gymesur oedd hynny, ac ystyried na fydd angen gwneud unrhyw newidiadau'n ymarferol, ac yn dadlau na fyddai unrhyw symud yn yr EPG yn y dyfodol yn debygol o effeithio ar y sianeli hyn. Er enghraifft, dadl Sky oedd bod y farchnad eisoes yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, a bod rheoleiddio yn ddiangen ac yn mynd yn groes i'r arferion gorau o ran rheoleiddio.⁷⁵ Dywedon nhw ein bod wedi methu â darparu unrhyw dystiolaeth bod y slotiau mewn perygl neu na fyddem ni'n gallu cymryd camau yn erbyn darparwr EPG o dan ein trefniadau rheoleiddio presennol.⁷⁶

⁶⁹ For further information on testing and findings, see Ofcom's July 2018 publication, *EPG Prominence: Adroddiad ynghylch pa mor hawdd ydy dod o hyd i wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau teledu lleol* https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/116288/report-psb-local-tv-discoverability.pdf

⁷⁰ Er enghraifft, tudalen 3 ar Sky Cymru, tudalen 1/2 ar Freeview Cymru (mae hyn yn dibynnu ar nifer y slotiau fesul tudalen EPG – roedd gan y ddau flwch Freeview roeddem wedi'u profi ar gyfer yr adroddiad saith slot fesul tudalen, ond mae gan rai blychau Freeview chwe slot fesul tudalen), tudalen 4 ar Freesat Cymru.

⁷¹ Y pum slot uchaf yw'r slotiau 1 i 5 /101 i 105, gan nodi bod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig EPG rhai llwyfannau yn caniatáu lle i sianel hyrwyddo yn slot 0 neu 100.

⁷² Y pedwerydd slot yw slot 4 neu 104, gan nodi bod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig rhai llwyfannau yn caniatáu lle i sianel hyrwyddo yn slot 0 neu 100.

⁷³ BT, t5 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/131179/BT.pdf

⁷⁴ Freesat, t1 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0011/144101/Freesat.pdf

⁷⁵ Sky paragraffau 5.9 5.14 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

⁷⁶ Sky, paragraffau 5.11 – 5.13 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

Rhesymau a'r penderfyniad ynghylch y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac S4C

Effaith ar ddefnyddwyr a dinasyddion

- 4.8 Y pum brif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw sylfaen darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU, yn darparu rhaglenni o ansawdd uchel ar draws amrywiaeth eang o genres sy'n apelio at wylwyr ar draws y DU ac yn cael eu gwyllo gan lawer. Mae llawer iawn yn dal i wyllo'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus hyn, er gwaethaf y newidiadau mawr sydd wedi digwydd i'r dirwedd teledu yn y DU. Felly, mae'r sianeli hyn yn cynnig amrywiaeth eang o fanteision cymdeithasol ac unigol, gan gynnwys adloniant cyffredinol, yn ogystal â rhaglenni sy'n ysbrydoli ac yn addysgu.
- 4.9 Mae'r sianeli hyn wedi cadw eu cyfran o'r cynulleidfaoedd, gyda mwy na hanner (52%) o'r holl wyllo teledu a ddarledir yn mynd i'r sianeli hyn (yr un fath ag yr oedd yn 2016)⁷⁷ ac mae bodlonrwydd ymysg cynulleidfaoedd yn parhau i fod yn uchel ar 74% o'r gwylwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon.⁷⁸ Fel y nodwyd uchod, mae gwylwyr hefyd yn gwerthfawrogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel ffynhonnell ddibynadwy o newyddion a rhaglenni gwreiddiol o ansawdd uchel.⁷⁹ Mae gwylwyr yn gyfarwydd â gweld y sianeli hyn yn amlwg iawn.
- 4.10 Fel y trafodwyd yn adran 2, mae'r amrywiaeth eang o fanteision a gynigir gan y gwasanaethau hyn yn cael eu hategu gan ofynion rheoleiddiol sydd wedi'u llunio i sicrhau bod dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyflawni, ac, yn benodol ar gyfer y BBC, ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus. Er enghraifft, mae'r amodau penodol ar gyfer BBC One a BBC Two yn cynnwys 90% o'r oriau brig wedi'i neilltuo ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol,⁸⁰ cwtotâu ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes a nifer o ofynion sydd wedi'u llunio i sicrhau natur unigryw y gwasanaethau hyn.⁸¹ Rhaid i ITV, Channel 4 a Channel 5 gyflawni nifer o amodau trwydded penodol o ran rhaglenni gwreiddiol, newyddion a materion cyfoes, cynyrchiadau annibynnol, a gwneud rhaglenni rhanbarthol.
- 4.11 S4C yw'r unig ddarlledwr Cymraeg, ac mae'n rhaid iddo ddarparu ystod eang o raglenni amrywiol, o ansawdd uchel, gan gynnwys gwasanaeth i blant, drama, newyddion, adloniant, chwaraeon, rhaglenni ffeithiol, cerddoriaeth a digwyddiadau. Ymysg y gofynion penodol mae darparu 200 awr o newyddion a 60 awr o raglenni materion cyfoes bob blwyddyn,⁸² rhaid i 90% o'r cynnwys sy'n cael ei ddangos yn ystod oriau brig fod yn

⁷⁷ Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith, pob unigolyn (dros 4 oed). Mae'r sianeli'n cynnwys yr amrywiadau HD ar eu cyfer ond nid yr amrywiadau +1.

⁷⁸ Traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus Ofcom 2018

⁷⁹ Traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus Ofcom 2018; rhoddodd y gwylwyr sgôr uchel i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am 'newyddion dibynadwy' (59%) a 'sioeau sydd wedi'u gwneud yn dda, rhaglenni o safon uchel' (65%).

⁸⁰ Trwydded Weithredu'r BBC ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, t15

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/107075/bbc-operating-licence-cymraeg.pdf

⁸¹ Trwydded Weithredu'r BBC ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, t18-19

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/107075/bbc-operating-licence-cymraeg.pdf

⁸² Atodlen 12(9) CA03 – mae'r cwota fel y cytunwyd arno gydag Ofcom neu yn ôl cyfarwyddyd Ofcom.

wreiddiol⁸³ a 140 awr o raglenni gwreiddiol i blant, sy'n helpu i adlewyrchu bywydau plant yng Nghymru. Dywedodd S4C yn ei ymateb fod y Llywodraeth wedi tynnu sylw at y rôl hanfodol mae S4C yn ei chwarae yn adlewyrchu cymdeithas a diwylliant Cymru, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.⁸⁴ Tynnodd S4C sylw hefyd at ganlyniadau ei arolwg diweddar yn dangos bod y rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg o'r farn bod S4C yn berthnasol i hunaniaeth Cymru a'i phobl ac yn darparu'r ddarpariaeth orau o ddigwyddiadau yng Nghymru.⁸⁵

- 4.12 Rydym o'r farn bod gwarantu safleoedd y sianeli hyn yn sicrhau y byddant yn parhau i fod y sianeli mwyaf amlwg a hawdd eu darganfod, ac felly rydym yn cefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu amrywiaeth eang o fanteision. Fel y nodir ym mharagraff 3.29, yng ngoleuni ein dyletswyddau statudol, rydym yn rhoi pwys penodol ar yr effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr. Fel sydd wedi'i nodi gan Sky, gan mai'r sianeli hyn sydd yn y safleoedd EPG uchaf, ychydig o fanteision ychwanegol a ddaw yn sgil ein cynigion. Yn hytrach, cynnig sail reoleiddio gliriach i'r status quo a wnânt.⁸⁶

Effaith ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac S4C

- 4.13 Wrth gadw'r slotiau presennol, bydd hyn yn helpu'r sianeli hyn i gadw gwylwyr ac felly helpu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol i gynnal eu refeniw hysbysebu. Yng nghyswllt y BBC, mae lefelau gwyllo uchel BBC One a BBC Two yn cyfrannu at gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus. Wrth gynnig sicrwydd rheoleiddiol, gallai hyn hefyd leihau'r siawns y bydd yr holl sianeli hyn yn agored i risg fasnachol yn y dyfodol wrth iddynt gynllunio i fuddsoddi mewn rhaglenni yn y dyfodol.
- 4.14 Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys y BBC⁸⁷, Voice of the Listener and Viewer (VLV)⁸⁸ a Viacom⁸⁹ o'r farn bod sicrhau bod y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn aros yn y pum slot uchaf yn cynnig sicrwydd, a dywedodd y BBC y gallai hyn hybu buddsoddiad mewn cynnwys. Roedd ITV yn cytuno â'r cynnig, ond nid oedd yn ystyried ei fod yn cynnig unrhyw fudd o bwys.⁹⁰ Roedd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, TAC ac S4C yn cefnogi gwarantu'r pedwerydd slot i S4C yng Nghymru.⁹¹

⁸³ Atodlen 12(8) CA03 – mae'r cwota fel y cytunwyd arno gydag Ofcom neu yn ôl cyfarwyddyd Ofcom.

⁸⁴ Ymateb S4C, t2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/131198/S4C-English.pdf

⁸⁵ Ymateb S4C, t3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/131198/S4C-English.pdf

⁸⁶ Rydym yn mynd i'r afael â sylw Sky fod newid rheoleiddiol yn ddiangen yn adran 3.5 - 3.8.

⁸⁷ BBC, paragraff 27 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/131178/BBC.pdf

⁸⁸ VLV, t6 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf

⁸⁹ Viacom International Media Networks, t3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0016/131209/Viacom-International-Media-Networks.pdf

⁹⁰ ITV t29 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/131186/ITV.pdf

⁹¹ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, t1 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0016/131182/Culture,-Welsh-Language-and-Communications-Committee-of-the-National-Assembly-for-Wales.pdf; TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru), t2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/131207/Teledwyr-Annibynnol-Cymru.pdf; S4C t2-3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/131198/S4C-English.pdf

- 4.15 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu'r effeithiau hyn gan eu bod yn credu bod poblogrwydd y sianeli hyn yn golygu nad oes fawr o risg i'r sianeli hyn gael eu symud o'u slotiau amlwg, a bod rheoliadau ychwanegol yn ddiangen.⁹²
- 4.16 Rydym yn derbyn nad oes tystiolaeth benodol ei bod yn debygol y bydd y sianeli hyn yn cael eu symud i lawr gan ddarparwyr EPG yn y dyfodol agos, a bod cymhellion cryf ar hyn o bryd i gadw'r pum prif sianel yn y pum slot cyntaf. Ond, mae'r farchnad yn newid yn gyflym ac fe allai'r cymhellion hyn newid. Rydym yn nodi hefyd y manteision o gael sicrwydd o ran hybu buddsoddiad. Rydym yn credu bod y sianeli hyn yn cynnig manteision cymdeithasol sylweddol a'i bod yn briodol gwarantu eu safle fel y sianeli mwyaf amlwg.

Effaith ar y darlledwyr eraill

- 4.17 Fel y nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad, nid yw'r cynnig hwn yn gofyn am symud unrhyw sianeli felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau cost uniongyrchol o bwys i'r darlledwyr.

Effaith ar ddarparwyr EPG

- 4.18 Ni fyddai ein cynnig yn gofyn i ddarparwyr EPG newid ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw golledion masnachol uniongyrchol. Mewn egwyddor, efallai y bydd darparwyr EPG yn colli'r cyfle i neilltuo'r slotiau hyn i ddarlledwyr eraill. Ond, yn ymarferol, mae'r effaith ar ddarparwyr EPG yn debygol o fod yn fach iawn. Dywedodd Sky na fyddai'n neilltuo slotiau EPG i gryfhau ei safle bargeinio â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus⁹³, a nododd Virgin Media y cymhellion cryf iddynt gadw'r sianeli hyn yn eu slotiau presennol.⁹⁴

Casgliad ynghylch y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig ledled y DU ac S4C ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yng Nghymru

- 4.19 Ar ôl ystyried y ffactorau a nodir uchod, ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu bod amlygrwydd priodol i'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC One, BBC Two, gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5) yn y pum slot cyntaf ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig ledled y DU⁹⁵ a'r rheini y tu allan i Gymru, a bod amlygrwydd priodol ar gyfer S4C ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n benodol i Gymru yn y pedwerydd slot.

⁹² Sky, paragraffau 5.9 – 5.19, https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF a COBA, t13 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

⁹³ Sky, paragraff 5.13b https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

⁹⁴ Virgin Media, t1 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/131210/Virgin-Media.pdf

⁹⁵ Ar hyn o bryd, Virgin Media yw'r unig ddarparwr EPG mawr nad yw'n darparu EPG sydd wedi ei rannu'n llawn ar sail ranbarthol. Fodd bynnag, mae'n darparu amrywiad ychydig yn wahanol i'w EPG ar gyfer yr Alban o'i gymharu â'i EPG ar draws y DU (lle mae BBC Scotland wedi ei restru mewn slot a neilltuwyd ar gyfer BBC One HD ar draws gweddill y DU). Er ein bod yn nodi'r amrywiad hwn, er symlrwydd, rydym yn cyfeirio at EPG Virgin Media fel un i'r DU gyfan.

Channel 4 ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig a ddarperir i wylwyr yng Nghymru yn benodol

Safle presennol Channel 4 yng Nghymru

- 4.20 Mae Channel 4 yn y safle slot 4 ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig ledled y DU ac ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig hynny sy'n benodol i ardaloedd y tu allan i Gymru. Ond, oherwydd bod slot rhif 4 wedi'i neilltuo i S4C ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n cael eu darparu i wylwyr yng Nghymru, mae Channel 4 yn ymddangos yn is i lawr ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig hynny. Ar hyn o bryd, mae Channel 4 yn y safleoedd canlynol ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n benodol i Gymru:
- a) Sky Cymru – mae Channel 4 yn safle slot 16 (LCN 117);⁹⁶
 - b) Freesat Cymru – mae Channel 4 yn safle slot 20 (LCN 120);
 - c) Freeview Cymru – mae Channel 4 yn safle slot 7 (LCN 7).

Cynigion yr ymgynghoriad a themâu'r ymatebion

- 4.21 Roedd ein hymgyngoriad yn cynnig y dylai Channel 4 fod ar dudalen gyntaf y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig a ddarperir i wylwyr yng Nghymru. Byddai'r cynnig felly yn mynnu bod Channel 4 yn symud i fyny 8 slot ar Sky Cymru, 12 slot ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig Freesat Cymru a hefyd yn symud i fyny, o bosib, ar EPG Freeview. Yn unol â'n penderfyniad i bennu gofynion yn seiliedig ar safle slotiau yn hytrach na safle tudalen,⁹⁷ yng ngweddill yr adran hon rydym yn ystyried beth fydd effaith mynnu bod Channel 4 yn cael ei rhestru yn wyth slot cyntaf y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig a ddarperir ar gyfer gwylwyr yng Nghymru.
- 4.22 Roedd nifer o randdeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno y dylid symud Channel 4 i dudalen gyntaf y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig a ddarperir i wylwyr yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys C4C a chyrrff sy'n cynrychioli'r gwylwyr, sef Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a VLV.⁹⁸ Roedd yr un olaf yn nodi y byddai hynny'n dwyn manteision i Channel 4 a chynulleidfaoedd yng Nghymru.⁹⁹ Roedd dau gwmni gweithredu EPG, Freesat ac Youview, yn cefnogi'r cynnig hefyd.

⁹⁶ Mae rhai Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn dechrau ar 100 neu 101. Nid ydym yn cynnwys unrhyw sianeli hyrwyddo statig neu syml e.e. slot 0 neu 100 y mae rhai darparwyr EPG yn eu defnyddio. Mae safle slot yn berthnasol i safle'r sianel yn y rhestr o sianeli, gan dybio bod y sianel gyntaf sydd wedi'i rhestru yn safle 1. Nid yw slotiau gwag yn cael eu cynnwys, gan nad yw'r gwylwyr yn gallu eu gweld. Mae LCN neu rif sianel rhesymegol yn berthnasol i'r rhif sydd wedi'i neilltuo i'r sianel, a dyma'r rhif y gall gwylwyr ei ddefnyddio i gael mynediad i'r sianel.

⁹⁷ Ewch i baragraff 3.13 - 3.18.

⁹⁸ C4C, t25 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf;

⁹⁹ VLV, t6 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf; Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, t1 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0016/131182/Culture,-Welsh-Language-and-Communications-Committee-of-the-National-Assembly-for-Wales.pdf a VLV, para 32 -34 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf

- 4.23 Ond, roedd nifer o'r rhanddeiliaid (COBA, Sky, BT a Virgin Media)¹⁰⁰ yn dweud nad oeddent yn cytuno â'r cynnig hwn, gan awgrymu nad oeddem wedi dangos y manteision ac, os oedd manteision, mai bach fyddai'r rheini.

Rhesymau a'r penderfyniad ynghylch Channel 4 yng Nghymru

Effaith ar ddefnyddwyr a dinasyddion

- 4.24 Channel 4 yw un o'r prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ledled y DU, gan gyrraedd cynulleidfa eang (gyda chyrhaeddiad o 40.6% yn 2018) gydag amrywiaeth o gynnwys o safon.¹⁰¹ Mae gan Channel 4 gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus statudol i ddarparu cynnwys arloesol o ansawdd uchel sy'n dangos cymeriad unigryw ac sy'n apelio at chwaethau a diddordebau cymdeithas sy'n amrywiol yn ddiwylliannol; rhaglenni o natur a gwerth addysgiadol; a chynnwys sy'n apelio at blant hŷn ac oedolion ifanc.¹⁰² Mae gan y sianel nifer o ofynion rheoleiddio penodol hefyd ar gyfer darparu newyddion a rhaglenni materion cyfoes, a rhaglenni gwreiddiol.¹⁰³ Caiff ei ariannu'n fasnachol, ac mae'n gweithredu model dim-er-elw, lle bydd y refeniw dros ben yn mynd yn ôl i fuddsoddi mewn cynnwys.
- 4.25 Cawsom safbwyntiau amrywiol am yr effaith debygol ar lefelau gwyllo Channel 4 pe byddai'n cael mwy o amlygrwydd yng Nghymru. Roedd C4C yn cefnogi'r cynnig i symud gan ddweud bod ei foddelu mewnol yn awgrymu y byddai ei chyfran gwyllo [X] yn fwy yng Nghymru (a'i chyfran gwyllo [X] yn fwy yn y DU) [X], gyda chynnydd, yn sgil hynny, mewn refeniw hysbysebu a'i gallu felly i fuddsoddi mewn rhaglenni newydd ar gyfer cynulleidfaoedd.¹⁰⁴ Ond, rydym yn credu bod tystiolaeth gan ddau rhanddeiliaid (Sky,¹⁰⁵ COBA¹⁰⁶) yn awgrymu y bydd llai o fanteision i Channel 4.
- 4.26 Ar ôl asesu'r dystiolaeth hon, rydym yn dal o'r farn y byddai symud i safle o fewn yr wyth slot cyntaf yn gwella pa mor hawdd mae dod o hyd i'r sianel, ac yn arwain wedyn at gynyddu cyrhaeddiad a lefelau gwyllo Channel 4, a sicrhau mwy o fanteision cadarnhaol i'r cynulleidfaoedd.¹⁰⁷ Byddai maint y gwelliant ar bob llwyfan yn dibynnu ar ba mor uchel i fyny y byddai'r sianel yn symud, a maint y cynulleidfa bosib ar y llwyfan penodol dan sylw. Mae [Atodiad 3](#) yn adolygu perfformiad gwyllo Channel 4 ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n benodol i Gymru, ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig ledled y DU ac ar y

¹⁰⁰ COBA t13 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf, Sky paragraffau 6.6 – 6.34

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF, BT t5

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/131179/BT.pdf, Virgin Media t2

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0008/131210/Virgin-Media.pdf

¹⁰¹ Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith, pob unigolyn (dros 4 oed). Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol. Mae hyn yn cynnwys gwyllo Channel 4 HD ond nid yw'n cynnwys Channel 4 +1.

¹⁰² Adran 265(3) o'r Ddeddf.

¹⁰³ Trwydded Channel 4 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0018/40266/channel-4-attachment-variation.pdf

¹⁰⁴ C4C, paragraff 3.8 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf

¹⁰⁵ Sky, paragraff 6.21 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

¹⁰⁶ Mae hyn yn seiliedig ar fodol O&O a baratowyd gan O&O ar gyfer COBA.

¹⁰⁷ Byddai symud Channel 4 i rywle o fewn yr 8 slot cyntaf ar Sky Cymru yn golygu bod BBC Four yn symud i lawr un slot ar EPG Sky Cymru. Ond, ni fyddai BBC Four ar ei cholled ychwaith o ran safle slot ar Sky Cymru o'i chymharu â'r gwledydd eraill.

Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig hynny sydd wedi'u hanelu at wledydd eraill y DU a'r dystiolaeth amrywiol a ddarparwyd gan randdeiliaid. Mae'r Atodiad yn awgrymu pe byddai Channel 4 yn symud i slot 8 ar Freesat Cymru a Sky Cymru, gallai'r ystod resymol ar gyfer cynnydd yng nghyfran Channel 4 o'r gwyllo yn y DU fod rhwng 0.3% a 1%.

- 4.27 Fe wnaethom ni ystyried hefyd y dadleuon a wnaed gan Sky, yn achos Channel 4 yn symud i dudalen gyntaf EPG Sky yng Nghymru. Byddai'r rhan fwyaf o'r gwylwyr ychwanegol a geir yn dod o'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill sydd uwchben Channel 4 (h.y. BBC One, BBC Two, ITV, S4C a Channel 5), ac ystyried eu bod yn agos at Channel 4 ar y rhestr newydd. Roedd Sky o'r farn y byddai'r sianeli sydd uwchben Channel 4 yn gweld gostyngiad yng nghyfran y gwylwyr, er na fyddai'r sianeli wedi newid safle eu slotiau. Fel y nodir yn [Atodiad 3](#), rydym yn derbyn ei bod yn bosib y daw rhywfaint o'r cynnydd yn ffigurau gwyllo Channel 4 o sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill sydd uwchben Channel 4. Ond, mae'r amrywiol dystiolaeth rydym wedi ei hystyried ar y berthynas rhwng safleoedd slotiau a gwyllo (gweler [Atodiad 3](#)) yn awgrymu'n gryf mai'r sianeli a fydd yn symud i lawr fydd yn colli'r mwyafrif helaeth o'r gwylwyr. Felly, er ei bod yn bosib y daw rhywfaint o'r cynnydd yn ffigurau gwyllo Channel 4 o'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill, nid ydym yn credu y bydd llawer iawn o effaith ar lefelau gwyllo sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd uwchben Channel 4.
- 4.28 Wrth roi mwy o amlygrwydd i Channel 4 i wylwyr sy'n defnyddio Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig Sky Cymru a Freesat Cymru, rydym yn credu y bydd hyn yn debygol o wneud cyfraniad cadarnhaol yn gyffredinol i'r manteision cymdeithasol y mae Channel 4 yn eu cefnogi. Fel y nodir yn adran 3.29, yng ngoleuni ein dyletswyddau statudol, rydym yn rhoi pwys penodol ar yr effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr.
- 4.29 Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym hefyd wedi ystyried yr effeithiau negyddol posib ar rai cynulleidfaoedd. Un o'r anfanteision wrth roi mwy o amlygrwydd i Channel 4 yng Nghymru yw, pan fydd gan gynulleidfaoedd ddiddordeb mewn cynnwys arall, y gallai hyn lesteirio pa mor rhwydd yw dod o hyd i sianeli eraill. Ond, mae'r anfantis hwn yn debygol o fod yn fach oherwydd bod lle i ystod o opsiynau iddi o fewn yr 8 slot cyntaf. Mae llawer yn gwyllo Channel 4, ac os bydd y sianel hon yn cael ei rhoi mewn slot amlwg iawn, nid yw'n debygol iawn o beri anhwylostod i lawer iawn o wylwyr.

Effaith ar Channel 4

- 4.30 Yn ein hymgyngoriad, roeddem yn awgrymu y gallai lefelau gwyllo uwch arwain at fwy o refeniw hysbysebu ar gyfer Channel 4. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, roedd safbwyntiau rhanddeiliaid yn gymysg am hyn. Awgrymodd Sky y byddai'r cynnydd yng nghyfran gwyllo Channel 4 yng Nghymru yn arwain at gynnydd bach iawn o ran effeithiau masnachol oedolion ar gyfer Channel 4. Ni fyddai hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth o ran gallu Channel 4 i bennu gwerth arian ei amser ar yr awyr.¹⁰⁸ Yn groes i hynny, rydym yn credu bod dystiolaeth gan bobl eraill (C4C¹⁰⁹ a COBA¹¹⁰) yn awgrymu bod hyd yn oed cynnydd

¹⁰⁸ Sky, paragraff 6.21 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

¹⁰⁹ C4C, paragraff 3.8 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf

¹¹⁰ Mae hyn yn seiliedig ar fodel O&O a baratowyd gan O&O ar gyfer COBA.

“bach” yn y gwyllo yn gallu golygu cynnydd absoliwt bach ond arwyddocaol mewn refeniw hysbysebu.

- 4.31 Rydym wedi nodi ein hystyriaeth o'r dystiolaeth hon yn [Atodiad 3](#). Yn gyffredinol, am y rhesymau a nodir yno, rydym yn credu ei bod yn debygol y bydd rhyw gynnydd bach ond nid arwyddocaol yn y refeniw hysbysebu ar gyfer Channel 4 o ganlyniad i'n penderfyniad, ac y gall y rhain fod rhwng £0.7m a £2.4m y flwyddyn. Ac ystyried bod Channel 4 yn gorfforaeth dim-er-elw, byddai cynnydd yn ei refeniw yn debygol iawn o gyfrannu at fuddsoddiadau.

Effaith ar y darlledwyr eraill

- 4.32 Fel y trafodwyd uchod, bydd symud Channel 4 i'r 8 slot cyntaf y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n benodol i Gymru yn gwella pa mor hawdd mae dod o hyd i'r sianel, ac mae'n debygol o arwain at gynnydd yn ei chyrrhaeddiad a'i chyfran o wylwyr. Mae hyn yn awgrymu y bydd y sianeli eraill yn cael eu gwneud yn llai amlwg ac yn debygol o weld gostyngiad yn eu cyfran o'r gwylwyr, a gostyngiad cysylltiedig o bosib yn eu refeniw hysbysebu.
- 4.33 Byddai symud Channel 4 i fyny yn golygu bod angen symud 7 darlledwr masnachol i lawr ar EPG Sky sy'n benodol i Gymru, a symud 9 darlledwr masnachol i lawr ar EPG Freesat sy'n benodol i Gymru, ac y gallai hyn leihau lefelau eu gwylwyr. I sianeli masnachol sy'n cael eu symud, gallai hyn arwain at golled mewn refeniw hysbysebu sydd rhwng £0.7m a £2.4m y flwyddyn i gyd (gall hyn fod yn oramcangyfrif) o ganlyniad i lai o wylwyr.
- 4.34 Mae'n bosib hefyd y bydd costau un-tro i sianeli sy'n cael eu symud i le newydd - er enghraifft, marchnata eu rhif slot newydd. Fel y nodir yn [Atodiad 3](#) a chan ystyried ein cyfnod pontio o 18 mis,¹¹¹ ni allwn fodelu unrhyw gostau un-tro uniongyrchol yn rhesymol, ond mae ffactorau lliniarol (h.y. y cyfnod pontio) ac felly rydym yn rhagweld y bydd y costau'n annhebygol o fod yn sylweddol.

Effaith ar ddarparwyr EPG

- 4.35 Sky a Freesat yw'r unig ddarparwyr EPG y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt, ond ni fyddant yn wynebu unrhyw golledion masnachol uniongyrchol oherwydd, yn wahanol i Virgin Media, nid ydynt yn pennu gwerth arian y slotiau ar eu Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig. Ond, efallai y byddant yn wynebu costau un-tro sy'n gysylltiedig ag unrhyw gostau gweinyddol, technegol a chostau cyfreithiol i addasu lleoliadau sianeli ar eu llwyfannau. Gan ystyried y costau un-tro posib a ddisgrifir yn [Atodiad 3](#) a'r cyfnod pontio o 18 mis rydym yn ei osod, rydym yn rhagweld y bydd y costau ar gyfer darparwyr EPG yn annhebygol o fod yn sylweddol.

Casgliad ynghylch Channel 4 ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig yng Nghymru

- 4.36 Ar ôl ystyried y ffactorau a nodwyd uchod, ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu mai'r amlygrwydd priodol i Channel 4

¹¹¹ Ewch i baragraffau 4.153 - 4.160.

yw o fewn y 8 slot cyntaf yn adran adloniant cyffredinol y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n benodol i Gymru.

Sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill ledled y DU: BBC Four

Safleoedd presennol

- 4.37 Adeg ymgynghoriad Ofcom, roedd BBC Four mewn safle cymharol uchel ar draws y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig. Ers i ni ymgynghori â rhanddeiliaid, mae BBC Scotland wedi cael ei lansio ac mae BBC Four SD wedi symud o'i slot ar EPG Freeview yr Alban i roi lle iddi. Mae BBC Four yn y safleoedd canlynol ar hyn o bryd ar y prif Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn y DU:
- Safle slot 77 (LCN 82) ar EPG Freeview yr Alban;
 - Safle slot 8 neu 9 (LCN 9) ar EPG Freeview ar gyfer holl wledydd eraill y DU;
 - Safle slot 15 neu 16 (LCN 116) ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig Sky;
 - Safle slot 7 (LCN 107) ar EPG Virgin Media;
 - Safle slot 7 (LCN 107) ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig Freesat.

Cynigion yr ymgynghoriad a themâu'r ymatebion

- 4.38 Roedd ein hymgyngoriad yn cynnig y dylid gwarantu slot i BBC Four o fewn tair tudalen gyntaf pob EPG. Yn unol â'n penderfyniad i bennu gofynion yn seiliedig ar safle slotiau yn hytrach na safle tudalen,¹¹² yng ngweddill yr adran hon rydym yn ystyried beth fydd effaith mynnu bod BBC Four yn cael ei rhestru yn y 24 slot cyntaf.
- 4.39 Roedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chyrrff sy'n cynrychioli buddiannau gwylwyr yn gefnogol o'r cynnig hwn ar y cyfan.¹¹³ Mynegodd rhai darparwyr EPG a llwyfannau teledu bryderon cyffredinol ynghylch yr angen am reolau penodol, gan dynnu sylw at safle slot amlwg BBC Four ar y pryd.¹¹⁴ Hefyd, dywedodd ymatebydd dienw 3 ac techUK nad yw BBC Four yn darlledu drwy'r dydd ac y dylai hyn fod yn ffactor wrth ystyried amlygrwydd priodol.¹¹⁵

¹¹² Ewch i baragraff 3.13.

¹¹³ VLV, paragraffau 35-37 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf; BBC, <https://www.ofcom.org.uk/resources/documents/consultations/category-1/116265-epg-code-and-prominence-regime/responses/bbc-four-response-additional-information.pdf>; C4C, t25 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf

¹¹⁴ COBA, paragraff 3.1 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf; Sky, paragraff A5.4 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF; Virgin Media, t2 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/131210/Virgin-Media.pdf

¹¹⁵ Ymateb dienw 3, t1 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0019/131194/Name-Withheld-3.pdf; techUK, t3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0012/131205/techUK.pdf

Rhesymu a phenderfynu

Effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr

- 4.40 Mae BBC Four yn sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar draws y wlad, ac mae'n darlledu fel rheol o 7pm tan 4am ac yn cyrraedd 7.3m o bobl bob wythnos.¹¹⁶ Mae gan y sianel gylch gwaith cynnwys arbenigol, genre cymysg, ond yn canolbwyntio ar allbwn sy'n darparu cynnwys deallusol a diwylliannol amgen, sy'n wahanol i raglenni prif ffrwd ar sianeli eraill y BBC¹¹⁷ ac yn benodol, yn darparu rhaglenni ffeithiol a rhaglenni am y celfyddydau. Mae'n rhaid i BBC Four gydymffurfio â nifer o ofynion rheoleiddio penodol sydd wedi'u nodi yn Nhrwydded Weithredu'r BBC.¹¹⁸
- 4.41 Nid yw cylch gwaith BBC Four, gyda ffocws ar raglenni ffeithiol, rhaglenni am y celfyddydau a rhaglenni gwreiddiol, ar gael yn helaeth ar sianeli am ddim eraill. Mae rhagor o amlygrwydd i BBC Four yn debygol o'i gwneud yn haws i wylwyr ddod o hyd i'r sianel, na fyddai'n gallu canfod cynnwys o'r fath yn hawdd fel arall. Mae hyn yn arbennig o wir am wylwyr Freeview yn yr Alban, lle mae safle BBC Four yn is.
- 4.42 Mynegodd Llywodraeth yr Alban bryderon yn ei hymateb na fyddai BBC Four yn ymddangos yn nhair tudalen gyntaf yr EPG ar ôl lansio BBC Scotland.¹¹⁹ Yn wir, ers lansio BBC Scotland a symud BBC Four i lawr ar Freeview yr Alban, rydym wedi gweld gostyngiad o 42% yn y niferoedd sy'n gwyllo BBC Four ar Freeview yr Alban ers mis Chwefror 2019¹²⁰. Mae hyn, i bob golwg, yn dangos bod dinasyddion a phobl sy'n defnyddio Freeview yr Alban yn ei chael yn anoddach dod o hyd i BBC Four yn y safle llai amlwg hwn ar yr EPG. Mae modd lleihau effeithiau negyddol hyn ar ddinasyddion a defnyddwyr drwy gyflwyno rhwymedigaeth amlygrwydd safonol. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai BBC Four yn cael ei leoli'n is na'r 24 slot cyntaf ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig.¹²¹
- 4.43 Roedd nifer o'r ymatebwyr wedi tynnu sylw at y rôl bwysig sydd gan BBC Four o ran adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y DU. Nododd Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) pa mor bwysig yw BBC Four o ran cyflwyno dramâu o Gymru fel y Gwyll (Hinterland) i gynulleidfa ehangach.¹²² Rydym yn cydnabod bod natur arbenigol BBC Four ac oriau darlledu mwy cyfyngedig yn golygu bod maint y gynulleidfa y disgwylir iddi gyrraedd yn llai na sianeli 'prif ffrwd' (gan gynnwys y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus). Ond, mae BBC Four yn darlledu ar draws yr oriau brig ac mae 75% o'r allbwn yn wreiddiol, gan gynnwys rhaglenni arloesol a manwl am y celfyddydau.¹²³ Credwn fod y cynnwys hwn

¹¹⁶ Ffynhonnell: BARB 2018. Rhwydwaith, unigolion 4+. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol.

¹¹⁷ Rhan 1 o Atodlen 1 i Gytundeb y BBC.

¹¹⁸ Mae gofynion rheoleiddiol ar gyfer BBC Four wedi'u nodi yn y Drwydded Weithredu:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0025/135187/Operating-licence-for-the-BBCs-UK-Public-Services.pdf

¹¹⁹ Llywodraeth yr Alban, t3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0009/131202/Scottish-Government.pdf

¹²⁰ Data BARB ar gyfer ardal BBC Scotland: ar Freeview yr Alban, fe wnaeth cyfran BBC Four o'r gwyllo gan bob unigolyn 4+ ostwng o 1.6% (yn y deuddeg wythnos lawn cyn lansio BBC Scotland) i 0.93% (yn y deuddeg wythnos lawn ar ôl symud BBC Four i lawr ar EPG Freeview yr Alban).

¹²¹ Rydym yn mynd i'r afael â dadl COBA fod newid rheoleiddiol yn ddiangen ym mharagraffau 3.3 - 3.8.

¹²² TAC, t2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/131207/Teledwyr-Annibynnol-Cymru.pdf

¹²³ Trwydded Weithredu'r BBC, paragraffau 2.21 a 2.32

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0025/135187/Operating-licence-for-the-BBCs-UK-Public-Services.pdf

yn darparu manteision sylweddol i ddefnyddwyr a dinasyddion ac, fel y nodir yn adran 3.29, yng ngoleuni ein dyletswyddau statudol, rydym yn rhoi pwys penodol ar yr effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr.

- 4.44 Rydym hefyd wedi ystyried yr effeithiau negyddol posib ar rai defnyddwyr. Pan mae gan wylwyr ddiddordeb mewn sianeli eraill neu pan nad ydynt yn gwyllo BBC Four, gall hyn lesteirio pa mor rhwydd yw dod o hyd i sianeli eraill sy'n apelio. Fodd bynnag, cymharol fach yw'r effeithiau negyddol posib hyn gan mai dim ond lleiafrif o'r 24 slot uchaf, o dan ein cynigion ni, fyddai'n cael eu llenwi gan sianeli dynodedig (gweler paragraffau 4.135 - **Error! Reference source not found.** isod). Ar ben hynny, mae ein dull yn gosod 'llawr' neu safle isaf posib ar gyfer BBC Four, ac mae hyn yn caniatáu lefel resymol o ddisgresiwn a hyblygrwydd i ddarparwyr EPG o hyd.

Effaith ar BBC Four

- 4.45 Yn gyffredinol, rydym yn credu bod gofyn i BBC Four gael ei rhestru yn y 24 slot cyntaf, yn rhywbeth cadarnhaol i BBC Four. Mae [Atodiad 3](#) yn rhoi manylion am berfformiad gwyllo BBC Four ar amrywiol Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig. Rydym yn nodi bod y dystiolaeth yn dangos bod cyfran gwylwyr BBC Four yn is o lawer¹²⁴ ers i'r sianel symud i lawr yr EPG ar Freeview yr Alban ac y byddai ei rhoi'n ôl ar safle uwch ar yr EPG yn debygol o wella perfformiad gwyllo'r sianel. Ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig eraill, byddai BBC Four yn cael ei gwarchod rhag iddo fod yn llai amlwg y tu hwnt i'r llawr rydym yn ei osod.¹²⁵

Effaith ar ddarllodwyr eraill

- 4.46 Byddai mynnu bod BBC Four yn cael ei rhestru yn y 24 slot cyntaf yn cael effaith negyddol ar rai sianeli masnachol. Rydym wedi modelu y byddai symud BBC Four i fyny ar EPG Freeview yr Alban yn golygu bod angen symud 53 darllodwr masnachol i lawr, a gallai hyn leihau lefelau eu gwylwyr. Fel y nodir yn [Atodiad 3](#), gallai cyfanswm blynyddol y golled refeniw i ddarllodwyr masnachol fod yn £0.4m y flwyddyn o ganlyniad i lai o wylwyr.¹²⁶
- 4.47 Mae'n bosib hefyd y bydd costau un-tro i sianeli sy'n cael eu symud i le newydd - er enghraifft, marchnata eu rhif slot newydd. Fel y nodir yn [Atodiad 3](#) a chan ystyried ein cyfnod pontio o 18 mis,¹²⁷ ni allwn fodelu unrhyw gostau un-tro uniongyrchol yn rhesymol, ond mae ffactorau lliniarol (h.y. y cyfnod pontio) ac felly rydym yn rhagweld y bydd y costau'n annhebygol o fod yn sylweddol.
- 4.48 Roedd PACT yn poeni am effaith unrhyw ostyngiad mewn refeniw hysbysebu ar ddarllodwyr masnachol, a'r buddsoddi mewn rhaglenni wedyn.¹²⁸ Ac ystyried maint yr

¹²⁴ Ar Freeview yr Alban, mae ffigurau BARB yn dangos os ydym yn cymharu perfformiad yn y deuddeg wythnos lawn cyn iddi symud a'r deuddeg wythnos lawn ar ôl iddi symud, mae cyfran gwylwyr BBC Four gan unigolion 4+ wedi gostwng 42%. O ran cyrraedd cynulleidfau, mae ffigurau BARB yn dangos bod cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog BBC Four wedi gostwng 56% yn ystod yr un cyfnod.

¹²⁵ Nid damcaniaeth pur yw gostyngiad o'r fath mewn amlygrwydd. Fel yr eglurwyd uchod, mae wedi digwydd yn flaenorol ar EPG Freeview yr Alban.

¹²⁶ Yn [Atodiad 3](#), rydym hefyd wedi modelu effaith symud BBC Four i slot uwch ar EPG Freeview yr Alban, oherwydd byddai hyn yn sicrhau cysondeb LCN ar EPG Freeview sydd wedi'u trefnu ar sail ranbarthol ar draws y gwledydd.

¹²⁷ Ewch i baragraffau 4.153 - 4.160.

¹²⁸ PACT, paragraffau 3.1 – 3.2 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/131195/PACT.pdf

effaith wrth symud sianeli i lawr, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol o newid hyfywedd y sianeli'n sylweddol. Fodd bynnag, ni allwn ddiystyru'r effaith ar eu cymhellion i fuddsoddi mewn cynnwys.

Effaith ar ddarparwyr EPG

- 4.49 Freeview fyddai'r unig ddarparwr EPG y byddai ein penderfyniad yn effeithio arno, ac ni fyddai'n wynebu unrhyw golledion masnachol uniongyrchol. Ond, efallai y bydd yn wynebu costau un-tro sy'n gysylltiedig ag unrhyw gostau gweinyddol a thechnegol i addasu lleoliadau sianeli ar ei lwyfan. Fel y nodir yn [Atodiad 3](#) gan ystyried ein bod yn pennu cyfnod pontio o 18 mis, rydym yn rhagweld na fydd y costau hyn yn sylweddol.

Casgliad ynghylch BBC Four

- 4.50 Ar ôl ystyried y ffactorau a nodwyd uchod, ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu mai'r amlygrwydd priodol i BBC Four yw o fewn y 24 slot cyntaf yn adran adloniant cyffredinol y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig.

Sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill ledled y DU: Sianeli newyddion y BBC

Safleoedd presennol sianeli newyddion y BBC

- 4.51 Mae'r BBC yn darlledu ar ddwy sianel newyddion ar draws y DU: BBC News a BBC Parliament.
- 4.52 Mae'r sianeli hyn o fewn y 8 slot cyntaf ym maes/genre newyddion pob un o'r prif Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig:
- Safle slot 3 BBC News (LCN 503) a safle slot 4 BBC Parliament (LCN 504) ar genre Newyddion Sky;
 - Safle slot 1 BBC News (LCN 601) a safle slot 4 BBC Parliament (LCN 605) ar genre newyddion Virgin Media;
 - Safle slot 1 BBC News (LCN 200) a safle slot 2 BBC Parliament (LCN 201) ar genre newyddion Freesat;
 - Safle slot 1 BBC News (LCN 231) a safle slot 2 BBC Parliament (LCN 232) ar grŵp Newyddion Sky.¹²⁹

Cynigion yr ymgynghoriad a themâu'r ymatebion

- 4.53 Yn ein hymgyngoriad, roeddem yn cynnig gwarantu dau safle sianeli newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y dudalen gyntaf yn y genre neu'r grŵp newyddion.

¹²⁹ Mae rhestrau sianeli Freeview yn cael eu defnyddio gan BT, EE ac Youview.

Yn unol â'n penderfyniad i bennu gofynion yn seiliedig ar safle slotiau yn hytrach na safle tudalen,¹³⁰ yng ngweddill yr adran hon rydym yn ystyried beth fyddai effaith mynnu bod y sianeli hyn yn cael eu rhestru yn wyth slot cyntaf y genre neu'r grŵp newyddion.

- 4.54 Ni wnaeth llawer o randdeiliaid fynegi barn am y cynnig hwn, er bod VLV, a'r International Broadcast Trust (IBT) wedi cydnabod pwysigrwydd sianel BBC News i ddarparu newyddion diduedd o safon uchel.¹³¹ Tynnodd y BBC ei hun sylw at ba mor bwysig yw bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i ffynonellau newyddion dibynadwy.¹³² Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu'r angen am reol, ac ystyried amlygrwydd y sianeli BBC hyn ar hyn o bryd o fewn adran newyddion pob EPG.¹³³

Rhesymu a phenderfynu

Effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr

- 4.55 Mae cylch gorchwyl BBC News a BBC Parliament wedi'u nodi yng Nghytundeb Fframwaith y BBC. Mae BBC News yn sianel newyddion treigl sy'n darparu newyddion, dadansoddiadau a rhaglenni eraill sy'n cyflwyno gwybodaeth, ac mae BBC Parliament yn darparu darllediadau byw helaeth o ddadleuon a phwyllgorau Seneddau a Chynulliadau'r DU, a darllediadau gwleidyddol eraill.¹³⁴ Yn Nhrwydded Weithredu'r BBC, mae amrywiaeth o ofynion rheoleiddio, er enghraifft canran y rhaglenni gwreiddiol y dylent eu darparu.¹³⁵
- 4.56 Yn unol â'r Drwydded Weithredu, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu mwy o newyddion rhyngwladol a mwy o newyddion lleol/rhanbarthol ar BBC News na phrif sianeli newyddion parhaus eraill yn y DU.¹³⁶ Mae hyn yn golygu bod allbwn y BBC yn wahanol i'w gystadleuwyr a'i fod yn darparu amrywiaeth o gynnwys gwahanol i helpu i roi gwybodaeth i ddinasyddion.
- 4.57 Mae BBC Parliament yn cynnig gwasanaeth unigryw fel yr unig sianel sy'n darparu darllediadau byw helaeth o ddadleuon a phwyllgorau Seneddau a Chynulliadau'r DU. Ochr yn ochr â hyn, mae'n cynnig darpariaeth wleidyddol ychwanegol. Mae BBC Parliament yn cynnig cyfle i ddinasyddion ddysgu mwy ond hefyd i weld democratiaeth ar waith.
- 4.58 Bydd sicrhau bod BBC News a BBC Parliament yn aros yn amlwg yn helpu i sicrhau bod dinasyddion, na fyddai'n gallu canfod cynnwys o'r fath yn hawdd fel arall, yn gallu parhau i

¹³⁰ Gweler paragraffau 3.13 - 3.18.

¹³¹ IBT, paragraffau 36-37 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/131185/International-Broadcasting-Trust.pdf; VLV, paragraffau 38-39 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf

¹³² BBC, paragraffau 30-31 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/131178/BBC.pdf

¹³³ COBA Paragraffau 3.1 a 4.1 tudalennau 14-15

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

Sky, paragraff A5.2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

¹³⁴ Rhan 1 o Atodlen 1 Cytundeb Fframwaith y BBC:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/584329/57965_Cm_9366_Print_1.pdf

¹³⁵ Trwydded Weithredu'r BBC, paragraffau 2.7, 2.32 a 2.70

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0025/135187/Operating-licence-for-the-BBCs-UK-Public-Services.pdf

¹³⁶ Trwydded Weithredu'r BBC, paragraff 2.7 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0025/135187/Operating-licence-for-the-BBCs-UK-Public-Services.pdf

ddarganfod y cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan y sianeli hyn, a helpu i wireddu'r manteision hyn.

- 4.59 Fel y nodir yn adran 3.29, yng ngoleuni ein dyletswyddau statudol, rydym yn rhoi pwys penodol ar yr effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr.

Effaith ar sianeli newyddion y BBC

- 4.60 Yn gyffredinol, rydym yn credu bod mynnu bod sianeli newyddion y BBC o fewn wyth slot cyntaf y genre neu'r grŵp newyddion yn rhywbeth cadarnhaol i'r sianeli hyn. Bydd gwarantu amlygrwydd sianeli newyddion y BBC yn hwb i'w perfformiad gwyllo cyfredol a chyflawni dibenion cyhoeddus, ac yn diogelu rhag lleihad sylweddol mewn amlygrwydd yn y dyfodol. Gan fod y sianeli hyn mewn safleoedd uchel ar yr EPG yn barod, ychydig o fanteision ychwanegol a ddaw yn sgil ein cynigion. Yn hytrach, cynnig sail reoleiddio gliariach i'r status quo a wnânt.¹³⁷

Effaith ar ddarlledwyr eraill

- 4.61 Ni fyddai mynnu bod sianeli newyddion y BBC yn cael eu rhestru o fewn wyth slot cyntaf y genre neu grŵp newyddion yn cael unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol ar sianeli eraill gan na fyddai angen unrhyw newidiadau ar draws y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig presennol. Felly, ni ddylai sianeli masnachol weld unrhyw golled yn eu refeniw hysbysebu na cholli gwylwyr ychwaith.

Effaith ar ddarparwyr EPG

- 4.62 Gan fyddai'n rhaid i BBC News na BBC Parliament symud ar unrhyw un o'r prif Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig, ni fyddai effaith uniongyrchol ar refeniw masnachol cwmnïau gweithredu EPG a dim costau un-tro. Mewn egwyddor, byddai'n cael gwared â gallu Virgin Media i bennu gwerth arian y slotiau hyn o dan ei bolisi presennol ar neilltuo slotiau EPG. Fodd bynnag, mae'r safleoedd slotiau hyn mewn genres arbenigol, ac felly ni fyddai disgwyl iddynt gynhyrchu refeniw ac elw sylweddol i ddarlledwyr. Mae hyn yn awgrymu mai cymharol fach fyddai unrhyw effaith ar Virgin Media hefyd.

Casgliad ynghylch sianeli newyddion y BBC

- 4.63 Ar ôl ystyried y ffactorau a nodwyd uchod, ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu mai'r amlygrwydd priodol i sianeli newyddion y BBC yw o fewn yr wyth slot cyntaf yn adran neu genre newyddion y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig.

¹³⁷ Rydym yn mynd i'r afael â sylw Sky a COBA fod newid rheoleiddiol yn ddiangen ym mharagraffau 3.3 - 3.8.

Sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill ledled y DU: Sianeli plant y BBC

Safleoedd presennol

- 4.64 CBeebies a CBBC gan y BBC ydy'r sianeli plant dynodedig sydd â hawl i gael amlygrwydd. Ar hyn o bryd, mae CBBC a CBeebies mewn slotiau sydd ar frig neu wrth frig eu genres ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig Virgin Media, Freeview a Freesat. Yr eithriad ydy EPG Sky, lle mae'r sianeli yn ymddangos ar ail dudalen y genre plant.
- 4.65 Yn benodol, mae'r ddwy sianel yn y safleoedd slotiau canlynol ar y prif Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig:
- a) safleoedd slotiau 13 a 14 (LCN 613 a 614) yn y drefn honno ar genre plant Sky;
 - b) safleoedd slotiau 1 a 2 (LCN 701 a 702) yn y drefn honno ar genre plant Virgin Media;
 - c) safleoedd slotiau 1 a 2 (LCN 600 a 601) yn y drefn honno ar genre plant Freesat;
 - d) safleoedd slotiau 1 a 2 (LCN 200 a 201) yn y drefn honno ar grŵp plant ar EPG Freeview.

Cynigion yr ymgynghoriad a themâu'r ymatebion

- 4.66 Yn ein hymgyngoriad, fe wnaethom ni awgrymu y dylid gwarantu slotiau ar dudalen gyntaf maes/genre plant ar bob EPG i'r ddwy sianel plant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Yn unol â'n penderfyniad i bennu gofynion yn seiliedig ar safle slotiau yn hytrach na safle tudalen,¹³⁸ yng ngweddill yr adran hon rydym yn ystyried beth fyddai effaith mynnu bod y sianeli hyn yn cael eu rhestru yn wyth slot cyntaf y maes/genre plant.
- 4.67 Roedd nifer o'r rhanddeiliaid yn cytuno â'n cynigion gan gynnwys C4C, Arqiva, TAC, Youview, Digital UK, STV, Freesat, ac MG Alba.¹³⁹ Roedd VLV ac IBT ill dau yn anghytuno, gan ddweud y dylem fod wedi mynd ymhellach, ac y dylai'r sianeli hyn fod ar frig eu genre neu grŵp. Pwysleisiodd IBT a VLV rôl bwysig CBBC a CBeebies o ran darparu cynnwys gwreiddiol yn y DU sy'n adlewyrchu bywyd plant.¹⁴⁰

¹³⁸ Gweler paragraffau 3.13 - 3.18.

¹³⁹ C4C, t25 - 26 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf; Arqiva t4 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/131177/Arqiva.pdf; TAC, t3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/131207/Teledwyr-Annibynnol-Cymru.pdf; YouView, t1 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0012/131214/YouView-TV.pdf; Digital UK, t4 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/131183/Digital-UK.pdf; STV, t3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0012/131214/YouView-TV.pdf; Freesat, t1 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0011/144101/Freesat.pdf; MG Alba, t1 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0016/131191/MG-Alba.pdf

¹⁴⁰ IBT, paragraffau 39-42 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/131185/International-Broadcasting-Trust.pdf; VLV, paragraffau 41 - 42 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf

- 4.68 Roedd rhanddeiliaid eraill yn anghytuno â'n cynnig. Roedd BT o'r farn bod rheoleiddio yn y maes hwn yn ddiangen.¹⁴¹ Tynnodd COBA sylw at y ffaith bod ein data ein hunain yn dangos nad yw safle uwch ar EPG, mewn gwirionedd, yn gwneud fawr ddim o wahaniaeth i sianeli plant y BBC, ac fe gysyllton nhw hyn â chyfradd uwch y dull o fynd i sianel yn uniongyrchol a ddefnyddir i fynd i'r sianeli hyn.¹⁴² Dywedodd Sky fod data yn awgrymu na fydd nifer y gwylwyr yn cynyddu, neu dim ond canran fach o nifer y gwylwyr fyddai'n cynyddu, pe byddai'r sianeli hyn yn symud i dudalen gyntaf y genre plant ar EPG Sky.¹⁴³ Nid oedd Virgin Media yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bod amlygrwydd y sianeli hyn mewn perygl.¹⁴⁴

Rhesymu a phenderfynu

Effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr

- 4.69 Mae'r sianeli hyn ar gael ar draws y DU ac maent yn darparu gwerth cyhoeddus drwy ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol o ansawdd uchel i blant, rhieni a gofalwyr. Mae Cytundeb Fframwaith y BBC yn disgrifio CBeebies fel sianel sy'n darparu amrywiaeth o raglenni i addysgu a difyrro plant ifanc iawn, ac yn disgrifio CBBC fel sianel amserlen gymysg ar gyfer plant cyn iddynt gyrraedd eu harddegau.¹⁴⁵ Mae Trwydded Weithredu'r BBC yn gosod gofynion rheoleiddio ar raglenni gwreiddiol a chymysgedd is-genre.¹⁴⁶
- 4.70 Y BBC yw'r prif gyfrannwr o hyd o ran buddsoddiad ac oriau ar draws pob genre i blant. Fe wnaethom nodi yn ein hadolygiad o gynnwys i blant fod y BBC yn darparu amrywiaeth o gynnwys, gan gynnwys rhaglenni byw a rhaglenni ffeithiol ar CBeebies¹⁴⁷, ac mae'n cynnig cymysgedd o genres, gan gynnwys rhaglenni ffeithiol a drama ar CBBC.¹⁴⁸ Mae darparu rhaglenni byw a drama yn un ffordd o sicrhau bod bywydau plant yn cael eu hadlewyrchu'n ôl iddynt, ac adlewyrchu a chryfhau hunaniaeth ddiwylliannol y DU yn ehangach. Rhaid i'r BBC ddarparu newyddion ar gyfer plant yn benodol hefyd, a dyma'r unig ddarparwr sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Mae teledu yn dal yn ffordd boblogaidd i blant gael gafael ar y newyddion¹⁴⁹ ac mae'r rhaglenni hyn yn helpu i lywio eu dealltwriaeth o'r byd a'u paratoi i gymryd rhan mewn democratiaeth.

¹⁴¹ BT t6 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/131179/BT.pdf

¹⁴² COBA, paragraffau 5.6 – 5.7 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

¹⁴³ Sky, paragraff 6.41 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

¹⁴⁴ Virgin t3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0008/131210/Virgin-Media.pdf

¹⁴⁵ Cytundeb Fframwaith y BBC, Rhan 1 o Atodlen 1

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/584329/57965_Cm_9366_Print_1_.pdf

¹⁴⁶ Trwydded Weithredu'r BBC https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0025/135187/Operating-licence-for-the-BBCs-UK-Public-Services.pdf

¹⁴⁷ Adolygiad o gynnwys i blant: diweddariad paragraff 5.17

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/116519/childrens-content-review-update.pdf

¹⁴⁸ Adolygiad o gynnwys i blant: diweddariad paragraff 5.25

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/116519/childrens-content-review-update.pdf

¹⁴⁹ Adolygiad o gynnwys i blant: diweddariad 5.34,

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/116519/childrens-content-review-update.pdf

- 4.71 Tynnodd y BBC sylw at natur amrywiol y cynnwys ar y sianeli, sydd yn fwy na dim ond cartwnau, i gynnwys dysgu cyn-oed ysgol, comedi, adloniant, drama, newyddion, addysg a chynnwys ffeithiol wedi'u teilwra ar gyfer plant.¹⁵⁰ Roedd VLV yn nodi bod y rhan fwyaf o'r sianeli eraill yn y DU sydd wedi'u hanelu at blant yn llawn cynnwys sydd wedi'i fewnforio ac sydd ddim yn ddiwylliannol berthnasol i fywydau plant Prydain. Yn y cyd-destun hwn, roedd VLV yn credu bod achos cyhoeddus cryf i roi mwy o amlygrwydd i CBBC a CBeebies na'r holl sianeli eraill i blant ym maes neu genre Plant ar yr EPG, ni waeth beth yw'r llwyfan.¹⁵¹
- 4.72 Mae sicrhau bod CBeebies a CBBC yn amlwg yn helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i'r cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan y sianeli hyn, a helpu i wireddu ystod o fanteision cyhoeddus. Fel y trafodwyd ym mharagraff 3.9, byddai cynyddu amlygrwydd y sianeli hyn yn cynyddu'r nifer sy'n gwyllo'r cynnwys maent yn ei ddarparu.
- 4.73 Mae'r nifer ychwanegol a fyddai'n gwyllo CBBC a CBeebies yn debygol o ddigwydd ar draul y sianeli plant eraill. Fodd bynnag, nid yw'r sianeli hyn yn gorfod dilyn yr un gofynion rheoleiddiol â CBBC a CBeebies. Mae eu cynnwys yn llai tebygol felly o gyfrannu at y nodau addysgol, diwylliannol a chymdeithasol y mae trefn amlygrwydd yr EPG yn ceisio'u cefnogi. Fel y nodir ym mharagraff 3.29, yng ngoleuni ein dyletswyddau statudol, rydym yn rhoi pwys penodol ar yr effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr.
- 4.74 Rydym hefyd wedi ystyried yr effeithiau negyddol posib ar rai defnyddwyr. Pan fydd yn well gan wylwyr wyllo sianeli plant eraill, gall hyn lesteirio pa mor hawdd yw dod o hyd i'r sianeli. However, this drawback is likely to be limited given the modest nature of our proposals: Byddai darparwyr EPG yn dal i fod yn rhydd i drefnu'r rhan fwyaf o'r slotiau uchaf yn y genre plant (chwe allan o'r wyth uchaf) fel sy'n addas yn eu barn nhw. Hefyd, mae sianeli plant y BBC yn sianeli poblogaidd yn y genre, ac efallai y byddai llawer o wylwyr yn gwerthfawrogi pe byddent yn haws eu canfod felly mae'r effeithiau negyddol yn debygol o fod yn fach iawn.

Effaith ar sianeli plant y BBC

- 4.75 Yn ein dogfen ymgynghori, fe wnaethom ni drafod sut byddai symud i dudalen gyntaf EPG plant Sky yn arwain at gynnydd yn y nifer sy'n gwyllo CBBC a CBeebies. Ond, rydym ni'n credu bod y dystiolaeth ar gyfer graddfa unrhyw gynnydd yn gymysg.
- 4.76 Ers yr ymgynghoriad, rydym wedi cael amrywiaeth o dystiolaeth ar berfformiad y sianeli hyn. Dywedodd COBA fod y dadansoddiad yn ein hymgynghoriad wedi awgrymu bod data BARB yn llai argyhoeddiadol, gan ddangos na fyddai safle uwch ar EPG, mewn gwirionedd, yn gwneud fawr ddim o wahaniaeth, os o gwbl, i'r nifer sy'n gwyllo sianeli plant y BBC.¹⁵²

¹⁵⁰ BBC, paragraff 35 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/131185/International-Broadcasting-Trust.pdf

¹⁵¹ VLV paragraff 42 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf

¹⁵² COBA, paragraff 5.7 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

Dywedodd ymatebydd dienw 2 a COBA mai mynd i'r sianel yn uniongyrchol yw'r ffordd fwyaf cyffredin o gyrraedd sianeli i blant ac, yn benodol, CBeebies.¹⁵³ Roedd Sky o'r farn bod y niferoedd uchel sy'n gwyllo'r sianeli hyn yn dangos eu bod yn hawdd eu canfod, a dywedodd fod gwylwyr yn gyfarwydd â rhifau'r sianeli.¹⁵⁴ Dywedodd Sky hefyd nad oeddem ni wedi dangos yn glir bod hyn yn debygol o fod o fudd i'r sianeli hyn o ran niferoedd gwyllo.¹⁵⁵

- 4.77 Cyflwynodd y BBC, fodd bynnag, ddata gan BARB, a oedd yn dangos bod safle is ei sianeli i blant ar EPG Sky wedi arwain at lai o wylwyr ymysg eu cynulleidfa darged nag ar Virgin Media, lle maent yn uwch ar y rhestr.¹⁵⁶
- 4.78 Rydym wedi adolygu'r data a ddarparwyd gan randdeiliaid ac wedi edrych eto ar ein dull o ddadansoddi data BARB, ac mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn [Atodiad 3](#). Er bod mynd i'r sianel yn uniongyrchol yn ffordd boblogaidd o gyrraedd y mathau hyn o sianeli, rydym yn credu ei bod yn debygol bod yr EPG yn dal yn cael ei ddefnyddio i ddod o hyd i gynnwys plant. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cymariaethau o berfformiad diweddar y ddwy sianel, a byddai'n gyson â'n safbwyntiau cyffredinol ynghylch perfformiad a safle ar y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig. Felly, yn gyffredinol, rydym yn credu bod y dystiolaeth yn dangos bod symud sianeli plant y BBC i fyny yn y genre Plant ar lwyfan Sky yn debygol o gynyddu'r nifer sy'n eu gwyllo.

Effaith ar ddarlledwyr eraill

- 4.79 Fe ddywedon ni yn y ddogfen ymgynghori y byddai ein cynigion yn cael effaith negyddol ar rai sianeli masnachol. Byddai symud sianeli plant y BBC i fyny ar EPG Sky yn golygu bod angen symud 6 darlledwr masnachol i lawr, a gallai hyn leihau lefelau eu gwylwyr. Fel y nodir yn [Atodiad 3](#), gallai cyfanswm blynyddol y golled refeniw i ddarlledwyr masnachol fod oddeutu £0.3m y flwyddyn o ganlyniad i lai o wylwyr.
- 4.80 Mynegodd COBA bryderon am effaith y symud ar sianeli masnachol o ran refeniw, a'r buddsoddiad mewn cynnwys wedyn. Tynnodd sylw at y ffaith hefyd, oherwydd model cyllido'r BBC, na fyddai cynnydd yn y refeniw i'r BBC, a'i bod yn annhebygol felly y byddai'r BBC yn buddsoddi mwy ar gynnwys plant, sy'n golygu, yn gyffredinol, y gallai fod gostyngiad net mewn buddsoddiad.¹⁵⁷ Dywedodd ymatebydd dienw 2 y byddai'r newidiadau yn symud gwylwyr o sianeli masnachol ar adeg pan oedd amodau masnachu'n anodd.¹⁵⁸
- 4.81 Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw parhau i fuddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol i blant, a bod newidiadau yn ymddygiad gwylwyr a'r farchnad hysbysebion bresennol yn

¹⁵³ Ymateb dienw 2, t3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0018/131193/Name-Withheld-2.pdf; COBA, paragraff 5.6 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

¹⁵⁴ Sky paragraff 5.16(b) https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

¹⁵⁵ Sky, paragraff 6.41 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

¹⁵⁶ BBC paragraff 36 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/131178/BBC.pdf

¹⁵⁷ COBA Paragraff 5.9 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

¹⁵⁸ Ymateb dienw 2, t3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0018/131193/Name-Withheld-2.pdf

- cyflwyno heriau penodol i ddarlledwyr rhaglenni plant. Roedd gostyngiad o 11% yn oriau gwyllo plant o un flwyddyn i'r llall yn 2018 i gyfartaledd o 1 awr 17 munud y dydd.¹⁵⁹
- 4.82 Ac ystyried maint yr effaith wrth symud sianeli i lawr, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol o newid hyfywedd y sianeli'n sylweddol. Fodd bynnag, ni allwn ddiystyru'r effaith ar eu cymhellion i fuddsoddi mewn cynnwys. Fel y nodir gan COBA, mae'n bosib y bydd yr effeithiau yn yr achos hwn yn fwy sylweddol ac ystyried y lefel gymharol isel o fuddsoddi sydd mewn cynnwys i blant ar hyn o bryd.
- 4.83 Roedd COBA yn amcangyfrif bod y golled ariannol rydym wedi'i modelu yn cynrychioli 10% o'r buddsoddiad blynyddol cyfartalog mewn cynnwys i blant a ddarlledir am y tro cyntaf yn y DU dros y tair blynedd diwethaf yn ôl aelodau COBA (£15.6m).¹⁶⁰ Ond, roedd ein hamcangyfrifon o golledion ariannol rydym wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori yn cynrychioli costau i ddarlledwyr masnachol a/neu ddarparwyr EPG dros nifer o flynyddoedd yn hytrach na'r gost fesul blwyddyn. Yn y datganiad hwn, rydym wedi cyflwyno amcangyfrif o'r costau blynyddol (fel y nodir yn [Atodiad 4](#)), ac mae ein hamcangyfrif o'r costau blynyddol i ddarlledwyr masnachol yn 2% o'r buddsoddiad blynyddol cyfartalog mewn cynnwys i blant a ddarlledir am y tro cyntaf yn y DU gan aelodau COBA.
- 4.84 Mae darlledwyr masnachol yn rhan bwysig o ecoleg darlledu i blant yn y DU gan eu bod yn helpu i sicrhau bod amrywiaeth o gynnwys ar gael sy'n apelio at amrywiaeth o chwaethau. Mae eu buddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf yn rhan fach ond pwysig o'r buddsoddiad mewn rhaglenni teledu i blant, ar adeg pan fo'r buddsoddiad yn y genre hwn wedi bod yn gostwng. Ond, rydym ni o'r farn bod effaith cost ein cynigion yn gymharol fach o ran cyfanswm y buddsoddiad gan ddarlledwyr yn flynyddol. Felly, rydym yn credu bod ein cynigion yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar fuddsoddiadau yn y dyfodol.
- 4.85 Mae'n bosib hefyd y bydd costau un-tro i sianeli sy'n cael eu symud i le newydd - er enghraifft, marchnata eu rhif slot newydd. Fel y nodir yn [Atodiad 3](#) a chan ystyried ein cyfnod pontio o 18 mis,¹⁶¹ ni allwn fodelu unrhyw gostau un-tro uniongyrchol yn rhesymol, ond mae ffactorau lliniarol (h.y. y cyfnod pontio) ac felly rydym yn rhagweld y bydd y costau'n annhebygol o fod yn sylweddol.

Effaith ar ddarparwyr EPG

- 4.86 Sky fyddai'r unig ddarparwr y byddai hyn yn effeithio arno'n uniongyrchol, ac ni fyddai'n wynebu unrhyw golledion masnachol uniongyrchol oherwydd, yn wahanol i Virgin Media, nid yw'n pennu gwerth arian y slotiau ar ei Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig. Efallai y bydd yn wynebu costau un-tro sy'n gysylltiedig ag unrhyw gostau gweinyddol a thechnegol i addasu lleoliadau sianeli ar ei lwyfannau. Fel y nodir yn [Atodiad 3](#) gan ystyried ein bod yn pennu cyfnod pontio o 18 mis, rydym yn rhagweld na fydd y costau hyn yn sylweddol.

¹⁵⁹ Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith, plant (rhwng 4 a 15 oed).

¹⁶⁰ COBA paragraff 5.9 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

¹⁶¹ Ewch i baragraffau 4.153 - 4.160.

Casgliad ynghylch sianeli plant y BBC

- 4.87 Ar ôl ystyried y ffactorau a nodwyd uchod, ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu mai'r amlygrwydd priodol i sianeli plant y BBC yw o fewn yr wyth slot cyntaf yn adran neu genre plant y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig.

Sianeli sy'n benodol i wledydd: BBC Scotland a BBC Alba (ar EPG sydd wedi'u trefnu ar sail ranbarthol ac EPG ledled y DU) ac S4C (ar EPG ledled y DU yn unig)

Safleoedd presennol

- 4.88 Mae BBC Scotland yn y manau a ganlyn ar hyn o bryd ar y prif Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig:
- a) Safle slot 15 (LCN 115) ar EPG Sky yr Alban;
 - b) Safle slot 8 (LCN 108) ar EPG Virgin Media yn yr Alban;
 - c) Safle slot 9 (LCN 9) ar EPG Freeview yr Alban;
 - d) Safle slot 6 (LCN 106) ar EPG Freesat yr Alban.
- 4.89 Mae BBC Alba yn y manau a ganlyn ar hyn o bryd ar y prif Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig:
- a) Safle slot 40 (LCN 141) ar EPG Sky yr Alban;
 - b) Safle slot 60 (LCN 161) ar EPG Virgin Media;
 - c) Safle slot 7 (LCN 7) ar EPG Freeview yr Alban;
 - d) Safle slot 9 (LCN 109) ar EPG Freesat yr Alban.
- 4.90 Fel y trafodwyd ym mharagraffau 4.3 i 4.19, rydym wedi penderfynu y dylai S4C gael ei rhestru ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig sydd wedi'u hanelu'n benodol at Gymru yn slot 4 neu 104. Mae'r adran hon felly ond yn delio â safle S4C ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig sydd ddim yn darparu EPG penodol i Gymru, ac nid y rheini ar gyfer Cymru yn unig. Ar hyn o bryd, dim ond i EPG Virgin Media mae hyn yn berthnasol, lle mae S4C yn safle slot 64 (LCN 166).

Cynigion yr ymgynghoriad a themâu'r ymatebion

- 4.91 Yn ein hymgyngoriad, fe wnaethom gynnig y dylid gwarantu slotiau i BBC Scotland a BBC Alba o fewn tair tudalen gyntaf yr EPG a anelwyd yn benodol at yr Alban ac EPG ledled y DU.¹⁶² Fe wnaethom hefyd gynnig y dylai S4C, yn yr un modd, gael ei lleoli o fewn y tair

¹⁶² Fel y nodwyd uchod, Virgin Media yw'r unig ddarparwr EPG mawr ar hyn o bryd nad yw'n darparu EPG sydd wedi ei rannu'n llawn yn ôl rhanbarth. Fodd bynnag, mae'n darparu amrywiad ychydig yn wahanol i'w EPG ar gyfer yr Alban o'i

tudalen gyntaf mewn EPG ledled y DU. Yn unol â'n penderfyniad i bennu gofynion yn seiliedig ar safle slotiau yn hytrach na safle tudalen,¹⁶³ yng ngweddill yr adran hon rydym yn ystyried effeithiau rhestru'r sianeli hyn yn y 24 slot cyntaf.

- 4.92 Roedd sawl rhanddeiliad a ymatebodd i'n hymgyngoriad yn cytuno y dylai BBC Scotland a BBC Alba fod â lle gwarantiedig o fewn y tair tudalen uchaf yn yr EPG yn yr Alban, ac y dylid rhoi amlygrwydd tudalen tri i'r tri gwasanaeth sy'n gwasanaethu'r Cenedloedd mewn EPG ledled y DU.¹⁶⁴ Roedd rhanddeiliaid eraill o'r farn nad oedd angen rheoleiddio yn y maes hwn¹⁶⁵ neu y byddai'n amharu'n sylweddol ar y ddarpariaeth.¹⁶⁶ Dadleuodd y rhanddeiliaid hyn fod manteision bychan ar gael o gymharu â'r costau a fyddai'n cael eu gosod ar sianeli eraill a darparwyd EPG,¹⁶⁷ ac y gallai hyn gael effeithiau andwyol anfwriadol.¹⁶⁸ Roedd eraill o'r farn bod natur arbenigol y sianelau hyn yn golygu na ddylent feddiannu slotiau tuag at frig EPG y DU gyfan.¹⁶⁹
- 4.93 Awgrymodd S4C y byddai'n briodol i S4C gael ei rhestru yn y tair tudalen gyntaf ar draws EPG rhanbarthol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal ag EPG ledled y DU.

Rhesymu a phenderfynu

Effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr

- 4.94 BBC Alba ac S4C yw'r sianeli ieithoedd brodorol sydd wedi eu hanelu at siaradwyr yr ieithoedd hyn yn yr Alban a Chymru yn y drefn honno. Darperir BBC Alba gan y BBC mewn partneriaeth ag MG Alba. Mae BBC Scotland yn sianel Saesneg sydd wedi ei hanelu at gynulleidfaoedd yr Alban - fe'i lansiodd ar 24 Chwefror 2019, gan ddisodli BBC Four ar EPG Freeview yr Alban.
- 4.95 Fel sianel genre gymysg, mae BBC Alba yn darparu amrywiaeth o gynnwys gan gynnwys rhaglenni plant, newyddion a materion cyfoes, rhaglenni celfyddydol a diwylliannol, rhaglenni dogfen, darllediadau chwaraeon a chyfres ddrama ar gyfer siaradwyr Gaeleg a'r rhai sydd â diddordeb yn yr iaith Aeleg a'i diwylliant . O dan drwydded weithredol y BBC,

gymharu â'i EPG ar draws y DU (lle mae BBC Scotland wedi ei restru mewn slot a neilltuwyd ar gyfer BBC One HD ar draws gweddill y DU). Er ein bod yn nodi'r amrywiad hwn, er symlrwydd, rydym yn cyfeirio at EPG Virgin Media fel un i'r DU gyfan.

¹⁶³ Gweler paragraffau 3.13 - 3.18.

¹⁶⁴ Roedd y rhain yn cynnwys VLV, paragraff 45 – 47

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf; Yr

Ymddiriedolaeth Ddarlledu Ryngwladol, paragraff 43 – 44

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/131185/International-Broadcasting-Trust.pdf; Freesat, tud. 1-2

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0011/144101/Freesat.pdf; Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a

Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, tud. 1

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0016/131182/Culture,-Welsh-Language-and-Communications-Committee-of-the-National-Assembly-for-Wales.pdf

¹⁶⁵ BT tud. 6-7 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/131179/BT.pdf;

¹⁶⁶ Virgin tud. 2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0008/131210/Virgin-Media.pdf

¹⁶⁷ COBA paragraff 6.1 – 6.10 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf; Sky, adran 7

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

¹⁶⁸ Sky, adran 7 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

¹⁶⁹ Tech UK, tud. 3 - 4 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0012/131205/techUK.pdf; Enw wedi ei guddio 3,

tud. 2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/131194/Name-Withheld-3.pdf

mae'n rhaid i dri chwarter o oriau darlledu BBC Alba fod yn gynyrchiadau gwreiddiol a rhaid bod o leiaf 5 awr o raglenni gwreiddiol wedi eu hanelu at y rhai sy'n dysgu'r iaith Aeleg. Yn ogystal, mae'n haid i'r sianel ddarparu rhaglenni newyddion byw bob nos yn ystod yr wythnos ac adolygiad newyddion hirach ar benwythnosau.¹⁷⁰

- 4.96 Nid yw'r math o gynnwys a ddarperir gan BBC Alba ar gael yn eang ar unrhyw sianel deledu arall. Mae rhagor o amlygrwydd i BBC Alba yn debygol o'i gwneud yn haws i wylwyr ddod o hyd i'r sianel, na fuasai'n gallu canfod cynnwys o'r fath yn hawdd fel arall. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gwylwyr Sky a Virgin Media yn yr Alban lle mae'r sianel yn is i lawr ar yr EPG. Ar EPG eraill lle mae'r sianeli hyn eisoes wedi eu lleoli o fewn y 24 slot uchaf, byddai gosod gwaelodlin ar y lefel hon yn sicrhau eu bod yn dal yn hawdd eu canfod yn y dyfodol.
- 4.97 Mae BBC Scotland yn sianel deledu genre cymysg y bwriedir iddi apelio at yr Alban ac adlewyrchu amrywiaeth y wlad. O dan drwydded weithredu'r BBC, mae'n ofynnol i BBC Scotland ddarparu amrywiaeth o genres yn ei raglenni sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban, a rhaglenni newyddion ar draws yr Alban neu sy'n adlewyrchu safbwynt yr Alban. Rhaid i dri chwarter oriau darlledu BBC Scotland fod yn gynyrchiadau gwreiddiol.¹⁷¹ Mae hefyd yn chwarae rhan yn ecoleg ddarlledu ehangach y DU gan y dylai o leiaf 90% o'i rhaglenni gwreiddiol yn y DU gael eu gwneud yn yr Alban, ac nid yw'r cynnwys sydd â ffocws Albanaidd ar gael yn eang ar unrhyw sianel deledu arall. Mae cynnal lefel uchel o amlygrwydd i BBC Scotland yn debygol o'i gwneud yn haws i wylwyr ddod o hyd i'r sianel, na fuasent yn gallu canfod cynnwys o'r fath yn hawdd fel arall.
- 4.98 Rydym wedi trafod cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a manteision cysylltiedig S4C ym mharagraff 4.11. Nid yw'r math o gynnwys a ddarperir gan S4C ar gael yn eang ar unrhyw sianel deledu arall. I wylwyr yng Nghymru sy'n defnyddio EPG ledled y DU, mae rhagor o amlygrwydd i S4C ar EPG ledled y DU yn debygol o'i gwneud yn haws i wylwyr ddod o hyd i'r sianel, na fuasent yn gallu canfod cynnwys o'r fath yn hawdd fel arall.
- 4.99 Credwn fod y cynnwys hwn yn darparu manteision sylweddol i ddefnyddwyr a dinasyddion ac, fel y nodir yn adran 3.29, yng ngoleuni ein dyletswyddau statudol, rydym yn rhoi pwysigrwydd penodol i'r effeithiau hyn ar ddinasyddion a defnyddwyr.
- 4.100 Rydym hefyd wedi ystyried yr effeithiau negyddol posibl ar rai cynulleidfaoedd. Anfantais rhoi gradd uwch o amlygrwydd ar gyfer BBC Scotland, BBC Alba ac S4C ar rai cyfeiryddion rhaglenni electronig yw, yn achos cynulleidfaoedd sydd â diddordeb mewn cynnwys arall, y gallai lesteirio hygyrchedd hawdd sianeli eraill sydd ag apêl ehangach. Fodd bynnag, caiff yr effeithiau hyn eu lliniaru ar EPG ranbarthol a all dargedu gwylwyr mewn Cenhedloedd penodol, gan mai dim ond un neu ddwy sianel y cenhedloedd fyddai o fewn 24 slot cyntaf. Hyd yn oed ar EPG ledled y DU, fel Virgin Media, dim ond tair sianel genhedloedd sydd i'w rhestru yn y 24 slot cyntaf.

¹⁷⁰ Trwydded weithredu'r BBC, paragraffau 2.24, 2.32 a 2.81

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/135187/Operating-licence-for-the-BBCs-UK-Public-Services.pdf

¹⁷¹ Trwydded weithredu'r BBC, paragraffau 2.32 a 2.80

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/135187/Operating-licence-for-the-BBCs-UK-Public-Services.pdf

Effeithiau ar sianeli gwledydd

- 4.101 Yn gyffredinol, byddai amlygrwydd yn y 24 slot cyntaf yn gadarnhaol i BBC Scotland. Bydd gwarantu amlygrwydd BBC Scotland yn hwb i'w pherfformiad gwyllo presennol a chyflawniad ei dibenion cyhoeddus, ac yn ei diogelu rhag lleihad sylweddol mewn amlygrwydd yn y dyfodol.
- 4.102 Yn gyffredinol, byddai amlygrwydd yn y 24 slot cyntaf yn gadarnhaol i BBC Alba. Er bod y boblogaeth a dargedir yn uniongyrchol ar gyfer sianel iaith frodorol yr Alban yn fach, ac felly mae'n debygol y bydd enillion gwyllo absoliwt yn fach, credwn fod rhagor o bobl yn debygol o 'ddarganfod' y sianel ar EPG Virgin Media a Sky yn yr Alban o ganlyniad i'w symud o fewn y 24 slot gyntaf ac felly, mae gwyllo yn debygol o gynyddu i ryw raddau oherwydd y symudiad hwn. Mae hefyd yn debygol o gynyddu'r wybodaeth ehangach am argaeledd y sianel a chodi ei phroffil yn yr Alban.
- 4.103 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y byddai'r amlygrwydd hwnnw o fewn y 24 slot cyntaf ar EPG y DU yn gadarnhaol i S4C. Er bod y brif gynulleidfa darged ar gyfer y sianel Gymraeg yn gymharol fach yn nhermau'r DU, ac felly bod enillion gwyllo absoliwt hefyd yn debygol o fod yn fach, credwn fod mwy o bobl yn debygol o ganfod y sianel os yw'r gwasanaeth yn fwy amlwg ar EPG ledled y DU, ac felly mae gwyllo yn debygol o gynyddu i ryw raddau. Mae hefyd yn debygol o gynyddu'r wybodaeth ehangach am argaeledd y sianel a chodi ei phroffil yng Nghymru.

Effaith ar ddarlledwyr eraill

- 4.104 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y byddai amlygrwydd i BBC Scotland a BBC Alba o fewn 24 slot ar EPG sy'n benodol i'r Alban ac EPG y DU gyfan, yn ogystal ag S4C o fewn 24 slot EPG ledled y DU, yn cael effaith negyddol ar rai sianeli masnachol. Byddai dyrchafu BBC Alba ar EPG Sky yr Alban ac EPG Virgin Media a dyrchafu S4C ar EPG Virgin Media yn ei gwneud yn ofynnol i nifer o ddarlledwyr masnachol gael eu symud i lawr, ac o bosibl yn lleihau eu refeniw gwyllo a hysbysebu.
- 4.105 Awgrymodd COBA mai'r cynigion i dyrchafu S4C a BBC Alba oedd y rhai mwyaf aflonyddol a chostus o'r rhai a gynigiwyd gan Ofcom. Yn benodol, nododd COBA y byddai'n rhaid i nifer fawr o sianeli symud i lawr o ganlyniad, a dywedodd fod Ofcom wedi tanbriso'n sylweddol yr effaith negyddol ar sianeli masnachol, yn enwedig mewn perthynas â llwyfan Virgin Media.¹⁷² Yn yr un modd, pwysleisiodd Sky a Virgin Media y lefelau o darfu a fyddai'n digwydd.¹⁷³
- 4.106 Rydym yn cytuno y byddai costau i sianeli eraill o ganlyniad i symud i lawr yn yr EPG er mwyn cynnwys BBC Alba ac S4C. Bydd lefel yr amlygrwydd a gynigiwyd gennym ar gyfer BBC Alba ac S4C yn ei gwneud yn ofynnol i 16 sianel fasnachol gael eu symud i lawr ar EPG Sky yr Alban a symud 38 sianel fasnachol i lawr ar EPG Virgin Media, gan leihau eu ffigurau gwyllo o bosibl. Fel y nodir yn [Atodiad 3](#), amcangyfrifwn y gall cyfanswm y golled flynyddol

¹⁷² COBA, 6.1 – 6.7 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

¹⁷³ Sky, paragraff 7.6 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF; Virgin Media, tud. 2 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/131210/Virgin-Media.pdf

mewn elw i ddarllodwyr masnachol fod tua £0.1 miliwn y flwyddyn ar EPG Sky yr Alban o ganlyniad i lai o wyllo, tra gall yr effaith fasnachol flynyddol ar lwyfan Virgin Media fod yn hyd at £2.7 miliwn y flwyddyn, gyda rhywfaint o hynny'n cael ei deimlo gan Virgin Media (fel darparwr EPG) a'r gweddill gan y sianeli masnachol a fydd yn cael eu symud i lawr.¹⁷⁴ O ystyried maint yr effaith hon, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol o newid eu hyfywedd yn sylweddol. Fodd bynnag, ni allwn ddiystyru'r effaith ar eu cymhellion i fuddsoddi mewn cynnwys.

- 4.107 Mae'n bosibl hefyd y bydd costau un-tro i sianeli sy'n cael eu symud i le newydd - er enghraifft, marchnata eu rhif slot newydd. Fel y nodir yn [Atodiad 3](#) a chan ystyried ein bod yn pennu cyfnod pontio o 18 mis, ni allwn fodelu unrhyw gost un-tro uniongyrchol yn rhesymol, ond mae ffactorau lliniarol (h.y. y cyfnod pontio) ac felly rydym yn rhagweld y bydd y costau'n annhebygol o fod yn sylweddol.

Effaith ar ddarparwyr EPG

- 4.108 Sky a Virgin Media fyddai'r darparwyr EPG a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan ein penderfyniadau. Mae'r effaith ar Virgin Media yn debygol o fod yn fwy gan y bydd yn colli refeniw posibl yn y dyfodol y gallai fod wedi ei gael drwy bennu gwerth ariannol i'r slotiau hyn, ac oherwydd ei fod yn draddodiadol wedi cynnig EPG ledled y DU i'w gwsmeriaid. Fel y nodir ym mharagraff 4.106 uchod, amcangyfrifwn y gallai'r golled hon fod hyd at £2.7 miliwn y flwyddyn, y bydd rhywfaint ohoni yn syrthio ar Virgin Media (fel darparwr EPG) a'r gweddill ar y sianeli masnachol a gaiff eu symud i lawr. Fodd bynnag, nodwn yn ymateb Virgin Media bod potensial i gynnig gwasanaethau gwahaniaethol daearyddol a allai liniaru'r costau hyn i ryw raddau. Mae Virgin Media eisoes wedi dechrau cynnig EPG gwahaniaethol yn yr Alban, lle mae BBC Scotland bellach yn ymddangos yn slot 108, sydd wedi ei neilltuo ar gyfer BBC One HD ar draws gweddill y DU.
- 4.109 Gall Sky a Virgin Media wynebu costau un-tro o ganlyniad i'r gofyniad i symud BBC Alba ac S4C o fewn 24 slot cyntaf ei EPG. Gall y costau hyn gynnwys unrhyw gost weinyddol a thechnegol fel y nodir yn [Atodiad 3](#). Fodd bynnag, gan ystyried ein bod yn pennu cyfnod pontio o 18 mis, rydym yn rhagweld na fydd y costau hyn yn sylweddol.

Casgliad ar BBC Scotland a BBC Alba ar EPG yn yr Alban a ledled y DU; ac S4C ar EPG ledled y DU

- 4.110 Ar ôl ystyried y ffactorau a nodwyd uchod, ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu mai'r amlygrwydd priodol i BBC Scotland a BBC Alba yw o fewn y 24 slot cyntaf yn adran adloniant cyffredinol EPG sy'n benodol i'r Alban ac ar EPG ledled y DU.

¹⁷⁴ Nid yw Virgin Media ar hyn o bryd yn rhannu ei EPG yn llawn ar sail ranbarthol, felly bydd angen symud sianeli gwledydd i fyny'r EPG ar draws y DU. Petai Virgin Media yn dewis rhannu ei EPG yn rhanbarthol, byddai angen i'r sianeli hyn symud i fyny o fewn yr EPG sy'n benodol i'r genedl berthnasol yn unig, gan newid yr effaith.

- 4.111 Rydym hefyd wedi penderfynu bod amlygrwydd priodol i S4C o fewn y 24 slot cyntaf yn adran adloniant cyffredinol EPG y DU gyfan. Trafodir ei safbwynt ar EPG sy'n benodol i Gymru ym mharagraffau 4.8 - 4.19.

Gwasanaethau penodol i ardaloedd: Teledu Lleol

Safleoedd presennol

- 4.112 Cyflwynwyd y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau teledu lleol yn 2012¹⁷⁵ ac fe'i cynlluniwyd i sefydlu teledu lleol ar deledu daearol digidol (DTT).¹⁷⁶ Yn ôl Adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2018 Ofcom, amcangyfrifir y gallai 51.2% o gartrefi yn y DU dderbyn gwasanaeth teledu lleol trwy DTT ym mis Ebrill 2018.¹⁷⁷ Nid yw'n bosibl mesur argaeledd i gartrefi lloeren neu gebl.¹⁷⁸
- 4.113 Fel arfer, caiff un neu ddau o slotiau EPG yr un fath eu neilltuo ar gyfer pob gwasanaeth teledu lleol ledled y DU ar unrhyw blatfform penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd unrhyw orgyffwrdd rhwng yr ardaloedd lleol sy'n mwynhau cynnig gwasanaeth teledu lleol, fel bod dyrannu un neu ddau o slotiau ar gyfer pob gwasanaeth teledu lleol yn ffordd effeithlon o sicrhau bod y rhain ar gael ar lwyfannau EPG. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau teledu lleol ar gael yn y safleoedd EPG a ganlyn:
- Ar Freeview, yn safle slotiau 7 neu 8 (LCN 7 neu 8) yn dibynnu ar ardal y gwylwr;
 - Ar Sky:
 - Mae Cardiff TV ar gael yn y lleoliad perthnasol yn safle slot 33 (LCN 134);
 - Mae London Live ar gael yn y lleoliad perthnasol yn safle slot 17 (LCN 117);¹⁷⁹
 - Ar Virgin Media, mae nifer o wasanaethau teledu lleol ar gael yn safle slot 58 (LCN 159).¹⁸⁰

Nid yw gwasanaethau teledu lleol yn cael eu cynnal ar Freesat ar hyn o bryd.

¹⁷⁵ Mae'r fframwaith yn cynnwys tri gorchymyn statudol: Gorchymyn Cod Ymarfer ar gyfer Cyfeirddion Rhaglenni Electronig (Ychwanegu Gwasanaethau Rhaglenni) 2011 (OS 2011/3003), Gorchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Digidol Lleol 2012 (OS 2012/292) a Gorchymyn Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 (Cyfarwyddiadau i OFCOM) 2012 (OS 2012/293).

¹⁷⁶ Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer teledu lleol yn canolbwyntio ar ddarlledu gwasanaethau teledu lleol yn unol â thrwyddedau L-DTPS. Y gwasanaethau hynny y mae'n ofynnol iddynt gyflawni ymrwymadau rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus y trwyddedai ac elwa ar gapasiti sbectrwm neilltuedig ar yr amlblecs teledu lleol a reolir gan Comux.

¹⁷⁷ Data Ofcom

¹⁷⁸ Gweler Adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom, 2018, 18 Gorffennaf 2018, tudalen 61:

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf.

¹⁷⁹ Ym mis Hydref 2018, dim ond gwasanaethau teledu lleol Cardiff TV a London Live roedd Sky yn eu cynnal. Ffynhonnell: Sky, Ymateb Sky i adolygiad Ofcom o reolau am amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a theledu lleol, Hydref 2018, troednodyn 76 (tudalen 35): https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF.

¹⁸⁰ Rydym ar ddeall mai Virgin Media yn unig sy'n cynnal gwasanaethau teledu lleol rhai trwyddedai gwasanaethau teledu lleol. Mae'r rhain yn cynnwys tri o rwydwaith That's TV – That's Cambridge, That's Humber a That's Swansea Bay a hefyd London Live; NVTV, Latest TV, KMTV, Notts TV, Sheffield Live!, Birmingham TV, Bristol TV, Liverpool TV, Cardiff TV, North Wales TV, Teeside TV a Leeds TV

- 4.114 Nid oes gan rai ardaloedd o'r DU wasanaethau teledu lleol penodol¹⁸¹. Yn 2018 fe wnaethom benderfynu peidio â gofyn am ymestyn y rhwydwaith darlledu teledu lleol gan ein bod o'r farn y byddai'n cael effaith andwyol ar hyfywedd economaidd y sector teledu lleol.¹⁸²

Cynigion yr ymgynghoriad a themâu'r ymatebion ar deledu lleol

- 4.115 Yn ein hymgyngoriad, fe wnaethom gynnig y dylid gwarantu slotiau ar dair tudalen gyntaf adran adloniant cyffredinol pob EPG i sianeli teledu lleol. Yn unol â'n penderfyniad i bennu gofynion yn seiliedig ar safle slotiau yn hytrach na safle tudalen,¹⁸³ yng ngweddill yr adran hon rydym yn ystyried effeithiau rhestru'r sianeli hyn yn y 24 slot cyntaf yr adran adloniant cyffredinol.
- 4.116 Er bod rhai rhanddeiliaid yn cytuno â'n cynigion (er enghraifft, C4C, IBT, VLV, STV, TAC, Digital UK ac Arqiva),¹⁸⁴ cododd llawer bryderon, gan gynnwys BT, YouView, Freesat, techUK ac ITV.¹⁸⁵ Roedd pryderon mewn perthynas â theledu lleol yn cynnwys dadleuon nad oedd ein cynnig yn angenrheidiol ac y byddai'n anghymesur, tra bod rhai yn tynnu sylw at faterion posibl yn gysylltiedig â chludiant, cyrhaeddiad isel y sianeli hyn er gwaethaf eu safle EPG cymharol uchel ar y rhan fwyaf o Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig, a'r duedd i wasanaethau teledu lleol ofyn am gael lleihau eu rhwymedigaethau cynnwys.
- 4.117 Dywedodd rhanddeiliaid cefnogol hefyd y byddai unrhyw amlygrwydd yn is na thudalen gyntaf yr EPG yn bygwth hyfywedd ariannol gwasanaethau teledu lleol ac amcanion polisi'r Llywodraeth wrth gyflwyno'r gyfundrefn, yn enwedig mewn perthynas â safle gwasanaethau teledu lleol ar y llwyfan DTT (KMTV,¹⁸⁶ Latest TV,¹⁸⁷ a 2 randdeiliad dienw). Awgrymodd y rhanddeiliaid hyn y dylai teledu lleol ymddangos ar dudalen gyntaf yr EPG neu yn slot 106.

¹⁸¹ Nodir y 34 lleoliad a wasanaethir gan drwyddedwyr Comux a L-DTPS yn y Cynllun Technegol sydd ynghlwm wrth Drwydded Amblecs Comux: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/104656/Comux-Technical-Plan.pdf.

¹⁸² Ceir rhagor o wybodaeth am y penderfyniad hwn ac addasrwydd y sector yma:

<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/local-tv-licensing>

¹⁸³ Gweler paragraffau 3.13 - 3.18.

¹⁸⁴ C4C, tud. 24 a 25 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf; Yr Ymddiriedolaeth Darlledu Rhyngwladol, tud. 9 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0019/131185/International-Broadcasting-Trust.pdf; VLV, tud. 8 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf; STV, tud. 4 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/131204/STV.pdf; TAC, tud. 3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/131207/Teledwyr-Annibynnol-Cymru.pdf; Digital UK, tud. 5 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/131183/Digital-UK.pdf; Arqiva, tud. 5 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/131177/Arqiva.pdf

¹⁸⁵ BT, tud. 7 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/131179/BT.pdf; YouView, tud. 2 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0012/131214/YouView-TV.pdf; Freesat, tud. 2 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/144101/Freesat.pdf; techUK, tud. 3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0012/131205/techUK.pdf; ITV tud. 30, https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/131186/ITV.pdf

¹⁸⁶ KMTV tud. 3-4 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0023/131189/KMTV.pdf

¹⁸⁷ Latest TV, https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131190/Latest-TV.pdf

Rhesymu a phenderfynu

- 4.118 Yn y paragraffau a ganlyn, rydym yn ystyried y gwahaniaeth a wneir yn y cynllun statudol rhwng safle gwasanaethau teledu lleol ar DTT a'r safle ar lwyfannau darlledu eraill. Mae'r gyfundrefn reoleiddio a sefydlwyd gan y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau teledu lleol yn canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau hyn ar DTT, ac mae'r gwasanaethau hyn wedi eu diffinio yn y ddeddfwriaeth fel gwasanaethau rhaglenni teledu digidol lleol (DTPS lleol)¹⁸⁸. Mae'r trwyddedau ar gyfer y gwasanaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth fodloni ymrwymïadau rhaglen penodedig, ac mae'n ofynnol i'r gweithredydd amlblecs (Comux) neilltuo capasiti ar yr amlblecs perthnasol i gynnal y gwasanaeth.
- 4.119 Gall darparwyr DTPS lleol, os dymunant, gael trwydded ar wahân sy'n caniatáu iddynt ddarlledu gwasanaeth ar loeren, cebl neu ar-lein. Os yw'r gwasanaeth hwnnw'n cynnwys yr un rhaglenni a gynhwysir yn y DTPS lleol perthnasol, a bod y rhaglenni hynny'n cael eu darlledu ar yr un pryd ag y maent ar y DTPS lleol, yna mae'r gwasanaeth yn "wasanaeth lleol cydamserol" ac wedi ei ddynodi at ddibenion amlygrwydd y darpariaethau statudol¹⁸⁹. Fodd bynnag, nid oes fframwaith rheoleiddio i sicrhau bod gwasanaethau lleol cydamserol yn cael eu cynnal neu eu darparu ar lwyfannau lloeren, cebl neu ar-lein. Mae sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnal yn fater o drafod masnachol rhwng y darparwr gwasanaethau a darparwr y platfform.
- 4.120 Yn yr adran a ganlyn, rydym yn defnyddio'r term "teledu lleol" i gyfeirio'n gyffredinol at DTPS lleol a gwasanaethau cyd-ddarlledu lleol.

Effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr

- 4.121 Disgwylir i ddarparwyr DTPS lleol gynnig amrywiaeth o raglenni gwerthfawr ac amrywiol, gan gynnwys newyddion a chynnwys lleol sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu ac na fyddai ar gael fel arall drwy raglenni cenedlaethol, ac sydd felly'n diwallu anghenion a diddordebau'r gwahanol bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd.¹⁹⁰ Mae'r ymrwymïadau rhaglennu hyn yn amrywio o ddarparwr i ddarparwr, a gellir eu newid gyda chaniatâd Ofcom ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus.¹⁹¹ Yn nodweddiadol, bydd deiliaid trwyddedau DTPS lleol yn darparu sawl awr yr wythnos o gynnwys rhaglenni lleol, newyddion lleol a materion cyfoes. Fel enghraifft, ar 4 Gorffennaf 2018 mae gan ddarparwyr DTPS lleol:

¹⁸⁸ Adran 310(4)(g) a (9) y Ddeddf.

¹⁸⁹ Adran 310(4)(h) a (10) y Ddeddf.

¹⁹⁰ Sicrheir y gofynion hyn gan Ofcom drwy ymrwymïadau rhaglennu a bennir ym mhob trwydded DTPS lleol, yn unol ag adran 19(3A)(c) o Ddeddf Darlledu 1996 fel y'i haddaswyd gan Orchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Lleol 2012.

¹⁹¹ Yn unol ag adran 19 o Ddeddf 1996 fel y mae wedi ei haddasu gan Orchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Lleol 2012.

- a) mae ymrwymadau i ddarparu rhaglenni lleol rhediad cyntaf yn amrywio o 7 awr (e.e. DTSP lleol yng Nghaerfrog) i 49 awr (DTSP lleol ym Manceinion) yr wythnos;¹⁹² a
- b) mae ymrwymadau i ddarparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes rhediad cyntaf yn amrywio o 5 awr (e.e. DTSP lleol yn Scarborough) i 22.5 awr (DTSP lleol ym Manceinion) yr wythnos.¹⁹³
- 4.122 Amlygodd y gweithredwr teledu lleol KMTV ddyhead Prifysgol Caint '...i adeiladu ar y flwyddyn gyntaf o weithredu KMTV i gadarnhau KMTV fel yr orsaf deledu ar gyfer newyddion lleol a chyfranogiad cymunedol yng Nghaint a helpu i greu synnwyr o bwrpas cyffredin a hunaniaeth yn y rhanbarth'.¹⁹⁴ Amlygodd Latest TV hefyd ansawdd eu newyddiaduraeth leol a'u sylw i ddemocratiaeth leol.¹⁹⁵ Nododd That's Media mai ei 'uchelgais yw bod teledu lleol yn cael ei ystyried yn eang fel y 'chweched' rhwydwaith teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU'.
- 4.123 Fodd bynnag, ceisiodd nifer o ymatebwyr wahaniaethu rhwng gwasanaethau teledu lleol gan wasanaethau DGC eraill, gan dynnu sylw at natur fwy cyfyngedig eu rhwymedigaethau rhaglennu, a nodi 'mae'r rhwymedigaethau y mae'r gwasanaethau hyn yn destun iddynt wedi cael eu gwanhau dros amser'.¹⁹⁶ Tynnodd ITV sylw at y ffaith bod '...y cyfeiriad teithio ar gyfer teledu lleol yn ymddangos fel petai'n lleihau ymrwymadau trwyddedau.'¹⁹⁷
- 4.124 Mae sicrhau rhywfaint o amlygrwydd i wasanaethau teledu lleol yn debygol o'i gwneud yn haws i wylwyr ddarganfod y cynnwys maent yn ei ddarparu a helpu i wireddu manteision mynediad at raglenni a newyddion lleol. Fel y nodir ym mharagraff 3.29, o gofio am ein dyletswyddau statudol, rydym ni'n rhoi pwys penodol ar yr effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried nad oes unrhyw ofyniad rheoleiddio i gludo gwasanaethau lleol cydamserol, ac rydym o'r farn y byddai'r buddion cadarnhaol a ddarperir gan ddinasyddion a defnyddwyr drwy wasanaethau cydamserol lleol yn cael eu peryglu pe na bai rheolau amlygrwydd yn cymell llwyfannau nad ydynt yn DTT i gynnal y gwasanaethau hyn.
- 4.125 Rydym hefyd wedi ystyried yr effeithiau negyddol posibl ar rai cynulleidfaoedd. Anfantais rhoi gradd uwch o amlygrwydd ar gyfer gwasanaethau teledu lleol ar rai llwyfannau yw, yn achos cynulleidfaoedd sydd â diddordeb mewn cynnwys arall, y gallai lesteirio hygyrchedd hawdd sianeli eraill sydd ag apêl ehangach. Fodd bynnag, cymharol fach yw'r effeithiau negyddol posib gan mai dim ond lleiafrif o'r 24 slot uchaf, o dan ein cynigion ni, fyddai'n

¹⁹²Trwydded That's York, tud. 30 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/102707/York-L-DTPS-Licence-Granted-05-June-2017.pdf; Trwydded Your TV Manchester Ltd tud. 30

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/45265/Manchester-L-DTPS-Licence.pdf

¹⁹³ Trwydded That's North Yorkshire tud. 30

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/103427/Scarborough-L-DTPS-Licence-Granted-26-June-2017.pdf; Trwydded Your TV Manchester Ltd tud. 30 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/45265/Manchester-L-DTPS-Licence.pdf

¹⁹⁴ KMTV tud. 3-4 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0023/131189/KMTV.pdf

¹⁹⁵ Latest TV, https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131190/Latest-TV.pdf

¹⁹⁶ Virgin Media, tud. 3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/131210/Virgin-Media.pdf

¹⁹⁷ ITV, tud. 30 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/131186/ITV.pdf

cael eu llenwi gan sianeli dynodedig. Ar ben hynny, byddai gosod 'llawr' neu safle isaf posib ar gyfer gwasanaethau teledu lleol yn cadw lefel resymol o ddisgresiwn i ddarparwyr EPG.

Effaith ar sianeli teledu lleol

- 4.126 Nid oedd ein cynnig ymgynghori yn gofyn am unrhyw newid i sefyllfa DTPS lleol ar blatfform Freeview (oherwydd bod y gwasanaethau hyn eisoes yn unol â'r cynigion) ond byddai'n amddiffyn DTPS lleol ar y llwyfan hwn rhag lleihau amlygrwydd yn y dyfodol.
- 4.127 Mae ffigurau gwyllo gwasanaethau teledu lleol yn gymharol isel. Yn 2017, dangosodd ffigurau BARB fod cyfartaledd o 1.6 miliwn o aelwydydd (6%) yr wythnos yn gwyllo sianel deledu leol am o leiaf dair munud yn olynol. Er bod cyfyngiadau o ran mesuriadau BARB ar gyfer gwasanaethau teledu lleol, o ystyried nifer cyfyngedig o wasanaethau teledu lleol cofrestredig BARB, maent serch hynny'n dangos bod cyrhaeddiad y gwasanaethau hyn yn fychan.¹⁹⁸ Byddai rhestru gwasanaethau teledu lleol o fewn y 24 slot cyntaf yn cynyddu amlygrwydd ar EPG Sky a Virgin Media yn unig, gan fod gwasanaethau teledu lleol (DTPS lleol) eisoes yn ymddangos o fewn y 24 slot cyntaf ar EPG Freeview, ac mae'r data gwyllo sydd ar gael yn awgrymu y bydd unrhyw gynnydd mewn ffigurau gwyllo yn debygol o fod yn fychan.
- 4.128 Er y gallai ein cynigion, mewn egwyddor, fod wedi arwain at effeithiau cadarnhaol ar wyllo gwasanaethau cyd-ddarlledu lleol, nododd rhai rhanddeiliaid y gallai rhai llwyfannau ddewis peidio â chario gwasanaethau cyd-ddarlledu lleol mwyach. Dywedodd Virgin Media, 'Pe bai amlygrwydd o'r fath yn cael ei orfodi, byddai'r tarfu a achosir (gan gynnwys i ddefnyddwyr) yn sgil yr angen i ail-leoli sianeli eraill, o bosibl yn ei gwneud yn anodd cyfiawnhau cynnal y sianeli hyn yn y dyfodol.'¹⁹⁹
- 4.129 Er bod darparwyr gwasanaethau cyd-ddarlledu lleol wedi dod i gytundeb mewn rhai achosion ar gyfer cynnal eu gwasanaethau ar Virgin Media a Sky, nid yw pob gwasanaeth teledu lleol yn cael eu cynnal ar y llwyfannau hyn. Mae cynulleidfa darged ddaearyddol y sianeli hyn yn naturiol yn gyfyngedig, ac mae eu ffigurau gwyllo isel yn golygu nad yw rhoi'r gorau i ddarparu ar gyfer y sianeli hyn yn debygol o gael unrhyw effaith fasnachol sylweddol ar y darparwyr EPG hyn, ac mae'n annhebygol o achosi pryder sylweddol i'w cwsmeriaid yn y ffordd y gallai peidio â chynnal sianeli eraill effeithio ar y sianeli hynny. O dan yr amgylchiadau hyn, rydym o'r farn ei bod yn risg sylweddol y gallai ymyriad

¹⁹⁸ Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith, unigolion 4+. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol. Mae hyn yn seiliedig ar BARB yn mesur rhwng 12 ac 17 o wasanaethau teledu lleol yn ystod y flwyddyn honno (nad yw'n cynnwys rhwydwaith teledu That's TV, sy'n cynrychioli'r mwyafrif o drwyddedau teledu lleol). Adroddwyd ar ffigurau BARB ar gyfer 2017 yn Adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2018, tudalen 62:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf. Y gwasanaethau a fesurwyd gan BARB ar gyfer 2017 oedd: Estuary TV, Latest TV, Notts TV, NVTV Belfast, Sheffield Live TV (y Rhwydwaith Teledu lleol i gyd, wedi ei fesur ar BARB tan 2 Gorffennaf 2017); Made in Bristol, Made in Cardiff, Made in Leeds, Made in Newcastle, Made in Liverpool, Made in Birmingham (y Rhwydwaith Made TV i gyd), STV Glasgow, STV Edinburgh, STV2 Aberdeen, STV2 Ayr, STV2 Dundee (STV2 i gyd); a London Live (gweler Atodiad 1 i'r Adroddiad, Ffigur 2, tudalen 10: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0028/115993/media-nations-2018-methodologies-annex.pdf).

Mesurwyd llai o wasanaethau teledu lleol yn 2018, ac felly nid ydym wedi defnyddio'r mesuriadau BARB diweddaraf, gan y byddai llai o werth dangosol yn perthyn i'r rhain na data 2017.

¹⁹⁹ Ymateb Virgin Media, tudalen 3.

rheoliadol i fynnu lefel isafswm penodol o amlygrwydd ar lwyfannau heblaw DTT effeithio'n negyddol ar gynnal gwasanaethau cyd-ddarlledu lleol.²⁰⁰

Effaith ar ddarllodwyr eraill

- 4.130 Mae'r DTSP lleol (a ddarperir ar DTT) yn slotiau 7 ac 8 ar hyn o bryd. O ganlyniad, nid ydym yn disgwyl i'r gwasanaethau hyn na gwasanaethau darllodwyr eraill symud ar EPG Freeview.
- 4.131 O ran gwasanaethau lleol cyd-ddarlledu (a ddarperir ar lwyfannau eraill), gan dybio bod y gwasanaethau hyn yn parhau i gael eu cynnal, dan ein cynnig ymgynghori mae'n bosibl y byddai rhai darllodwyr wedi cael eu heffeithio'n andwyol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, rydym o'r farn y byddai risg sylweddol na fyddai gwasanaethau lleol cydamserol bellach wedi cael eu cynnal ar y platfformau hyn.

Effaith ar ddarparwyr EPG

- 4.132 O dan ein cynnig ymgynghori, ni fyddai darparwyr EPG ar DTT (sef y rhai sy'n defnyddio data EPG Freeview) wedi gorfod gwneud newidiadau. Felly ni fyddent yn wynebu unrhyw gost uniongyrchol.
- 4.133 Byddai wedi bod yn ofynnol i Sky wneud newidiadau i'w EPG rhanbarthol yng Nghymru, a byddai Virgin Media hefyd wedi gorfod gwneud newidiadau i'w EPG ledled y DU. Fel y nodwyd uchod, gallai'r costau, llai o hyblygrwydd ac aflonyddwch sy'n gysylltiedig â'r gofynion amlygrwydd mwy penodol hyn fod wedi peri i'r darparwyr EPG hyn ailystyried yr achos busnes dros gynnal gwasanaethau lleol cyd-ddarlledu yn gyfan gwbl.

Casgliad ynghylch teledu lleol

- 4.134 Ar ôl ystyried y ffactorau a nodwyd uchod, ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu mai'r amlygrwydd priodol i DTSP lleol (ar DTT) yw o fewn y 24 slot cyntaf y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig. Yn achos gwasanaethau lleol sydd wedi eu cyd-ddarlledu (ar lwyfannau eraill), rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n briodol pennu gofyniad sylfaenol penodol ar gyfer amlygrwydd. Fodd bynnag, rydym yn mynnu bod darparwyr EPG ar gyfer y platfformau hyn yn dyrannu slotiau ar eu EPG i wasanaethau lleol cyd-ddarlledu mewn ffordd sy'n rhoi lefel briodol o amlygrwydd yng ngoleuni natur a nodweddion y sianeli hyn a'u cynulleidfa arfaethedig.

²⁰⁰ Nododd rhanddeiliad dienw 'yn groes i'r graen, bydd Ofcom yn creu anghymhelliad i Virgin Media gynnal teledu lleol mewn rhai lleoliadau, fel yr Alban, drwy fethu ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni neilltuo un slot EPG ledled y DU ar gyfer yr holl wasanaethau teledu lleol. Yn lle hynny, gallai Virgin Media benderfynu rhoi slot EPG 'teledu lleol o Loegr' yn yr Alban i wasanaeth arall fel BBC Scotland. Byddai hyn o bosibl yn atal cytundebau cynnal teledu lleol gyda Virgin Media mewn rhai lleoliadau, tra bydd y gweithredwr yn parhau i arwerthu'r slotiau mwyaf blaenllaw i wneud y mwyaf o werth preifat'. Fel yr eglurwyd uchod, nid oes gofyniad rheoleiddiol i lwyfannau cebl neu loeren gynnal gwasanaethau cyd-ddarlledu lleol (yn wahanol i'r darpariaethau rheoleiddio i sicrhau cynnal DTSP lleol ar y gwasanaeth amlblecs lleol DTT perthnasol).

Effaith gronnus ein penderfyniadau

- 4.135 Wrth wneud ein penderfyniadau ar lefel yr amlygrwydd priodol ar gyfer sianeli dynodedig penodol, rydym wedi ystyried a allai effaith gronnus ein penderfyniadau yn gyffredinol fod yn wahanol i swm yr effeithiau a ystyriwyd ar sail unigol (fel y nodir uchod). Mae'r ffigur canlynol yn crynhoi sefyllfa bresennol sianeli dynodedig, y gofynion o dan y Cod EPG diwygiedig ac effeithiau masnachol wedi eu modelu.
- 4.136 Mae ein penderfyniadau yn golygu y bydd sianeli dynodedig yn ffurfio cyfran sylweddol o'r sianeli o fewn y 24 slot gyntaf (rhwng 33% a 38% ar EPG yr Alban yn benodol a rhai'r DU gyfan lle mae'r nifer fwyaf o sianeli dynodedig perthnasol) ond mae canran sylweddol o slotiau ar gael ar gyfer sianeli eraill. Mae hyn yn caniatáu cymysgedd o sianeli dynodedig a sianeli eraill sy'n caniatáu i ddarparwyr EPG barhau i gynnwys amrywiaeth o sianeli i fodloni anghenion defnyddwyr.
- 4.137 Nid ydym o'r farn bod effeithiau cronus ein cynigion yn wahanol i gyfanswm effeithiau ein cynigion o'u hystyried yn unigol.

Ffigur 1: Crynhoi'r rhwymedigaethau newydd o dan ein Cod EPG a'u heffaith

Sianel Ddynodedig	Rhwymedigaeth newydd	Effaith ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig ²⁰¹	Cost barhaus i sianeli masnachol (£m y flwyddyn) ²⁰²
BBC One, BBC Two, trwyddedeion Channel 3, Channel 4 a Channel 5	Slotiau 1-5 (ar EPG ledled y DU a'r rhai sy'n benodol i'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon)	Dim angen newid	Dim
S4C a Channel 4 ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig penodol i Gymru	Mae S4C yn slot 4 yng Nghymru a Channel 4 o fewn yr 8 slot gyntaf	Sky: 7 sianel fasnachol ac 1 sianel BBC wedi symud i lawr yn EPG Cymru	0.7-2.4 ²⁰³
		Freesat: Symudodd 9 sianel fasnachol a 3 sianel BBC i lawr yn EPG Cymru	
Sianeli eraill ledled y DU neu genedlaethol: BBC Four, BBC Scotland a BBC Alba yn yr Alban; ac S4C ar gyfeiryddion rhaglenni electronig ledled y DU	O fewn y 24 slot cyntaf	Virgin Media (S4C a BBC Alba): Symudodd 38 sianel fasnachol ac 1 sianel BBC i lawr yn yr EPG	<2.7 ²⁰⁴
		Sky (BBC Alba yn yr Alban): Symudodd 16 o sianeli masnachol i lawr yr EPG yn yr Alban	0.1
		Freeview (BBC Four yn yr Alban): Drwy symud BBC Four i slot 24: Symudodd 53 o sianeli masnachol i lawr yr EPG yn yr Alban [Drwy symud BBC Four i slot 10: symudodd 67 o sianeli masnachol i lawr yr EPG yn yr Alban]	0.4 [0.9]
Sianeli plant y BBC: CBBC a CBeebies	O fewn 8 slot cyntaf yr adran plant	Sky: symudodd 6 o sianeli masnachol i lawr yr EPG	0.3
BBC News a BBC Parliament	O fewn 8 slot cyntaf yr adran newyddion	Dim angen newid	Dim
Gwasanaethau teledu lleol	O fewn y 24 slot cyntaf ar EPG DTT yn unig	Dim angen newid	Dim

²⁰¹ Rydym yn defnyddio'r safleoedd sianel cyhoeddus ar EPG ar 12 Mehefin 2019 fel y sail ar gyfer newidiadau gofynnol i safleoedd EPG. Ffynhonnell: <https://www.sky.com/tv-guide> ar gyfer sianeli Sky (ar gyfer pob cenedl, rydym wedi defnyddio'r canllaw cyfatebol ar gyfer y genedl honno); <https://www.virginmedia.com/virgin-tv-edit/tips-and-tricks/virgin-tv-channel-guide.html> ar gyfer sianeli Virgin Media; <https://www.freeview.co.uk/tv-guide> a <https://www.freeview.co.uk/app/uploads/2019/04/Freeview-Channel-Guide-2019.pdf> ar gyfer sianeli Freeview (ar gyfer pob cenedl, rydym wedi defnyddio'r canllaw cyfatebol ar gyfer y genedl honno); a <https://www.freesat.co.uk/tv-guide/> ar gyfer sianeli Freesat (ar gyfer pob cenedl, rydym wedi defnyddio'r canllaw cyfatebol ar gyfer y genedl honno). Rydym hefyd yn cymryd yn ganiataol y bydd darparwyr EPG yn gweithredu ein penderfyniadau drwy symud sianeli i lawr un slot i

Delio â fersiynau HD o sianeli dynodedig

Safleoedd presennol

- 4.138 Ar adeg Cod EPG cyntaf Ofcom, dim ond mewn SD y darparwyd sianeli dynodedig. Pan gyflwynwyd Teledu Manylder Uwch (HD) i'r DU, nid oedd sianeli HD yn gyd-ddarllediadau union o sianeli manylder safonol (SD). Dros y blynyddoedd, wrth i wylwyr uwchraddio eu setiau teledu a'u blychau i ddyfeisiau sy'n gallu derbyn cyflenwad manylder uwch a dechrau gwyllo rhagor o raglenni manylder uwch, mae darlledwyr wedi buddsoddi mewn technoleg manylder uwch ac yn raddol wedi cyflwyno cyd-ddarllediadau union o sianeli SD mewn HD.
- 4.139 Fe wnaethom nodi yn ein hymgyngoriad, mewn rhai achosion, bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod eisiau caniatáu i'w cyd-ddarllediadau HD feddiannu safle mwy amlwg na'r hyn y mae gan eu sianeli DC hawl i'w gael, ac nid ydym wedi ystyried hyn fel achos o dorri'r Cod EPG yn y gorffennol.

Cynigion yr ymgynghoriad a themâu'r ymatebion

- 4.140 Fel y disgrifiwyd uchod, cafodd y Cod EPG ei ddrafftio cyn i sianeli dynodedig ddechrau darlledu mewn HD, felly nid yw'n ystyried fersiynau HD o sianeli dynodedig yn benodol. Yn ein hymgyngoriad, roeddem yn cynnig egluro yn y Cod EPG y byddai modd i gyd-ddarllediadau HD ddisodli'r amrywiad SD a chadarnhau mai dim ond un amrywiad fyddai'n cael yr amlygrwydd.
- 4.141 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno'n fras â'n cynigion i alluogi cyfnewid amrywiadau HD ac SD o sianeli dynodedig a pheidio â mynnu bod amrywiadau HD yn cael eu gwneud yn amlwg yn ogystal ag amrywiadau SD.²⁰⁵ Fodd bynnag, roedd rhai safbwyntiau eraill.

ddarparu ar gyfer pob sianel ddynodedig sy'n symud i fyny, ac yn achos EPG rhanbarthol, y bydd darparwyr EPG yn ceisio cynnal unffurfiaeth LCN ar draws y gwledydd.

²⁰² Mae'r ffigurau'n ddangosol yn unig.

²⁰³ Mae hwn yn amcangyfrif o gost gyfunol y rhwymedigaeth newydd ynghylch Channel 4 ar sianeli masnachol sy'n cael eu symud i lawr ar EPG Freesat a Sky yng Nghymru. Gall hyn fod yn or-amcangyfrif.

²⁰⁴ Dyma gyfanswm yr effaith fasnachol ar lwyfan Virgin Media. Tybiwn y bydd Virgin Media yn dyrannu slotiau EPG yn dilyn trafodaethau masnachol. O ganlyniad, bydd rhan o'r effaith hon ar y sianeli masnachol sy'n symud i lawr yr EPG, a bydd gweddill yr effaith ar Virgin Media fel darparwr EPG.

²⁰⁵ Er enghraifft, YouView, tud. 2-3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0012/131214/YouView-TV.pdf, MG Alba (tud. 2); MG Alba, tud. 3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0016/131191/MG-Alba.pdf; COBA, paragraffau 10.1 a 11.1 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf; BT, tud. 7 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/131179/BT.pdf; VLV, paragraffau 53-54 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf Yr Ymddiriedolaeth Ddarlledu Ryngwladol, paragraffau 49-50 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0019/131185/International-Broadcasting-Trust.pdf; S4C, tud. 4 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0023/131198/S4C-English.pdf; STV, tud. 4 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/131204/STV.pdf; Samsung, tud. 7 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/131201/Samsung.pdf; Arqiva, tud. 5 (yn amodol ar ddichonolrwydd technegol) https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/131177/Arqiva.pdf; Digital UK, tud. 5-

- 4.142 Roedd rhai rhanddeiliaid eisiau i'r defnydd o HD gael ei annog drwy'r gyfundrefn amlygrwydd, drwy hyrwyddo amrywiadau HD cyn eu fersiynau SD cyfwerth.²⁰⁶ Dadleuodd eraill y gallai cyfnewidiadau HD/SD achosi dryswch i wylwyr,²⁰⁷ tra bod rhai yn ffafrio adlewyrchu amlygrwydd sianeli dynodedig SD yn adran HD EPG.²⁰⁸

Rhesymu a phenderfynu

- 4.143 Gan mai mater technegol yw amlygrwydd sianeli HD yn bennaf, ac, mewn rhai achosion, bod hynny'n adlewyrchu effeithiau'r sianel SD ddynodedig berthnasol, nid ydym wedi ailadrodd y dadansoddiad fesul sianel yma. Yn lle hynny, rydym wedi ystyried dadleuon penodol a wnaed gan rhanddeiliaid ar sianeli HD a'r dystiolaeth sydd ar gael.
- 4.144 Yn ogystal â dadleuon a wnaed ar annog pobl i fanteisio ar HD a'r potensial i beri dryswch ymhlith y gynulleidfa, cafwyd cyflwyniadau gan rhanddeiliaid mewn perthynas â'r pynciau a ganlyn hefyd:
- a) pwy ddylai benderfynu ar gyfnewid SD ag amrywiadau HD (Sky, C4C a'r BBC);²⁰⁹
 - b) mae dosbarthiad gwasanaethau HD yn aml yn seiliedig ar wahanol delerau masnachol na'r amrywiad SD (STV),²¹⁰ a all fod yn ffrwd refeniw bwysig i ddarlledwyr, ac ni ddylid ei beryglu (ITV);²¹¹
 - c) anawsterau sy'n gysylltiedig â chyfnewid SD ag amrywiadau HD - er enghraifft, o ganlyniad i setiau teledu a blychau pen-set etifeddol nad ydynt yn gallu dangos deunydd manylder uwch, a/neu'r gost uchel o gynnyg amrywiadau rhanbarthol mewn HD (Arqiva, Digital UK, Ymateb dienw 1, ITV, BT).²¹²

Rydyn ni'n ystyried pob un o'r materion hyn yn eu tro.

6 (yn amodol ar ddichonolrwydd technegol) https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/131183/Digital-UK.pdf ac Ymateb dienw 1, tud. 3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/131192/Name-Withheld-1.pdf.

²⁰⁶ Tech UK, tud. 4-5 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0012/131205/techUK.pdf; Ymateb dienw 3, tud. 2-3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/131194/Name-Withheld-3.pdf a Virgin Media, tud. 3-4 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0008/131210/Virgin-Media.pdf.

²⁰⁷ Ymateb dienw 2, tud. 4-5 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0018/131193/Name-Withheld-2.pdf

²⁰⁸ C4C, tudalennau 26-27 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf; Digital UK, t6 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/131183/Digital-UK.pdf a'r BBC, t12 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/131178/BBC.pdf ac <https://www.ofcom.org.uk/resources/documents/consultations/category-1/116265-epg-code-and-prominence-regime/responses/bbc-response-additional-information.pdf>

²⁰⁹ Sky, paragraff A5.11 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF; C4C 4, tud. 26-27 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf a'r BBC, paragraff 47 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/131178/BBC.pdf

²¹⁰ STV, tud. 5 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0011/131204/STV.pdf

²¹¹ ITV, tud. 31, https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/131186/ITV.pdf

²¹² Arqiva, tud. 5 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/131177/Arqiva.pdf; Digital UK, tud. 5-6 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/131183/Digital-UK.pdf Ymateb dienw 1, tud. 3 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/131192/Name-Withheld-1.pdf; ITV tud. 31-31, https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/131186/ITV.pdf a BT, tud. 7 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/131179/BT.pdf

- 4.145 Mae nifer o randdeiliaid wedi annog Ofcom i ddefnyddio'r gyfundrefn amlygrwydd fel lifer i ategu'r gwaith o gyflwyno HD ymhellach. Er ein bod o blaid cyflwyno HD gan ei fod o fudd i wylwyr brofi gwasanaethau teledu o ansawdd gwell, ein safbwynt ni yw y dylai'r gyfundrefn amlygrwydd weithredu mewn ffordd sy'n galluogi twf technoleg ac arloesi, nid pennu pa dechnoleg ddylai fod yn drech na'r llall. Mae dull presennol y diwydiant o gyfnewid amrywiadau HD lle maent yn gyd-ddarllediadau union o fersiwn SD perthnasol sianel yn gyson â hyn ac yn adlewyrchu'r ffaith ein bod mewn cyfnod o drawsnewid technolegol.
- 4.146 Lle mae'r fersiwn HD yn gyd-ddarllediad union o'r fersiwn SD, nid ydym o'r farn bod cyfnewid y fersiynau sianel hyn ar yr EPG yn peri dryswch i wylwyr. Yn neilltuol, mae modd darganfod fersiwn o'r sianeli dynodedig yn hawdd bob amser a gall gwylwyr weld yr un rhaglenni ar y naill fersiwn neu'r llall o'r sianel (gall gwylwyr hefyd deilwra eu EPG i weddu i'w dewisiadau gwyllo - er enghraifft, drwy dagio sianeli penodol fel ffefrynnau).
- 4.147 O ran pwy sy'n pennu cyfnewid sianeli SD/HD, mae darlledwyr PSB wedi cytuno'n fasnachol â rhai llwyfannau i gyfnewid union gyd-ddarllediadau rhai o'u sianeli fel bod y fersiwn HD yn cael y slot mwy amlwg ar yr EPG.²¹³ Fodd bynnag, rydym mewn cyfnod pontio o hyd. Er enghraifft, mae rhai amrywiadau lleol o hyd ynn achos sianeli dynodedig lle nad oes ganddynt gyd-ddarllediadau union mewn HD. Yn fwyaf nodedig, dealltwriaeth Ofcom yw:
- a) Mae BBC1 England HD yn fersiwn rhwydwaith a ddangosir ledled Lloegr, sy'n golygu mai dim ond mewn SD y mae rhaglenni lleol ar BBC1 ar gael (gwahoddir gwylwyr sy'n gwyllo BBC1 England HD i newid i fersiwn SD y sianel pan fydd rhaglenni lleol yn cael eu dangos, drwy gyfrwng neges ar y sgrin);
 - b) nid yw rhai amrywiadau rhanbarthol ITV ar gael mewn HD, ac os felly mae fersiwn HD y tu allan i'r rhanbarth o ITV ar gael i'r rhanbarth (yn ogystal ag amrywiad rhanbarthol SD y rhanbarth perthnasol).²¹⁴
- 4.148 Yn ystod cyfnod o'r fath o drosglwyddo i HD, ac yng ngoleuni arferion presennol cyfnewid sianeli (lle mae fersiwn HD sianel ddynodedig ar gael yn gynyddol yn y slot mwy amlwg lle mae'n gyd-ddarllediad union), credwn y byddai'n anghymesur i Ofcom bennu rhwymedigaethau amlygrwydd ar ddarparwyr EPG mewn perthynas ag amrywiadau SD a HD, er enghraifft, drwy fynnu bod amrywiadau HD yn cael eu gwneud yn amlwg mewn is-ddewislen HD benodol.
- 4.149 Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr EPG wedi bod yn trafod telerau cynnal fersiynau SD a HD o sianeli dynodedig yn llwyddiannus ers peth amser ac ni welwn unrhyw gyfiawnhad dros ymyrryd â'r ecoleg hon. Gan hynny, rydym yn bwriadu gadael i'r

²¹³ Nodwn hefyd fod Virgin Media wedi cytuno'n ddiweddar â'r BBC i roi'r gorau i gynnal fersiwn SD o rai sianeli lle mae'r amrywiad HD yn gyd-ddarllediad union (e.e. BBC Scotland, BBC Four, BBC News, CBBC a Cbeebies). Mae hyn mewn cyd-destun lle nad yw llwyfan Virgin Media bellach yn cynnal derbynwyr SD, fel bod ei holl danysgrifwyr yn defnyddio dyfeisiau sy'n gallu dangos deunydd manylder uwch. Gweler datganiad i'r wasg Virgin Media, 19 Chwefror 2019: <https://www.virginmedia.com/virgin-tv-edit/customer-exclusive/channel-number-changes-march.html>.

²¹⁴ Mewn achosion o'r fath, arfer y diwydiant fu i'r fersiwn SD aros yn y slot mwyaf amlwg ar EPG llwyfannau.

rhanddeiliaid hyn gytuno ar delerau unrhyw drefniant cyflwyno a chyfnewid rhaglenni HD ymhellach.

- 4.150 Ar setiau a blychau etifeddiaeth, roedd setiau teledu 74% o aelwydydd y DU yn barod i wyluo rhaglenni mewn HD neu Ultra HD-4K ym mis Rhagfyr 2018, ac mae hyn wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.²¹⁵ Yn ogystal, yn ôl yr hyn a ddeallwn, er y gellid gwerthu rhai derbynyddion teledu SD yn unig yn y DU yn ddamcaniaethol, byddai gwerthiant o'r fath yn fychan iawn. Mae hyn oherwydd, ers dechrau 2016, dim ond ar gyfer setiau teledu HD ac Ultra HD yr oedd modd defnyddio logo brand Freeview. Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod gan y mwyafrif o aelwydydd y DU setiau teledu HD yn barod, ac wrth i dreiddiad HD barhau, gallwn ddisgwyl i ragor o aelwydydd wneud hynny dros y blynyddoedd nesaf.
- 4.151 Yn ôl ein dealltwriaeth a'n disgwyliad, pan gytunir ar gyfnewid sianeli HD rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau, nid yw hyn yn arwain at y slot mwy amlwg ar gyfer y sianel ddynodedig honno yn bod yn wag ar gyfer gwylwyr (boed yn HD neu'n SD). Er enghraifft, dylai gwylwyr sy'n defnyddio setiau teledu neu dderbynwyr etifeddol weld fersiwn SD y sianel ddynodedig o hyd - er enghraifft, BBC1, yn y slot EPG mwy amlwg ar gyfer y sianel honno, h.y. slot cyntaf yr EPG.

Casgliad ar HD/SD

- 4.152 Wrth ystyried argaeledd gwasanaethau, nifer y bobl sy'n eu defnyddio a thystiolaeth arall sydd ar gael - gan gynnwys ymatebion rhanddeiliaid - ac er mwyn sicrhau rhagor o eglurder rheoleiddiol, rydym wedi penderfynu diwygio'r Cod EPG fel y gellir bodloni'r gofynion amlygrwydd mewn perthynas â fersiwn teledu HD sianel ddynodedig yn lle fersiwn teledu SD y sianel honno, lle mae'r fersiwn teledu HD yn gyd-ddarllediad union o'r fersiwn teledu SD.

Cyfnod pontio a'r camau nesaf

Cynnig yr ymgynghoriad

- 4.153 Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd i rhanddeiliaid a oeddent yn cytuno â'n cynnig i ddarparu cyfnod pontio neu weithredu o 12 mis ar ôl i'r Cod EPG gael ei gwblhau i wneud unrhyw symudiad sianel yn ofynnol o dan y Cod EPG.

Themâu yn ymatebion y rhanddeiliaid

- 4.154 Cawsom amrywiaeth o safbwyntiau ar y cyfnod pontio arfaethedig. Cytunodd PACT, WGGB a COBA â'n cynnig ar gyfer cyfnod pontio 12 mis.²¹⁶ Mae VLV, IBT a Digital UK eisiau i'r Cod

²¹⁵ Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o Arolwg Sefydliadau BARB, Chwarter 3 2011 i Chwarter 3 2018.

²¹⁶ PACT tud. 12 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/131195/PACT.pdf, Writer's Guild of Great Britain tud. 2 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0011/131213/Writers-Guild-of-Great-Britain.pdf, COBA tud. 22 https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/131181/COBA.pdf

EPG gael ei weithredu'n llawn cyn gynted â phosibl.²¹⁷ Roedd y BBC o'r farn bod yr amserlen yn heriol ond hefyd o'r farn y dylid ei weithredu cyn gynted â phosibl.²¹⁸ Cytunodd C4C a BT hefyd â'n cyfnod pontio 12 mis, gan ddweud ei bod yn bwysig bod Ofcom yn cyflwyno isafswm cyfnod lle dylai llwyfannau sicrhau amlygrwydd ar gyfer unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus newydd neu ddynodedig.²¹⁹ Cytunodd S4C â'r cyfnod pontio arfaethedig fel uchafswm.²²⁰ Awgrymodd STV gyfnod pontio o 6 mis.²²¹

- 4.155 Fodd bynnag, cododd nifer o randdeiliaid bryderon am y cyfnod pontio arfaethedig. Argymhellodd Sky gynyddu'r cyfnod i 18 mis.²²² Dywedodd Virgin Media ac Ymateb dienw 2 y byddai'n rhaid i gyfnod o 12 mis fod yn isafswm.²²³ Dadleuodd YouView hefyd y gall gymryd mwy na 12 mis iddo ymateb i unrhyw newid pe bai angen i Digital UK adolygu ac ymgynghori arnynt.²²⁴ Rhybuddiodd Freesat y gallai rhai cynigion fod angen gwaith technegol sylweddol ac felly gofynnwyd am estyniad i ddod â'r cyfnod pontio yn nes at 18 mis.²²⁵ Roedd Samsung hefyd yn anghytuno â'n llinell amser arfaethedig, gan ddatgan bod gan lwyfannau byd-eang fel eu rhai eu hunain gyloch datblygu 12 mis sy'n golygu bod angen cytuno ar gynlluniau ymlaen llaw. Awgrymodd gyfnod pontio o 18-24 mis ar ôl i'r Cod EPG gael ei gwblhau.²²⁶ Dywedodd KMTV hefyd fod 12 mis yn rhy fyr-rybudd i orsafoedd teledu wneud addasiadau masnachol.²²⁷
- 4.156 Dywedodd ITV hefyd nad yw 12 mis yn ddigon o amser, gydag ad-drefnu DTT wedi cymryd rhwng 18 mis a dwy flynedd yn y gorffennol. Mae ITV yn awgrymu y dylai Ofcom nodi trefniadau os metha popeth arall dros gyfnod o ddwy flynedd i gwblhau newidiadau. Fodd bynnag, mae ITV o'r farn y byddai'n well caniatáu i gydymffurfiaeth ddigwydd dros amser drwy 'hawl i ddyrchafiad' ar gyfer unrhyw wasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn slotiau nad ydynt yn cydymffurfio pan ddaw slotiau uwch ar gael.²²⁸ Mae techUK yn cytuno y dylid cael cyfnod pontio ond y byddai hyd y cyfnod hwn yn dibynnu ar ba gam yn y cylch datblygu cynnyrch y caiff newidiadau i'r Cod EPG eu gweithredu.²²⁹
- 4.157 Roedd llawer o ymatebwyr yn awyddus i weld y Cod EPG newydd yn cael ei weithredu cyn gynted â phosibl, gan ddadlau y byddai gweithredu'r gofynion o fewn amserlen fyrrach yn golygu y byddai'r manteision yn cael eu cyflawni'n gynharach. Fodd bynnag, nododd

²¹⁷ VLV tud. 9 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0009/131211/Voice-of-the-Listener-and-Viewer.pdf, IBT tud. 9 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0019/131185/International-Broadcasting-Trust.pdf, Digital UK tud. 6-8 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/131183/Digital-UK.pdf

²¹⁸ BBC, paragraff 48 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/131178/BBC.pdf

²¹⁹ C4C tud. 27 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/131180/Channel-4.pdf, BT tud. 7 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/131179/BT.pdf

²²⁰ Ymateb S4C, tud. 3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0023/131198/S4C-English.pdf

²²¹ STV, tud. 5 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/131204/STV.pdf

²²² Sky, tud. 57 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/131203/Sky.PDF

²²³ Virgin Media tud. 4 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/131210/Virgin-Media.pdf, Ymateb dienw tud. 5 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0018/131193/Name-Withheld-2.pdf

²²⁴ YouView tud. 3 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0012/131214/YouView-TV.pdf

²²⁵ Freesat, tud. 1 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/144101/Freesat.pdf

²²⁶ Samsung tud. 7 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/131201/Samsung.pdf

²²⁷ KMTV tud. 3-4 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0023/131189/KMTV.pdf

²²⁸ ITV tud. 32 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/131186/ITV.pdf

²²⁹ TechUK, tud. 5 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0012/131205/techUK.pdf

ymatebwyr eraill yr angen i ddarparwyr EPG a darlledwyr eraill gael cyfnod pontio i gynllunio a gweithredu unrhyw newid angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys amser i ddarparwyr EPG ymgynghori â rhai a fydd yn cael eu heffeithio.

Ein penderfyniad ar y cyfnod pontio a'r camau nesaf

- 4.158 Rydym wedi ystyried dadleuon a wnaed ynglŷn â gweithredu fesul cam, lle mae darparwyr EPG yn gweithredu gofynion ein Cod EPG pan fydd slotiau ar gael ar gyfer sianeli dynodedig nad ydynt mewn safle digon amlwg yn barod. Fe wnaethom holi darparwyr EPG (Sky, Digital UK, Virgin Media a Freesat) am argaeledd slotiau rhydd dros y 5 mlynedd diwethaf o fewn eu tair tudalen gyntaf. Nododd un darparwr fod un slot ar gael ledled y wlad, dau yn yr Alban ac un yng Nghymru ar ei EPG. Dywed darparwyr EPG eraill bod un slot wedi bod ar gael yn ystod y cyfnod hwn ar ei EPG. Mae hyn yn awgrymu mai yn anaml y bydd slotiau ar gael o fewn 24 slot cyntaf yr EPG.²³⁰ Nid ydym o'r farn bod cyfnod gweithredu ar raddfa wahanol ar gyfer y Cod EPG yn ddewis ymarferol, gan ein bod o'r farn bod ganddo'r potensial i olygu na fyddai rhai o'r gofynion yn y Cod EPG byth yn cael eu gweithredu gan rai darparwyr EPG, ac o ganlyniad ni fyddai sianeli dynodedig yn amlwg iawn ar rai cyfeiryddion rhaglenni electronig.
- 4.159 Er ein bod yn derbyn y bydd cyfnod gweithredu hirach yn oedi gwireddu'r manteision i'r sianeli hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn amlwg iawn, rydym eisiau sicrhau bod gan ddarparwyr EPG a darlledwyr amser rhesymol i gynllunio ar gyfer newidiadau a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn er budd cynulleidfaoedd - er enghraifft, drwy ganiatáu amser ar gyfer profion technegol.
- 4.160 Ar sail adborth gan ymatebwyr ynghylch yr amser sydd ei angen i ymgynghori ar newidiadau i'r EPG a'r amser sydd ei angen i wneud newidiadau technegol, rydym wedi penderfynu ar gyfnod gweithredu o 18 mis. Bydd ein newidiadau i ofynion amlygrwydd priodol y Cod EPG yn dod i rym ar 4 Ionawr 2021. Ar y dyddiad hwnnw, bydd y testun a nodir yn [Atodiad 5](#) yn disodli'r adran amlygrwydd briodol bresennol yn y Cod EPG.

²³⁰ Gwybodaeth a ddarparwyd i Ofcom gan ddarparwyr EPG

Geirfa a byrfodau

Adroddiad 2018: Adroddiad Ofcom ynghylch argaeledd a pha mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus a theledu lleol

Y Ddeddf: Deddf Cyfathrebiadau 2003.

BARB: Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaeodd Darlledwyr.

Sianelau Dynodedig: Holl wasanaethau teledu'r BBC; gwasanaethau Sianel 3 (gan gynnwys ITV a STV); Channel 4; Channel 5; S4C; gwasanaethau rhaglenni teledu digidol lleol; a gwasanaethau cyd-ddarlledu lleol.

Teledu daearol digidol (DTT): Y dechnoleg teledu sy'n cludo'r gwasanaeth Freeview.

Cyfeirydd rhaglenni electronig (EPG): A programme schedule, typically broadcast alongside digital television, to provide information on the content and scheduling of current and future television programmes and access to those programmes.

Y Cod EPG: Cod ymarfer Ofcom ar gyfer darparwyr cyfeiryddion rhaglenni electronig.

Darparwyr EPG Unrhyw sefydliad sy'n darparu cyfeirydd rhaglenni electronig yn unol â diffiniad adran 310 y Ddeddf Cyfathrebiadau ar drwydded o dan y Ddeddf Darlledu. Y prif ddarparwyr EPG trwyddedig presennol yw Digital UK, Sky, Virgin Media, Freesat, YouView, EE a BT.

Teledu Lleol: Mae gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol wedi ei gynnwys mewn gwasanaeth amblecs teledu, gyda'r bwriad o'i drosglwyddo mewn ardal neu fro benodol yn unig. Mae gwasanaeth cyd-ddarlledu lleol yn cyfateb i wasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol ac yn cael ei ddarlledu ar lwyfannau cebl neu loeren neu ar-lein.

Rhif Sianel Rhesymegol (LCN): Y rhif a ddyrannwyd i wasanaeth rhaglenni ar EPG e.e. Yn aml dyrennir LCN 1 i BBC1.

Y Pum Prif Sianel PSB: BBC One, BBC Two, gwasanaethau Sianel 3 (ITV ac STV), Channel 4 a Channel 5.

Sianeli sy'n benodol i genedl ac ardal: S4C, BBC Alba, teledu lleol, BBC Scotland.

EPG penodol i genhedloedd: Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n cael eu rhannu'n rhanbarthol, lle mae rhestrau sianeli yn amrywio yn dibynnu ar y genedl neu'r rhanbarth.

Sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill ledled y DU: BBC Four, BBC News, BBC Parliament, Cbeebies a CBBC.

Lwyfannau teledu drwy dalu: Llwyfannau sy'n cynnig mynediad at sianeli llinol (ac apiau a chynnwys ffrydio trydydd parti o bosibl), drwy focs pen-set, drwy danysgrifiad.

Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB): BBC, trwyddedeion Sianel 3 (ITV ac STV), Corfforaeth Channel 4, Channel 5 ac S4C.

Blychau pen-set: Dyfais sy'n galluogi set deledu i ddod yn rhyngwyneb defnyddiwr i'r rhyngwryd a/neu i dderbyn a dadgodio darllediadau teledu digidol (e.e. blwch pen-set Now TV).

EPG ledled y DU: EPG sydd yr un fath ym mhob un o ranbarthau a chenedloedd y DU - mewn geiriau eraill, heb eu rhannu'n rhanbarthol.